www.ecorwyddfa.co.uk

# ECO'r Wyddfa

£1

RHIF 497
Ionawr 2022



## Croeso 2022!

Ydach chithau hefyd yn holi i ble aeth 2021, a sut y daeth 2022 dros y gorwel mor gyflym?! Doedd 2021 ddim heb ei helbulon a'i thristwch, o Covid-19 i Afghanistan, ond mae'n rhaid i ni edrych ymlaen yn obeithiol at bosibiliadau'r flwyddyn newydd.

Rydym ni yma ym mro'r *Eco* yn hynod lwcus o'n pobl a'n cymuned ac o'r amgylchedd fendigedig sydd o'n cwmpas. Mae yna ffrind neu deulu y gall rhywun droi ato, a rhywle braf i fynd am dro pan fydd angen clirio'r pen. Down at ein gilydd felly yn 2022 i gefnogi'r naill a'r llall a dathlu a diolch am ein bro.

## Pwy ydi Eryri i chi?

Nid ***beth*** yw Eryri, ond ***pwy***? Dyna oedd y cwestiwn ofynnwyd gan Pontio a Pharc Cenedlaethol Eryri i ddisgyblion ysgol fel rhan o gystadleuaeth i ddathlu penblwydd y Parc yn 70 oed.

Cafodd disgyblion celf blwyddyn 13 Ysgol Brynrefail gyfle i gymryd rhan mewn gweithdy dan arweiniad staff Pontio, ac yn dilyn y gweithdy hwnnw y creodd Gwernan Brooks y darlun buddugol arbennig hwn. Llongyfarchiadau mawr i Gwernan, a gobeithio y byddi'n parhau i greu mwy o gampweithiau i'r dyfodol!

Darllenwch yr hanes yn llawn ar dudalen 18 o dan 'newyddion Ysgol Brynrefail'.




## Yn y rhifyn hwn:




- Athrawon Brynrefail y 50au, a'u ceir - tud 19



- Croesawu awdur llyfrau plant i'r fro - tud 5



- Traddodiadau'r flwyddyn newydd - tud 7




- Disgyblion Brynrefail yn gwneud argraff ar Cadw - tud 18
- Cwis Chwaraeon 2021 - tud 30


*Elin Enfys*

**Chwilio am Elin Enfys**

**Ble mae Elin Enfys? Dewch o hyd iddi'n cuddio mewn 8 lle yn y papur.**



www.ecorwyddfa.co.uk
ECO'r Wyddfa

CYMRAEG

**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

**Golygydd Chwaraeon**
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Golygydd yr Ifanc**
Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

**Ffotograffydd**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Dylunydd**
Elgan Griffiths
post@elgangriffiths.com

**GOHEBWYR PENTREFI**

**Bethel**:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Brynrefail:**
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail. 01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

**Caeathro:**
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Deiniolen:**
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

**Dinorwig:**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 01286 870292.

**Llanberis:**
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis. 01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

**Llanrug:**
Eryl Roberts.
Peris, 56 Glanffynnon, Llanrug.
01286 675384.

**Nant Peris:**
Kate Pritchard
01286 870189.
econantperis@hotmail.com

**Penisarwaun:**
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

**Waunfawr:**
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk

## Panel Golygyddol

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658

## Dathlu rhifyn 500 o'r Eco

Diolch yn fawr i'r rhai hynny ohonoch sydd wedi cysylltu â ni gyda'ch syniadau am sut y gallwn ddathlu cyhoeddi rhifyn rhif 500 o *Eco'r Wyddfa*. Ia wir, rhifyn mis Ebrill 2022 fydd y 500fed un i'w gyhoeddi - tipyn o gamp!

Mae yna waith ar y gweill i baratoi at y penblwydd arbennig hwn, ond os oes gennych chi syniadau am sut rifyn yr hoffech ei weld, neu am weithgareddau y gallwn eu cynnal yna mae croeso i chi gysylltu. Gallwch ffonio Nesta Elliott ar 07825 586658 neu ebostio ecorwyddfa@gmail.com


ECO'R WYDDFA

BETH DDAW O'R YSGOL?

EICH PAPUR CHI

Clawr rhifyn cyntaf Eco'r Wyddfa, fis Chwefror 1976

## Panel Golygyddol yr Eco yn apelio am help

Gobeithio'n fawr eich bod yn mwynhau darllen yr Eco bob mis.

Mae bron i ddwy flynedd ers i Banel Golygyddol presennol yr *Eco* gael ei ffurfio. Bron ar unwaith daeth y Cyfnod Clo i amharu ar ei waith, a bu raid bodloni ar gyhoeddi dau neu dri rhifyn o'r *Eco* ar y we. Ond ers blwyddyn bellach mae'r *Eco* wedi bod yn ei ôl ar bapur.

Mae aelodau'r Panel Golygyddol yn mwynhau'r gwaith, ond mae'n deg nodi mai criw bach sydd wrthi, a bod llai ohonom nag a awgrymwyd pan ffurfiwyd y Panel presennol gyntaf.

Mae dyfodol yr *Eco* wedi bod yn ansicr fwy nag unwaith dros y blynyddoedd am fod y gwaith o'i gynhyrchu wedi mynd yn faich ar ychydig o bobl. Rhag i hynny ddigwydd eto, mae'r Panel Golygyddol yn awyddus i gael rhagor o bobl i'w helpu. Mae gennym dîm brwdfrydig sy'n cydweithio'n dda, a gobeithio bydd hynny'n ei gwneud yn haws i rywrai newydd ymuno â ni. Po fwyaf o bobl sy'n helpu, ysgafnaf y gwaith wrth gwrs.

Byddem yn falch o gael help efo gwahanol dasgau fel: rhoi trefn ar negeseuon e-bost sy'n cyrraedd yr Eco; creu cynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol; hel syniadau am erthyglau; gwneud ambell alwad ffôn i holi am erthyglau; teipio'r ychydig ddeunydd sy'n ein cyrraedd ar bapur; golygu erthyglau; darllen proflenni wedi i'r papur gael ei osod.

Byddai unrhyw help yn werthfawr, a does dim rhaid i bawb fedru helpu bob mis hyd yn oed. Gallwch ddewis pa un (neu fwy!) o'r tasgau sy'n apelio fwyaf atoch, ac rydym yn dîm sydd bob tro yn rhannu'r baich a chefnogi ein gilydd.

Rydym hefyd yn apelio'n daer am unrhyw un, neu grŵp o bobl, i gamu ymlaen i fod yn ohebwyr pentref. Os ydych chi'n byw yn Llanrug neu Benisarwaun, yna mae'r ddau bentref hwnnw eich angen chi! Heb ohebwyr pentref y gwir ydi na fyddai 'newyddion pentref' yn ymddangos yn yr *Eco* bob mis, a byddai'n dristwch o'r mwyaf ein gweld yn cyrraedd y sefyllfa honno.

Ydych chi'n chwilio am her newydd ar ddechrau blwyddyn newydd? Ystyriwch ymuno â thîm yr *Eco*!

Am ragor o fanylion anfonwch neges e-bost at ecorwyddfa@gmail.com

Edrychwn ymlaen at glywed gan amryw ohonoch sy'n awyddus i weld yr Eco'n ffynnu ac yn mynd o nerth i nerth mewn cyfnod cyffrous wrth i nesáu at gyhoeddi 500fed rhifyn y papur.

## Dyddiadau i'w cofio...

| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Chwefror | 14 Ionawr | 28 Ionawr |
| Mawrth | 11 Chwefror | 25 Chwefror |
| Ebrill | 11 Mawrth | 25 Mawrth |

## Rhoddion

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru


**£2 Di-enw, Llanrug.**
**£20 Di-enw, Llanberis.**
**£20 Goronwy Lewis, Llanberis.**

# NADOLIG 'CAMP CALAIS'

**Di-aelwyd yw Nadolig – rhai ar ffo**
**tua'r ffin Brydeinig.**
**Herio'r môr, nid chwarae mig;**
**galanast o galennig.**
**RLLJ**



Llun: iStockphoto




## Yn ystod y mis aeth heibio...

Yn ystod y mis aeth heibio...

- **Stêc aur.** Tŷ bwyta yn Llundain yn cynnig stêc am bris rhwng £850 a £1,000, a chwsmeriaid yn heidio yno. Lluniau o'r biliau am bryd o fwyd yno yn cael eu rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol. (Oedd, roedd un cwsmer wedi talu £37,000 am bryd o fwyd yno). Nid y pris ei hun sy'n codi cyfog, ond y ffaith fod cymaint o bobl yn brolio eu bod yn gallu gwario'r fath swm o arian am un pryd o fwyd.
- **Pêl-droed.** Hyfforddwr tîm yn yr Ariannin yn cael ei saethu pan ddechreuodd cefnogwyr dau dîm ymladd â'i gilydd.
- **Criced.** Hiliaeth yn rhemp yng Nghlwb Criced Swydd Efrog, a nifer helaeth o'r staff yn ymddiswyddo. Dirwy gan y Bwrdd Criced Cenedlaethol a'r sir yn colli'r hawl i gynnal gemau rhyngwladol. Colli cefnogaeth llawer o'u noddwyr hefyd.
- **Gŵydd.** Aderyn a fu'n byw yn harbwr Watchet, Gwlad yr Haf am ddeng mlynedd yn diflannu, a thrigolion y dref yn gweld ei cholli. Mae'n debyg ei bod yn cael ei hadnabod fel 'Gwarchodwraig y Marina'. Mae cynllun ar droed i adeiladu cofeb iddi. Ei henw oedd Derek.
- **Landlordiaid.** Dinas Amsterdam yn ceisio datrys problem prynu tŷ yng nghanol y ddinas oherwydd bod landlordiaid cyfoethog a barus yn hawlio'r farchnad ac yna'n codi crocbris o rent. Pasio deddf sy'n mynnu fod unrhyw un sy'n prynu tŷ gwerth £400,000 neu fwy yn gorfod byw ynddo am o leiaf bedair blynedd. Mae disgwyl i ddinasoedd Rotterdam, Yr Hague a Nijmegen ddeddfu'r un modd yn ystod Ionawr. Oes yna ateb yma i broblemau ail-gartrefi yng Nghymru?
- **Kuku Yalanji.** Pobl frodorol Cape York yng ngogledd Awstralia yn cael eu tiroedd traddodiadol yn ôl gan y Llywodraeth. Mae'r tiroedd yn cynnwys Parc Cenedlaethol Daintree; y goedwig drofannol hynaf yn y byd.
- **Tymheredd.** Mae tymheredd y blaned wedi cynyddu mwy o fewn y 150 o flynyddoedd diwethaf nag a wnaeth yn y 24,000 o flynyddoedd cyn hynny.
- **Ecuador.** Cyfreithwyr cyfansoddiadol y llywodraeth yn teithio milltiroedd i ganol jyngl yr Amazon i wrando apêl llwythau cyntefig am yr hawl i wrthwynebu cwmniau masnachol rhag difetha eu tiroedd ar gyfer mwyngloddio. Dyma'r tro cyntaf erioed i frodorion cyntefig coedwigoedd yr Amazon gael gwrandawiad cyfreithiol.
- **Dail ar y lein.** Dyna oedd esgus rhai cwmniau rheilffyrdd rai blynyddoedd yn ôl am anallu eu trenau i deithio. Yn dilyn esgusodion y llywodraeth am beidio cadw at eu haddewid o adeiladu HS2 o Birmingham i Leeds, y pennawd yn un o bapurau dyddiol y gogledd oedd 'Celwyddau ar y lein'.
- **Damwain ddrud.** Ychydig oriau cyn Diwrnod Plant Mewn Angen, collwyd awyren filitaraidd o eiddo Prydain ym Môr y Canoldir. Roedd yn werth £100 miliwn. A buan y cafwyd sylwadau am well defnydd o'r fath arian ar y diwrnod arbennig hwnnw.
- **Llyfr hwyr.** Pan agorwyd parsel oedd wedi ei anfon i Lyfrgell Dunfermline yn yr Alban, cafwyd llyfr a ddylai fod wedi ei ddychwelyd ers mis Tachwedd 1948. Gwell hwyr na....?
- **Gwleidyddiaeth.** Magdalena Andersen, y ferch gyntaf i ddod yn Brif Weinidog Sweden yn ymddiswyddo deuddeg awr yn unig ar ôl ei phenodi. Hynny am i'r glymblaid arfaethedig fethu a ffurfio llywodraeth. Yn ddiweddarach yn yr un wythnos cafodd ei hail-ethol yn Brif Weinidog, gyda'i phlaid yn ffurfio llywodraeth leiafrifol.
- **Siarc.** Gwledydd sy'n pysgota dyfroedd Gogledd yr Iwerydd yn cytuno i beidio dal siarc cyflymaf y byd, y shortfin mako. Mae ar restr o bysgod sy'n eithriadol brin ac mewn perygl o ddiflannu.
- **Mochyn pinc.** Y Prif Weinidog (os bydd yn dal yn ei swydd erbyn y Nadolig) yn rhoi araith i arweinwyr diwydiant yn eu cynhadledd flynyddol ac yn brolio safonau Peppa Pig, y mochyn bach sydd â dau lygad ar yr un ochr o'i wyneb. O leiaf, ni ellir ei gyhuddo o fod yn unllygeidiog. Ond fe ellir dweud nad oes ganddo yr un llygad i weld ochr arall y geiniog.
- **Gweriniaeth.** Barbados yw'r wlad ddiweddaraf i sefydlu ei hun fel gweriniaeth annibynol a diddymu'r frenhines fel pennaeth y wladwriaeth. Y Tywysog Charles yn cydnabod effaith y fasnach caethweision ar hanes y wlad, ond yn hepgor sôn am y ffaith mai ei gyn-deidiau a elwodd yn ariannol o hynny. Dim ond mewn pymtheg o wledydd y mae'r frenhines yn parhau'n bennaeth bellach, a chredir y bydd nifer o'r rhain, yn enwedig ynysoedd Môr y Caribi, yn dilyn llwybr Barbados.
- **Adar.** Y Llinos Werdd a'r Wennol Ddu yn cael eu rhoi ar restr yr adar sydd mewn perygl o ddiflannu o Ynysoedd Prydain.

# Ateb i'r Chwilair Nadolig

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| B | L | C | P | M | M | T | E | I | S | E | N | S | A | D |
| Y | Th | A | Y | A | Ng | E | L | R | N | E | R | A | R | O |
| U | W | R | I | I | J | O | Ph | A | S | Y | T | E | Ll | D |
| J | R | O | H | R | O | B | I | N | C | G | L | N | F | B |
| L | I | L | A | C | S | B | N | A | M | D | W | E | E | E |
| Y | E | Ll | A | W | E | N | R | D | T | O | R | R | C | S |
| U | C | I | U | O | Ff | C | P | O | A | E | S | E | D | E |
| M | N | B | R | C | L | J | H | L | G | Th | U | S | F | R |
| W | E | M | I | N | S | P | E | I | E | I | R | T | Y | P |
| L | U | Y | Th | F | D | S | A | G | P | O | O | I | H | U |
| E | I | O | A | N | Rh | E | G | I | O | N | P | A | E | S |
| S | W | D | M | N | B | Ch | E | L | J | H | G | F | R | Dd |
| N | F | G | H | N | Y | S | A | B | O | E | P | C | O | M |
| I | T | Y | D | B | U | G | E | I | L | I | A | I | D | E |
| T | B | E | N | U | A | I | D | R | A | C | A | Y | H | G |

## CAEATHRO

**CAPEL**
Ar y 9fed o Ionawr, bydd Oedfa gyntaf y flwyddyn newydd yn cael ei chynnal yng Nghanolfan y Capel. Bydd y Gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig Nan Wyn Powell Davies am 2:00pm. Ar yr 16eg o Ionawr, bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig Megan Williams i gychwyn am 2:00pm.

**CYMDEITHAS CAE CHWARAE**
Diolch yn fawr i griw y Gymdeithas am osod y goeden Nadolig hyfryd yng nghanol y pentref eto eleni. Cadwch lygad am hysbysiadau gan Gymdeithas Cae Chwarae Caeathro am unrhyw ddigwyddiadau cymunedol eleni ac i'r flwyddyn newydd – bydd manylion i'w gweld ar y cyfryngau cymdeithasol.

**PENBLWYDDI ARBENNIG**
Bu 2021 yn flwyddyn llawn dathliadau i drigolion Rhos Bach - dathlodd Sian Davies (Cae Hopsyn) ei phenblwydd yn 40, dathlodd Pete Roscoe (Perthi) ei benblwydd yn 50, dathlodd Bethan Iwan (Carrog) ei phenblwydd yn 60 a dathlodd Jean Thomas (Tremarfon) ac Alwyn Jones (Y Dderwen) ill dau eu penblwyddi yn 80 mlwydd oed - diolch yn fawr i Jean Thomas am rannu'r wybodaeth ddiddorol yma gyda ni!

**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA**
Carem ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion y pentref a'r cyffiniau. Diolch eto i bawb am eu holl ymdrechion i warchod ein gilydd a chadw'n ddiogel yn ystod y cyfnod o ansicrwydd yma sy'n parhau i gael effaith ar bob elfen o'n bywydau.

# Dach chi'n siarad Cymraeg yn rhugl? Dach chi'n awyddus i helpu pobol sy'n dysgu Cymraeg?

Mae **Siarad** yn gynllun i helpu dysgwyr sy'n gallu cynnal sgwrs am fywyd pob dydd a sy eisiau ymarfer. Dan ni'n chwilio am siaradwyr sy'n fodlon rhoi ychydig o'u hamser i'w helpu nhw feithrin hyder a defnyddio mwy o Gymraeg. Mae pob gwirfoddolwr dros 18 oed, ac yn cwrdd mewn llefydd cyhoeddus neu ar Zoom. CHI sy'n dewis lle a phryd dach chi'n cyfarfod. Dyma ffordd ymarferol, hwylus, i helpu pobol sy'n dysgu Cymraeg ac yn awyddus i ddod yn rhugl.

Mae'n bwysicach nag erioed ar ôl yr 20 mis diwetha, lle mae hi wedi bod mor anodd i'r rhai sy'n dysgu Cymraeg ddefnyddio'r iaith yn gymdeithasol.

Mae cynllun **Siarad** yn gynllun cenedlaethol sy'n rhedeg ers pedair blynedd. Daeth y syniad yn wreiddiol o Gatalunya, lle mae miloedd o siaradwyr Catalaneg yn paru efo unigolyn sy'n dysgu'r iaith, er mwyn eu helpu i ddod yn rhugl drwy ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r dosbarth.




Dan ni'n gofyn i bobol ymrwymo i siarad efo unigolyn sy'n dysgu am **ddim ond 10 awr** o fewn blwyddyn. Chi, y siaradwr rhugl sy'n penderfynu lle, pryd a sut dach chi'n cyfarfod – mewn cymdeithas Gymraeg, mewn caffi neu dafarn, wrth fynd am dro rhywle cyhoeddus, ar-lein – neu gyfuniad o'r rhain.

Y cwbl sy raid i chi wneud ydy cofrestru ar www.dysgucymraeg.cymru, (mi gewch chi lawer mwy o wybodaeth am y cynllun ar sleid SIARAD), dewis eich darparwr lleol, a byddan nhw'n cysylltu efo manylion cyswllt dysgwr fydd, gobeithio, yn eitha tebyg i chi o ran diddordebau, oedran ac argaeledd.

Wrth gwrs, ar ôl i chi gofrestru, os oes ganddoch chi ffrind sy wedi cael partner Siarad hefyd, be am drefnu i gyfarfod efo'ch gilydd? Yn enwedig mewn digwyddiad sy'n cael ei drefnu gan y Fenter Iaith, neu ddrama/cyngerdd Cymraeg.

Llynedd mi gofrestrodd dros 250 pâr dros Gymru er gwaetha'r pandemig, ond roedd 'na restr aros o ddysgwyr ym mhob ardal gafodd eu siomi gan bod na ddim digon o wirfoddolwyr. Nhw fydd yn cael blaenoriaeth eleni. Mae'r dysgwyr yma i gyd yn lefel Canolradd neu Uwch, felly maen nhw i gyd yn medru cynnal sgwrs. Does dim angen i chi boeni am safon eich Cymraeg – nid tiwtor ydach chi, ond siaradwr naturiol sy'n rhoi cyfle iddyn nhw ddefnyddio eu Cymraeg yn anffurfiol.

Mi fydd 'na ambell ddigwyddiad cenedlaethol rhithiol lle byddwch chi'n cael gwahoddiad, sy'n rhoi cyfle i gychwyn sgwrs yn eich cyfarfod nesa ella.

Mi fasen ni'n gwerthfawrogi'n fawr tasech chi'n ystyried dod yn rhan o'r cynllun.

Ewch ar y wefan i weld mwy am y cynllun, a gobeithio'n wir gwnewch chi ystyried cofrestru. Os oes gynnoch chi gwestiynau, croeso i chi fy ebostio ar eirian.conlon@dysgucymraeg.cymru

Diolch yn fawr ymlaen llaw am eich cymorth!

Eirian Wyn Conlon, Cydlynydd y Cynllun, y Ganolfan Dysgu Cymraeg.


# O'r Tywyllwch gan Mair Wynn Hughes




**Yr awdures**
Oeddech chi'n gwybod bod awdures llyfrau plant wedi symud i Lanrug yn ddiweddar? Nid jest awdur ond awdur sydd wedi ennill Gwobr Tir na n-Og bedair gwaith, yn ogystal â chipio Gwobr Mary Vaughan Jones.

Un o Wynedd yw hi'n wreiddiol, ganwyd hi ym Mryncir, Eifionydd. Mynychodd Ysgol Gynradd Brynengan yna Ysgol Ramadeg Penygroes, cyn hyfforddi fel athrawes yng Ngholeg y Normal. Bu'n athrawes gynradd ym Mhentraeth ac yna'n wraig fferm ym Mhentraeth ac roedd yn sôn pa mor gefnogol oedd ei diweddar ŵr, Tom, oedd yn ei hannog i fynd at ei ysgrifennu pan oedd bywyd prysur y fferm yn caniatáu hynny.

Dechreuodd ysgrifennu llyfrau plant oherwydd bod prinder o lyfrau deniadol i blant yn yr 1950egau ac erbyn hyn mae dros gant o lyfrau ganddi hi wedi eu cyhoeddi. O'i holi pa un yw ei hoff lyfr, roedd hi'n ei chael yn anodd i ddewis rhwng y llyfr cyntaf gyhoeddwyd - **Sioni Sbonc** a llyfr ysgrifennodd yn ddiweddarach sef **F'annwyl Leusa**. Dwi'n meddwl bod gan unrhyw awdur 'soft spot' am ei lyfr cyntaf ond roedd **F'annwyl Leusa** yn agos i'w chalon gan ei fod wedi ei gosod yn y Rhyfel Byd Cyntaf a bu ei thad a'i thad yng nghyfraith yn ymladd bryd hynny. Cafodd ei thad ei glwyfo wrth ymladd ond nid oedd byth yn trafod yr hyn a brofodd bryd hynny er byddai ef a'i thad yng nghyfraith yn trafod yn dawel efo'i gilydd pan doedd neb arall yn gwrando.




Mae Mair Wynn Hughes wedi symud i fyw i Lanrug ers dechrau mis Ebrill eleni, er mwyn bod yn nes at ei dwy ferch, Rhian sy'n byw yn Llanwnda ac Iona sy'n byw yn Llanberis. Mae hi wedi setlo'n dda erbyn hyn ac wedi cael croeso twymgalon gan ei chymdogion ac yn falch o weld bod y gymuned yn debyg i'r un adawodd ar ei hôl ar y fam ynys, sef cymuned gymdogol a chyfeillgar.

Mae hi newydd ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed, yn dal i fwynhau darllen ac yn mynychu dosbarth 'Cyfle Arall ' yng Ngholeg Menai yn Llangefni, unwaith yr wythnos. Dosbarth yw hwn i roi cymorth i bobl sydd am ysgrifennu ond efallai erioed wedi cael cyfle i wneud hynny. Ella nad yw hynny'n wir am Mair ond mae hi'n dweud iddi ddysgu llawer yn y dosbarth ac mae'n parhau i ysgrifennu er ei phleser ei hun, er ei bod yn gwneud hynny yn Saesneg yn y dosbarth yma.

**Y nofel - O'r Tywyllwch**
Cefais i'r pleser o fynd draw am sgwrs i'w chartref newydd y diwrnod o'r blaen, i drafod ei llyfr, **O'r Tywyllwch**, sydd wedi cael ei gyhoeddi'n ddiweddar gan Wasg y Lolfa. Beth sy'n rhyfeddol yw bod yr union lyfr wedi ei gyhoeddi yn 1991 gan Wasg Gomer (Gwasg nad yw'n bodoli mwyach gwaetha'r modd). Pan edrychais ar yr hen glawr roeddwn i'n cofio'r llyfr ar silffoedd fy nosbarth yn syth, a'r plant a minnau yn mwynhau ei ddarllen. Rydw i'n cytuno'n llwyr â'r hyn mae Manon Steffan Ros yn ei ddeud yn ei hadolygiad o'r llyfr ar sonamlyfra.cymru (sy'n rhoi 5 seren i'r llyfr!),

"Dwn i ddim sut yn y byd i mi anghofio'r nofel yma, achos wir i chi, mae hi'n wych".

Yn wreiddiol roedd y llyfr yn rhan o'r gyfres 'Gwreiddiau' a chafodd ei chomisiynu i'w ysgrifennu er nad oedd dim thema benodol wedi ei osod. Rywsut daeth y syniad iddi o beth fyddai'n digwydd petai'r byd yn cael ei ddinistrio, gan gofio wrth gwrs, nad oedd son bryd hynny am gynhesu byd eang. Roedd ambell i wyddonydd yn darogan och a gwae ond doedd neb wir yn 1991 yn coelio nac yn cymryd fawr o sylw ohonynt. Mae'n eironig bod y thema ddeg mlynedd ar hugain yn ddiweddarach mor gyfoes. Mae yna dinc o '1984' George Orwell yn y llyfr ac mae'n portreadu fel mae pŵer yn llygru cymdeithas a'r cryfaf yn rheoli'r gweiniaid. Roedd Mair wrth ei bodd pan ddywedwyd bod y llyfr am gael ei ail-gyhoeddi ac fel rhywun 90 oed, bu'n fodd i godi ei chalon yn enwedig nag oedd fawr o waith newid nag o ddiweddaru ar y llyfr.

**Crynodeb o'r llyfr**
Mae Hywyn a Meilyr yn ffrindiau gorau ond mae'r byd wedi gorboethi oherwydd llygredd a grëwyd gan y ddynol ryw ac mae'n rhaid i bawb fynd i fyw mewn dinas o dan wyneb y ddaear er mwyn osgoi'r poethder llethol a'r stormydd dinistriol. Yn waeth fyth chaiff Hywyn ddim mynd a'i gi Sam efo fo i'r ddinas danddaearol. Mae gan Meilyr gyfrinach nad yw'n gallu ei rannu efo'i ffrind gorau ac mae'r ddau'n gorfod dilyn y dynged a benderfynwyd iddynt gan eu rhieni. Yn ail hanner y nofel cawn ddisgrifiad iasol o'r bywyd gorthrymol o dan y ddaear. Ond fe ddaw haul ar fryn… ond dydw i ddim am ddifetha'r stori trwy ddweud be sy'n digwydd…

Fel dywed Manon Steffan Ros, *"Mae'r diweddglo yn teimlo fel her i mi, y darllenydd - be' 'da ni'n mynd i'w wneud nesaf wrth i'r byd boethi?"*

Os ydach chi'n chwilio am anrheg Nadolig i blentyn 11+ - dyma'r union beth am £6.99!



**Clasur Cymraeg**
Ail-gyhoeddwyd 3 llyfr eleni yng nghyfres **Gorau'r Goreuon**. Y tri llyfr yw - **Luned Bengoch** gan Elizabeth Watkin Jones; **Dirgelwch y Dieithryn** gan Elgan Philip Davies, heb anghofio **O'r Tywyllwch** wrth gwrs. Maent yn cael eu hystyried fel 'clasuron' Cymraeg. Ym mhob cyfrol mae stori gyffrous, llefydd a chymeriadau cofiadwy a stori fydd yn gafael yn eich dychymyg. Y tristwch yw bod llawer mwy o lyfrau sydd allan o brint fyddai dal yn apelio i blant Cymru. Efallai bod angen i ni geisio ail-ymweld â rhai ohonynt (nid jest llyfrau T. Llew Jones) fel maent yn ei wneud eisoes yn Lloegr gyda llyfrau fel '*Chronicles of Narnia*', '*Black Beauty*' neu '*Heidi*' (a llawer mwy) yn dal i apelio at blant a phobl ifanc. Mae cael sioe/ddrama theatr, ffilm neu gyfres ar y teledu hefyd yn hyrwyddo darllen llyfr - tybed os oes angen cyd-redeg un o'r rhain i gyd-fynd â llyfr wedi ei ail-gyhoeddi? Wrth gwrs mae Llyfr Mawr y Plant a chyfres Sali Mali yn dal i blesio plant hyd heddiw, ond tybed yw ail-gyhoeddi fel hyn yn ffordd o ddod â llyfrau roeddem ni'n eu mwynhau fel plant fel newydd i'n plant a'n hwyrion ac wyresau?

Tybed beth oedd eich hoff lyfr chi fel plentyn? Beth am anfon y teitl a'r awdur i mewn i'r Eco?
***Nesta Elliott***

## BETHEL A SEION

**Gobaith**
Mae'n debyg na fu cyfnod fel hyn yn arwain at y Nadolig ers cyfnodau rhyfel mae'n siwr. Wedi brwydr yn erbyn y 'gelyn dirgel' bur ddisgybliedig, mae'n ymddangos fod y gelyn yn ei amryw ffurf wedi taro yn ôl. Bu niferoedd uchel o bob oedran yn y pentref yn dioddef o effeithiau'r Covid-19. Gall rhywun ond ategu cri yr awdurdodau ar i ni gyd ddilyn y cyfarwyddiadau. Bydd hynny yn rhoi mwy o obaith i ni daro yn ôl. Yn sicr, bod yn undebol gall yw'n cyfle gorau i wrthsefyll unrhyw don yn y dyfodol. Efallai, ar ddiwedd y dydd byddwn yn elwa o 'ddathlu' y Nadolig fel uned deuluol ar yr aelwyd. Yn hen ffasiwn efallai, ond gan roddi gobaith am Flwyddyn Newydd Well.

**Diolch**
Dymuna Myrna Owen, Camlan ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd a dymuniadau gwellhad ar ôl ei damwain ac amser yn yr ysbyty.

**Cyfarchion**
Dymuna Elizabeth Evans, Pen-parc ddymuno Cyfarchion yr Wyl i'w theulu a chyfeillion. Hoffai ddiolch iddynt yn arbennig am eu llu gymwynasau mewn sawl ffordd dros y flwyddyn gyfryblus hon. Fel pob un ohonnom mae'n dymuno Blwyddyn Newydd Well i bawb.

**Dymuniadau Gorau**
I'r nifer yn y pentref sydd wedi brwydro yn erbyn effeithiau salwch yn ddiweddar. Bu rhai yn derbyn gofal ysbyty, eraill wedi cyfnod yno wedi cael dychwelyd gartref. Diolchwn i lawer drwy air a gweithred sydd wedi rhannu eu nerth i fod yn gefn i sawl un. Gobeithio y bydd slogan y flwyddyn diwethaf ' Daw eto haul ar fryn', yn cael ei wireddu.

Bu Ben Sion Evans, 3, Bryn Hyfryd yn dathlu ei benblwydd yn 18 oed yn ddiweddar. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da am y dyfodol. Mae Ben yn ddilynwr brwd o dîm pêl-droed Abertawe, fel ambell un yn y pentref. Tybed os gall y clwb gyd-ddathlu gyda Ben ac ennill dyrchafiad i'r Uwch Gynghrair.

**Y Ffair Aeaf**
Bu nifer o aelodau o'r Clwb ffermwyr Ifanc lleol yn cynhyrchiol Rhanbarth Eryri yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd. Llongyfarchiadau gwresog i Alaw Medi Morgan a enillodd sawl gwobr. Cafodd brif wobr yn yr adrannau beirniadu ŵyn, cig eidion a charcas, yn yr oedran dan 16. Cafodd wobr hefyd yn yr adran sylwebu ar agweddau o fyd amaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Aelod o gangen Dyffryn Ogwen yw Iwan Harper, mab Myfanwy, Glan Gors gynt. Cafodd yntau'r wobr gyntaf am y sylwebu drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Sgam??**
Mae'n ymddangos fod nifer o drigolion stadau'r pentref wedi derbyn llythyr swyddogol ei naws drwy y Post yn ddiweddar. Llythyr uniaith Saesneg ydoedd. Mae'r llythyrau yn dechrau gyda'r cyfarchiad ' Hi Y Ddôl Neighbour' neu 'Hi Eryri Estate Neighbour' ac yna wedi ei arwyddo gan 'Your Neighbour' ac yna enw gŵr neu wraig. Bwriad y llythyr yw ein cyflwyno i grwp honedig sydd eisoes yn cynnwys 800 o gysylltiadau yn ardal Llanddeiniolen. Mae'r grwp yn cyd-weithio i rannu gwybodaeth am wahanol wasanaethau: e.e. ble i gael plymiwr, rhywun i warchod plant, darganfod anifeiliaid anwes, gwerthu pethau fel beiciau a.y.y.b. Ceir cyfeiriad ar y Wê i gysylltu a chôd i ymuno â'r grwp. Tystiolaeth un a agorodd y llwybr oedd bod y wybodaeth yn mynd yn fwy a mwy amwys. Gochelwch rhag cael eich denu i'r wê yma.

**Etholiad y Cyngor Sir**
Fel y mae'n hysbys bellach o fis Mai nesaf bydd wardiau Bethel a'r Felinheli yn uno ar gyfer etholiadau y Cyngor Sir. Fe gynhyrchiolir y ward newydd gan ddau gynghorydd. Gall unrhyw un sy'n dymuno sefyll yn enw unrhyw blaid neu'n Annibynnol ddanfon eu henwau ymlaen cyn y dyddiad cau ar ddydd Mawrth, 4ydd Ionawr, 2022 am 5 PM. Mae'n bwysig wrth gwrs fod Bethel yn cael eu llais ar lawr y Siambr. Eisoes mae un enw wedi ei ddanfon gan un yn dymuno sefyll yn enw Plaid Cymru. Nid yw hyn yn gwahardd unrhyw aelod arall o'r Blaid yn lleol rhag ymgeisio am yr enwebiad. O dderbyn yr enwebiadau yna bydd yn ofynnol i aelodau'r pleidiau hynny i ddewis drwy bleidlais post yr enwau i'w rhoi ar y daflen bleidleisio derfynnol. Gobeithio y bydd rhai yn barod i sefyll i roddi llais i fro Bethel/Seion yn y Siambr.

**Gwasanaethau**
Ni fydd aelodau Capel Bethel yn cynnal oedfaon tan fis Ionawr. Mae oedfaon Capel Saron wedi eu gohirio tan 9fed Ionawr, 2022. Fe fydd Gwasanaeth Nadoligaidd yng ngofal yr oedolion yn unig yn y Cysegr ar 19eg Rhagfyr. Fe wneir ymdrech i gynnal Gwasanaeth gan blant yr Ysgol Sul ar y Wê. Yn y gwasanaeth hwn fe fydd y rheolau cyfyng yn cael eu gweithredu, yn enwedig y rheolau 2m, a mynediad a gadael y capel. Ni fydd gwasanaeth traddodiadol Bore'r Nadolig yn cael ei gynnal eleni. Ar Sul cyntaf 2022, eto gyda'r rheolau iechyd mewn llaw, fe gynhelir Gwasanaeth dechrau'r flwyddyn yng nghofal y swyddogion am 10AM.

**Cydymdeimlo**
Ar drothwy Rhagfyr bu farw Vera Davies, 9 Y Ddôl gynt, mewn cartref preswyl yng Nghaernarfon. Symudodd Vera a'i gŵr Seiriol yma i Fethel o Gaerdydd. Bu'r ddau'n hapus yma

yn rieni a thaid a nain balch i Nan, Dewi a'r teulu estynedig. Ni adawodd y Rhos gwreiddiol

wefusau y ddau â'r 'hen dafodiaith' yn britho sawl sgwrs. Cydymdeimlwn â'r teulu yn eu colled.

**Er cof am Vera**
I'w Seiriol, hi fu'n seren i'w gynnal,
yn gannwyll mewn angen.
Mor braf, cylchu'r ffurfafen
law yn llaw, tu hwnt i'r llen.

## NANT PERIS

**Gwasanaethau'r Nadolig Eglwys Sant Peris**
24ain Rhagfyr, 11:30PM - Cymun Bendigaid
26ain Rhagfyr, 9:30AM - Cymun Bendigaid
2ail Ionawr, 9:30AM - Boreol Weddi
9fed Ionawr, 9:30AM Cymun Bendigaid, yna am 3.00 PM - Gwasanaeth Cristingol Bro Eryri yn Eglwys Crist Deiniolen.
Cynhelir gwasanaeth bob dydd Mawrth am 11.00AM


Gwasanaeth Gwres a Plymio
Ar gyfer eich holl anghenion gwres a plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig Bethel LL55 1UW
Ffôn (01248) 674927 Symudol - 07798 74618

www.ecorwyddfa.co.uk
ECO'r Wyddfa

SPAR
Y Storfa, Spar, Llanrug
Sgwâr Llanrug
01286 673108

Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, **Swyddfa Bost**
a chroeso cynnes
Llun - Sadwrn 6:30am - 9pm, Sul 8am - 9am

# Arferion y Flwyddyn Newydd

**Ysbrydion**
Yn ôl pob sôn mae ysbrydion y meirw'n crwydro'r wlad ar ddiwrnod olaf y flwyddyn er mwyn ffarwelio â'r flwyddyn honno.

Dyma pam, mae'n debyg, fod pobl yn closio at ei gilydd ar y noson arbennig hon gan adrodd straeon a chynnal nosweithiau llawen; tipyn gwahanol i'r dathliadau heddiw.

**Coelcerth**
Erstalwm hefyd arferid croesawu'r flwyddyn newydd drwy adeiladu coelcerth fawr. Dyma groeso gwresog i'r flwyddyn newydd.

Byddai'r goelcerth yn cael ei chodi yng nghanol y dref neu'r pentref a byddai pawb yn sefyll o'i chwmpas.

Er mwyn rhoi diwedd ar yr hen flwyddyn byddai'r trigolion wedyn yn gadael i'r tanau oedd ganddyn nhw yn eu cartrefi ddiffodd er mwyn rhoi diwedd ar yr hen flwyddyn ac i'r goelcerth fawr roi croeso cynnes i'r flwyddyn newydd.

**Dyledion**
Mae'n gred bod beth wnewch chi ar ddechrau'r flwyddyn newydd yn penderfynu beth wnewch chi weddill y flwyddyn. Mae angen talu pob dyled cyn hanner nos, neu mewn dyled fyddwch chi weddill y flwyddyn.

Cred arall yw bod yr hyn yr ydych chi'n ei wneud ar ddydd Calan yn penderfynu'r hyn y byddwch chi'n ei wneud weddill y flwyddyn. Felly mae angen i chi felly sicrhau nad ydych chi'n benthyg arian i neb nac yn benthyg arian eich hun neu dyna fyddwch chi'n ei wneud gweddill y flwyddyn. Pwy faga blant…

**Ymwelydd**
Ar y 31ain o Ragfyr mae angen cael dyn gwallt tywyll i groesi'r aelwyd, er mwyn sicrhau blwyddyn dda. Dylai'r dyn adael y tŷ drwy'r drws cefn jest cyn hanner nos ar Noswyl y Flwyddyn Newydd, ac yna cerdded o gwmpas y tŷ ac wrth i'r cloc daro hanner nos cnocio ar y drws ffrynt. Dyma'r '*first footer*' yn yr Alban. Byddai preswylwyr y tai yn agor eu drysau ac yn derbyn halen i ychwanegu blas; arian am gyfoeth; glo i gynhesu; matsien i gynnau tân a bara fel cynhaliaeth. Gwae chi os oedd yr ymwelydd cyntaf dros y rhiniog yn ddynes neu'n ddyn gwallt coch, roedd yn cael ei ystyried yn hynod anlwcus i'r teulu cyfan. Ond o'i weithredu yn gywir byddai'n sicrhau cynhesrwydd, bwyd a chyfoeth drwy'r flwyddyn.

**Hela'r dryw**
Mewn chwedloniaeth y dryw yw brenin yr adar. Felly mae'r dryw yn symbol o ladd brenin – brenin newydd a brenin newydd yn arwain at ladd yr hen frenin a dechrau cyfnod newydd. Roedd hi'n draddodiad ar noson olaf yr Ystwyll (Twelfth Night) yng Nghymru i hela'r dryw. Byddai'r dynion yn dal dryw a rhoi corff yr aderyn bach mewn tŷ (bocs bach pren) a'i gludo o gwmpas y pentref. Byddai'r preswylwyr wedyn yn talu ceiniog am y fraint o godi caead y bocs i weld yr aderyn bychan ac yn croesawu'r dryw i mewn oherwydd ei



fod o'n symbol o frenhiniaeth, ac roedd 'na fwyd a diod a rhialtwch.

Os nad oedd modd dal dryw, weithiau byddai aderyn to'n cael ei ddefnyddio yn ei le…

**Yr Ystwyll**
Er yn dipyn llai o beth y dyddiau yma, roedd Noson Ystwyll, sydd yn dynodi diwedd dathliadau'r Nadolig, yn arfer bod yn draddodiad pwysig iawn yng Nghymru. Roedd yn cael ei ddathlu ar y 5ed neu 6ed o Ionawr, dyma oedd diwedd y cyfnod gwyliau, a byddai pobl yn ymgasglu yn nhai ei gilydd, cyn mynd yn ôl i weithio.

**Mari Lwyd**
Penglog ceffyl wedi'i orchuddio efo lliain a rhubanau oedd y Fari Lwyd. Roedd penglog y ceffyl yn cael ei baratoi yn ofalus at yr achlysur drwy gael ei gladdu mewn calch am dri mis cyn cael ei sgwrio'n lân. Roedd ganddi glustiau a llygaid smalio a rhoddwyd y benglog ar bolyn fel bod modd i'r person oedd o dan y lliain agor a chau'r geg.

Cariwyd y Fari Lwyd o ddrws i ddrws. Pan agorid un o'r drysau roedd y preswylwyr yn cael eu cyfarch gyda cherddi a'u sarhau ac roedd disgwyl iddyn nhw ymateb. Pan roedd yr ymrafael geirio wedi gorffen byddai'r Fari Lwyd a'i dilynwyr yn cael eu gwahodd i mewn am ddiod arall. Byddai'n anlwcus gwrthod mynediad i'r Fari Lwyd.

Erbyn y 19eg ganrif roedd yr eglwysi a chapeli yn dechrau gwrthwynebu'r meddwdod a'r trais oedd yn dilyn ymweliad y Fari ac yn raddol daeth canu carolau yn lle'r penillion a'r enllibion. Bellach mae'r traddodiad wedi ei atgyfodi mewn rhai rhannau o Gymru ac mae'r Faril lwyd (eithaf parchus) yn parhau i fynd o gwmpas cartrefi rhai pentrefi.



**Calennig**
Roedd dydd Calan yn gyfle i blant i lenwi eu pocedi ag arian, roedd yr arian hwn yn cael ei alw'n 'calennig' Byddai plant yn mynd i gasglu Calennig yn ystod y bore ar ddiwrnod cynta'r flwyddyn. Roedden nhw'n mynd o gwmpas y ffermydd a'r tai ar fore dydd Calan yn canu pennill i ofyn am galennig; ond roedd angen gofalu fod hyn yn digwydd cyn hanner dydd.

Un gân a ganwyd yng nghanolbarth Cymru oedd:

Blwyddyn Newydd Dda i chi
Ac i bawb sydd yn y tŷ,
Dyma fy nymuniad i
Blwyddyn Newydd Dda i chi.

**Janus**
Daw'r gair Cymraeg – Ionawr o'r Saesneg – January, ddaw o'r gair Lladin Ianuarius. Cyfeiria'r Lladin at y duw Rhufeinig, Janus. Janus, oedd y duw a gysylltid â drysau, pyrth, giatiau, dechreuadau, unrhyw beth oedd yn ymwneud â symud o un lle, neu amser i'r llall a diwedd digwyddiadau. A dyna sydd i gyfrif fod Janus yn cael ei gysylltu gyda'r cyfnod o symud o un flwyddyn i flwyddyn newydd. Janus yw'r duw â dau wyneb – un ohonynt yn edrych yn ôl i'r gorffennol a'r llall yn edrych ymlaen at y dyfodol.

Mae llawer yn gweld mis Ionawr a chyfnod y Calan fel amser da i edrych yn ôl a myfyrio am ddigwyddiadau a phrofiadau'r hen flwyddyn ac i edrych ymlaen a chynllunio gan roi targedau yn eu lle ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Dyma'r adeg wrth gwrs i wneud addunedau fel y byddwn ni a'r flwyddyn nesaf yn well na'r flwyddyn cynt.

**Blwyddyn Newydd Dda**
Dyma gyfarchiad cyfarwydd ar ddechrau'r flwyddyn newydd wrth i bawb gyfarch ei gilydd ac edrych ymlaen at flwyddyn newydd well.

Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr Yr Eco.



# Ysgol Gynradd Bethel









**Diwrnod Plant Mewn Angen**
Fel yr arfer roedd rhieni Ysgol Bethel yn hynod o hael ar ddiwrnod Plant Mewn Angen; rhwng y Cylch Meithrin a'r ysgol, casglwyd dros £270. Cafwyd diwrnod llawn hwyl gyda'r disgyblion a'r staff wedi gwisgo'i dillad nos drwy'r dydd. Diolch enfawr i'r gymuned am gefnogi.

**Wythnos Lles**
Diwedd mis Hydref cafwyd wythnos o ddathliad/codi ymwybyddiaeth o weithgarwch lles a pha mor bwysig yw byw bywyd llesol. Trefnwyd bod dros wyth cwmni/sefydliad gwahanol yn dod mewn i gynnal ystod o weithgareddau sydd yn hybu byw yn llesol, cwmniau/asiantaethau megis: yr Urdd – sesiynau amlgamp a beicio, Cwmni 'Ar y trywydd' – sesiynau cyfeiriannu, Mrs Wendy Ostler – Ioga, Sesiynau tenis gan swyddogion o'r ganolfan denis, Chwaraeon anabledd Cymru, Sesiynau ymarfer corff gan Marvin Pritchard o MPMA a sialensau gweithio mewn tîm gyda 'Wild Elements'. Roedd y disgyblion a'r staff wedi elwa yn fawr o'r sesiynau.

# DINORWIG

**Diwedd Blwyddyn**
Daeth 2021 i'w therfyn yn sydyn iawn. Anodd credu hynny, ond rwy'n siŵr fod llawer un yn falch o weld ei chefn, gan obeithio'n arw y bydd 2022 yn llawer gwell. Mae'n flwyddyn nad aiff byth o'r cof, a chredaf fod llawer un fel fi yn teimlo'r un fath, a llawer o ddagrau wedi eu colli. Ni chawsom wasanaeth capel yn Neiniolen ers misoedd, ac os oes angen oedfa, mae mwy o'i hangen rwan nac erioed, gan gredu fod gweddi yn gymorth mawr mewn amser mor dywyll.

**Marwolaeth**
Daeth y newydd trist i'r ardal am farwolaeth Gwyn Parry yn ei gartref, Cynefin, Deiniolen wedi salwch hir a chreulon. Priododd Gwyn gydag Annette, Tŷ'r Ysgol, dros ddeg ar hugain o flynyddau'n ôl, a hynny yng Nghapel Dinorwig, a pharhaodd y cysylltiad agos â Dinorwig. Cydymdeimlwn yn fawr ag Annette a'r plant, Heledd, Ynyr a Bedwyr. Yr oedd y gynulleidfa a ddaeth i'r angladd yn dangos y parch oedd gan ardal gyfan iddo.

**Cyfarchion**
Gyda dymuniadau da i bawb o'r ardal sy'n dioddef anhwylder neu salwch.

**Diolch**
Gyda diolch i'r Cynghorydd Elfed Williams am ei gymorth drwy'r flwyddyn. Da deall fod y gwaith yn yr Allt Ddu wedi ei orffen, ac y bydd llawer un yn cael ei fwynhau pan ddaw'r gwanwyn.

**Cyfarchion**
Dymunaf Nadolig Llawen a Dedwydd i holl ddarllenwyr Yr Eco.


E. W. PRITCHARD
Trefnwyr Angladdau
CENTRAL GARAGE, LLANBERIS
FFÔN - (01286) 870202



www.ecorwyddfa.co.uk
ECO'r Wyddfa

## DEINIOLEN

**Y Cynghorydd Elfed Williams**
Mae cais wedi ei wneud i benaethiaid Cyngor Gwynedd a Chabinet y Cyngor yn gofyn iddynt ystyried prynu darn o dir tu ôl i Ysgol Gwaun Gynfi gan fod problem parcio o gwmpas yr Ysgol. Mae'r tir yma ar werth ers blynyddoedd ac mi fyddai hyn yn gymorth mawr i ddatrys problemau presennol.

**Newyddion arall**:
Mae'r wal gyferbyn â'r Eglwys wedi cael ei sortio, diolch i Adran Strwythurau'r Cyngor.

Mae bin baw ci wedi ei osod ar lwybr yr afon ger Cwt y Band.

Diolch i'r Cyngor am eu cymorth.

Dymunir Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion yr ardal.

**Diolchiadau**
Dymuna Mrs Eurwen Roberts, 47 Rhydfadog, Deiniolen, ddiolch, drwy gyfrwng yr Eco, i'w theulu, ffrindiau a'i chymdogion am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig yn 90,oed, gan eu bod yn rhy niferus i'w hateb yn unigol. Diolch o galon i bawb.

**Arddangosfa Hanes Deiniolen a Chlwt-y-Bont**
Bu arddangosfa hanes Deiniolen a Clwt-y-Bont gan Fenter Fachwen (rhan o brosiectau 'LleChi') yn EBs, Deiniolen ar agor ar ddydd Mawrth 14eg Rhagfyr a dydd Iau 16eg Rhagfyr o 10.00 AM tan 2.00PM. Yn y Flwyddyn Newydd, bydd yr arddangosfa ar agor bob dydd Mercher o 10.00AM tan 3.00PM ac yna o 7.00-8.30PM.

Mae'r arddangosfa yn un parhaol.

NODWCH: bydd rhaid cyfyngu nifer yr ymwelwyr i 6 ar y tro a bydd angen i chi wisgo eich gorchudd wyneb os gwelwch yn dda.

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf at deulu'r diweddar Gwyn Parri.

Cynhaliwyd angladd Gwyn ddydd Gwener, 26ain Tachwedd yn Eglwys Llandinorwig a Mynwent Machpela. Bu'n weithgar yn ei gymuned, a bu'n rhan o sawl cymdeithas a mudiad yn lleol ac yn ehangach. Ond ei deulu a ddeuai gyntaf iddo bob amser, a chydymdeimlwn ag Annette a'u plant Heledd, Ynyr a Bedwyr a'u plant hwythau a'r holl deulu yn eu colled.



**Merched y Wawr**
Cafwyd noson hyfryd yn dathlu'r Nadolig yng Nghaernarfon. Cawsom fwyd bendigedig a diolch i staff Bron Menai am y croeso cynnes. Cafwyd dipyn o hwyl gydag anrhegion Siôn Corn dirgel a phawb wedi cael eu plesio yn fawr. Diolch unwaith eto i Jackie am yr holl waith trefnu.



# Record Byd ym Mharti'r Urdd

Mae mudiad ieuenctid cenedlaethol mwyaf Cymru, Urdd Gobaith Cymru, yn dathlu ei ganmlwyddiant yn 2022. Ar 25ain Ionawr bydd dathliadau'r flwyddyn yn dechrau gyda Pharti Pen-blwydd mwyaf yn hanes y mudiad ar ddiwrnod Cariad @ Urdd. Cynhelir parti arbennig ar gyfer ysgolion Cymru yng nghwmni cyflwynwyr Stwnsh Sadwrn, a ddarlledir yn fyw ar BBC Radio Cymru a BBC Radio Wales.

Fel rhan o'r parti bydd yr Urdd a'r genedl gyfan yn ymgeisio am ddau deitl Guinness World Records™ drwy gyd-ganu ac uwchlwytho'r nifer fwyaf o fideos o'r gân eiconig, Hei Mistar Urdd, i Twitter a Facebook mewn awr. Y record ar hyn o bryd yw 418 fideo ar Facebook a 250 ar Twitter. Rhaid curo hynny!

I fynychu Parti Pen-blwydd yr Urdd ac i ymuno yn yr ymgais am ddau deitl Guinness World Records™ mae angen cofrestru ar wefan yr Urdd: www.urdd.cymru/100. Wrth i ysgolion a mudiadau gofrestru byddant yn ymddangos ar fap ar wefan y canmlwyddiant, ble mae fideos ac adnoddau parti ar gael i bawb. Dilynwch yr hashnod #Urdd100 ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn dilyn y newyddion diweddaraf, a defnyddiwch yr hashnod hefyd ar ôl i chi gofrestru ar gyfer y parti, er mwyn rhannu gwybodaeth am eich cyfraniad.

Yn ogystal â mynychu'r parti mae'r Urdd yn gwahodd partneriaid, busnesau, ysgolion a mudiadau ledled Cymru i nodi'r canmlwyddiant drwy chwifio baner yr Urdd ar 25ain Ionawr. Mae Senedd Cymru, Amgueddfa Werin Sain Ffagan, Big Pit ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau ynghyd â nifer o adeiladu eiconig eraill Cymru wedi ymrwymo eisoes i chwifio baner yr Urdd, a gellir archebu baner drwy wefan yr Urdd - www.urdd.cymru/100. Mae pawb o bob oed hefyd yn cael eu hannog i wisgo coch, gwyn a gwyrdd ar 25ain Ionawr er mwyn dangos eu cefnogaeth i'r Urdd.






# Cyflaith / Taffi Triog

Mi fyddai Nain yn gwneud cyflaith bob mis Rhagfyr ac mae ei gwylio hi a Dad wrthi, a chael blasu'r diferion taffi o'r ddysgl ddŵr yn atgof pwerus o fy mhlentyndod.

Cyflaith neu'r taffi du oedd y ffefryn, ond ambell flwyddyn mi fydden nhw'n gwneud taffi golau sy'n cael ei wneud efo triog melyn neu surop hefyd. Mae'r taffi melyn yn llawer melysach wrth gwrs; i wneud hwnnw, ffeiriwch y triog du yn y rysáit am surop.

Mi holais i Dad cyn rhannu'r rysáit yma gyda darllenwyr yr Eco, ac roedd o'n pwysleisio i beidio gadael i'r cynhwysion ferwi'n wyllt wrth goginio, os yw'n llosgi bydd blas chwerw ar eich cyflaith.

Os rowch chi gynnig ar wneud taffi triog, wnewch chi ddim difaru – bydd clapiau blasus o dda-da ganddoch i iro'ch gwddw wrth fynd am dro ar ddiwrnod oer neu i godi'ch calon yn wythnosau cyntaf tywyll y flwyddyn newydd!

**Rysáit**

Hanner pwys o fenyn
Pwys o driog du
Pwys o siwgr brown

**Offer**

Sosban fawr
Tun pobi (ag ochrau tua hanner modfedd) wedi ei iro'n dda
Llwy bren

**Dull**

- Rhoi'r menyn yn y sosban i doddi.
- Ychwanegu'r siwgr i'r menyn a'i droi nes iddo doddi.
- Ychwanegu'r triog i'r gymysgedd a'i doddi gan droi'r cyfan yn dda.
- Rhaid dal i droi a throi'r gymysgedd am tua 20 munud gan adael iddo ffrwtian yn dawel, ond nid berwi. Peidiwch a rhoi'r gorau i droi! Bydd y gymysgedd yn chwyddo wrth goginio, rhwng hanner ei faint a hanner unwaith eto.
- Wedi tua ugain munud o droi, rhowch ddiferiad o'r taffi o'ch llwy i ddysglaid o ddŵr oer. Os yw'r taffi'n caledu'n syth, mae'n barod. Os nad ydio, daliwch ati i droi ac yna trio eto.
- Pan mae'n barod, tywallt y taffi'n ofalus i'r tun pobi wedi ei iro a'i adael i oeri ar garreg oer. (Cofiwch roi'r sosban i socian mewn dŵr poeth yn syth, neu mi fydd y taffi'n gafael ynddi.)
- Pan mae'r taffi'n dechrau setio, gallwch ei farcio'n sgwariau tua hanner modfedd.
- Wedi iddo oeri'n llwyr, torrwch y taffi'n ddarnau a'i storio mewn potyn â chaead tyn.
- Mi allech chi roi llwyaid fawr o siwgr eisin gyda'r taffi fel nad ydi'r darnau'n glynu yn ei gilydd.



**Diolch i Gareth Roberts, Ffordd Capel Coch, Llanberis am y rysáit.**


# Llên Natur

## Dwy em o Wyrfai deg

Mae hen gyfrolau llychlyd, llwydaidd ar silffoedd uchaf yr estyll llyfrau neu mewn bocsys anghofiedig yn yr atig yn aros eu tro cyn diflannu i ebargofiant sgip neu goelcerth, yn tanio fy chwilfrydedd yn aml. Tybed a oedd gan yr awduron rhywbeth i'w ddweud am eu milltir sgwâr – unrhyw filltir sgwâr, lle bynnag y buont fyw. A oedd ganddynt hanesyn neu ddau am ryw ddigwyddiad anghofiedig – wedi ei brofi neu wedi ei weld – a fyddai'n werth ei roi ar gof a chadw?

Dwi'n cofio dro yn ôl bori drwy un o'r cyfryw hen gyfrolau, sef *Gemau Gwyrfai* gan Thomas Williams (1904). Casgliad o weithiau barddonol a rhyddieithol y diweddar Owen Williams (Owain Gwyrfai) oedd hwn. A minnau heb fawr o ffydd y deuai llawer o 'emau' i'm mhlesio i'r fei, dyma doncio ymlaen yn ddyfal! A ddeuai ryw hanesion o fywyd cyffredin pob dydd pobl y Waunfawr gan y bonwr hwn, yn enwedig a hwnnw'n gyfnod cyffro'r Diwygiad Mawr? O, myfi o ychydig ffydd! Mi ges i ddau gofnod a oedd werth eu rhoi ar gof os nad ar gadw.

Fel hyn yr ysgrifennodd Thomas Williams am ei gyfaill: "Yr ydwyf yn cofio'r adeg pan oedd Owen Williams [1790-1874] yn lladd mawn yn y Waenpant [Waun Bant ar lafar heddiw], tua'i chanol, ond ychydig yn nes i ochr Moel Eilio". Sylwer mai Eilio ddywedodd Thomas Williams, nid Eilian, fel mae pobl Waunfawr yn galw'r Foel honno yn ddi-ffael. Fe aeth ymlaen, "…ac ar ôl cael tamaid i fwyta, hanner dydd, ar ddiwrnod braf a chlir yn yr haf, dywedodd wrthyf yn sydyn, 'Tyred gyda mi i ganol Waenpant yma, gael i ti weled sêr y ffurfafen gefn ganol dydd: nid wyf yn gwybod eu bod hwy i'w gweled mewn un man yng Nghymru ond yn y fan yma'. Felly ni a aethom yno. 'Dyma nhw' [meddai Owen] 'planedau mawrion ydyw'r rhai hyn' a syllai arnynt yn ddifrifol am beth amser… Mi feddyliais ar ôl hyn, mai uchelder y mynyddoedd oedd yr achos – sef Mynyddfawr, Moel Eilio, a'r Wyddfa, gan roddi iddynt gysgodrwydd yn y ffurfafen, fel y gallai llygaid dynol eu gweled!!" A oes sail wyddonol i hyn dybed – welais i erioed mo'r fath beth, na chlywed amdano 'chwaith. Ynteu ai rhyw ramant oedd o yn perthyn i ddau hen fardd dryslyd?





Dro arall soniodd yr un awdur am rywbeth arall ym mywyd Owen Williams a oedd yr un mor od – ecsentrig efallai – ond o leiaf roedd hyn yn perthyn i fyd y dichonadwy. "Ar ôl cael mawn i lawr o Waun Bant hefo'r car sledge i'r tŷ" meddai Thomas Williams eto, "yr oedd Owain Williams yn arfer rhoddi gwahoddiadau i rai o'i gyfeillion yng Nghaernarfon a'r Waenfawr i ddyfod i weled y *Bureau* oedd ganddo yn y tŷ. Ac er eu syndod, beth oedd hwnnw ond tas o fawn o'r Waenpant [wedi ei godi mae'n debyg ar ffurf y dywededig *bureau*], wedi ei phacio yn ofalus ar ochr y pared oddi fewn i'r tŷ, o'r hyn y cawd cryn hwyl a chwerthin." Hen hwyl oedd hyn yn wir, ond ai chwerthin gyda'r cyfeillion ydwyf, ynteu chwerthin ar eu pennau yn nawddoglyd? Beth bynnag a ddywedech amdanaf, mi allaf innau ddweud i mi gasglu dwy em anghofiedig arall o Wyrfai bro fy mebyd!

# Un funud fach ...

## DAN FWGWD

Ers blynyddoedd, anaml iawn y gadawaf y tŷ heb y pedwar peth hanfodol: goriadau, oriawr, waled a ffôn. Ond bellach, ers bron i ddwy flynedd, mae pumed peth: mwgwd. Cyn hynny, pe byddech chi wedi gweld rhywun yn taro mwgwd dros ei wyneb cyn mynd i mewn i siop neu fanc mi fyddech wedi dychryn am eich einioes a meddwl bod rhyw ddrwg yn y caws. Ond mae'r byd wedi ei droi ben i waered, ac erbyn hyn mae bron bawb yn gwisgo mwgwd wrth fynd i'r siop a'r capel a phob adeilad cyhoeddus arall. Nid y bobl sy'n gwisgo mwgwd sy'n dal ein sylw bellach ond y bobl nad ydynt yn gwneud hynny.

Ddwy flynedd yn ôl, fyddai neb wedi medru rhagweld y deuai mygydau'n rhan o'n wardrob ac y byddai'n ail natur i ni eu gwisgo ym mhobman. Ac er mor ddieithr ac anghysurus ydynt ar brydiau, rydym yn barod i wneud hynny er mwyn ein gwarchod ein hunain ac eraill. Arferem feddwl am fwgwd fel rhywbeth i guddio y tu ôl iddo, boed hwnnw fwgwd y lleidr sydd am sicrhau na all neb ei adnabod neu fwgwd y clown neu'r actor sy'n cymryd arno fod yn rhywun arall. Erbyn heddiw, mae'r mwgwd yn anghenraid i'r mwyafrif ohonom a bron na ddaeth yn ategolyn ffasiynol i lawer.

Hyd y gwn i beth bynnag, ni wisgodd Iesu Grist erioed fwgwd, nid hyd yn oed pan fyddai'n cyfarfod â'r gwahangleifion y gorfodwyd iddynt fyw ar wahân i bawb arall rhag iddynt heintio teulu a chymdogion. Nid cuddio oddi wrth bobl felly a wnâi ond mynd atynt a hyd yn oed gyffwrdd â hwy cyn ei hiachau.

Ac eto, ar un ystyr mi wisgodd fwgwd, a bydd dathliadau'r Nadolig eleni eto'n ein hatgoffa o hynny. Nid ei fod yn cymryd arno fod yn rhywun arall chwaith: wedi'r cwbl, ganwyd plentyn bach ym Methlehem, a hwnnw'n blentyn fel pob plentyn arall, yn berson a gig a gwaed y byddai ei fam yn ei fagu ac a ddeuai yn y man yn hogyn bach ac yn llefnyn ac yn ddyn a fyddai'n mynd o amgylch y wlad yn cyflawni ei waith. Mewn gair, roedd yn ddyn go iawn ac nid rhywun yn cymryd arno fod yn ddyn.

Dweud a wnawn ni fod Iesu'n gwisgo mwgwd am ei fod wrth ddod i'r byd yn cuddio rhywbeth. Roedd yn ddyn go iawn, ond ar yr un pryd Duw oedd o. Duw ei hun, Duw'r nef a'r ddaear, Duw'r Creawdwr, y Duw tragwyddol oedd y plentyn bach a orweddai mewn preseb. Y Duw na ellir ei gyfyngu i'r un lle na chyfnod a ddaeth i gael ei gyfyngu oddi mewn i'r baban bach a welwyd gan fugeiliaid a doethion. Ond roedd y gwirionedd syfrdanol hwn wedi ei guddio fel na welai cymdogion a châr am flynyddoedd wedi hynny ond bachgen a dyn cyffredin. Roedd fel petai fwgwd dros ei wyneb i guddio'i ogoniant a'i fawredd a'i sancteiddrwydd a'i berffeithrwydd.

Mae'r mwgwd wedi ei hen roi heibio, a'i weinidogaeth ddaearol a'i farwolaeth a'i atgyfodiad a'i esgyniad wedi amlygu'r gwir amdano. Ond trueni pethau yw bod cymaint eto i weld heibio i'r mwgwd. Boed i'r mwgwd gael ei symud y Nadolig hwn fel y medrwn orfoleddu o gofio bod Duw wedi dod yn ddyn er ein mwyn.

***JOHN PRITCHARD***

# Ysgol Gwaun Gynfi

**Plant Mewn Angen**
Buom yn brysur iawn yn creu ein fersiynau ein hunain o Pudsey!






**Ymweliad â chanolfan RSPB yng Nghonwy**
Disgyblion blynyddoedd 4, 5 a 6 yn mwynhau diwrnod yn ymchwilio am anifeiliaid.







# Angerdd Dros Ailgylchu ac Ail-ddefnyddio





Mae Magali Roberts o Lanrug wedi ehangu ei chariad at greu pethau defnyddiol iddi hi a'i theulu yn gynnyrch i frand dillad o'r enw DragonetteByMagali, sydd yn cynnig atodolion lliwgar ac unigryw i oedolion a phant. Ymysg yr hyn mae hi'n ei werthu mae pecynnau dal brechdannau, waledi bach a gorchuddion bwyd. Ailgylchu ac ail-ddefnyddio sydd yn gyrru Magali ym mhopeth mae hi'n ei wneud, ac mae cynaliadwyedd yn agos iawn at ei chalon.

"Dwi wastad wedi bod wrth fy modd yn gwneud pethau", meddai Magali. "Mae'n debyg bod yna ychydig bach o ffantasi hunangynhaliol wrth wraidd y peth ond mae'n ymwneud hefyd â mynd yn ôl at sgiliau sylfaenol fel y galla'i gael mwy o reolaeth dros ba ddefnyddiau dwi'n eu defnyddio.

"Mae gwerthoedd moesegol bob amser wedi bod yn bwysig i mi. Rwy'n dod o hyd i lawer o'm ffabrigau o eitemau ail-law, fel arfer wedi'u gwneud o wlân, a dwi wedyn yn eu tynnu oddi wrth ei gilydd ac yn ail-greu rhywbeth newydd. Yn aml iawn mae'r ffabrigau a ddefnyddir mewn dillad hŷn o ansawdd da iawn. Mae'n hyfryd rhoi bywyd newydd i hen ffabrig.

"Mae hefyd yn bwysig i mi nad ydi'r hyn rydw i'n angerddol amdano yn creu gormod o wastraff ychwanegol. Mae gwlân gymaint yn fwy gwerthfawr ac eco-gyfeillgar nag y mae diwylliant heddiw yn sylweddoli. Mae gwlân yn cysylltu fy nghreadigaethau efo'r dirwedd Gymreig drawiadol sydd o nghwmpas i, a'i phobl ryfeddol. Rydw i wedi defnyddio cnu o ffermydd lleol ar gyfer fy mhrosiectau nyddu. Mae'r teulu'n fy mhryfocio pan rydan ni allan am dro ac yn pasio defaid: "Stopia lygadu'r defaid yna ar gyfer dy wehyddu – ti'n gwneud y creaduriaid yn nerfus!"

Ond mae agwedd ymarferol iawn i waith Magali hefyd, gan ei bod wrth ei bodd yn datrys problemau pobol gyda dillad.

"Os oes gennych chi un droed ychydig yn hirach na'r llall (fel y mwyafrif o bobl!) byddaf yn gwneud pob sliper wedi'i deilwra i hyd eich traed. Ydi'ch plentyn eisiau top porffor gyda streipiau pinc a 'phoced gyfrinachol'? Gadewch imi nôl fy nhâp mesur! Angen rhywle i roi eich cardiau neu arian parod heb lwytho'ch pocedi neu eich bag llaw? Mae fy waledi arddwrn yn berffaith i chi!"

Mae plant Magali a'i gŵr wrth eu boddau yn troi eu llaw at greu hefyd, ac mae'r pedwar yn medru gwnïo a gwau yn ddeheuig.

"Mae'r ddau fab a'r ddwy ferch i gyd wedi dysgu gwnïo a gwau, a rhai yn fwy sgilgar na'r lleill wrth gwrs ond i gyd yn mwynhau. Maen nhw hefyd wedi mwynhau gwehyddu a gwneud gwaith coed yn fawr. Mae gweld yr hud yn eu llygaid pan fyddant yn sylweddoli eu bod wedi creu rhywbeth yn arbennig iawn."

Yn ogystal â chadw'n brysur yn creu ac yn magu pedwar o blant, mae Magali hefyd yn gwirfoddoli i fenter Olio ac yn un o'u Harwyr Gwastraff Bwyd. Golyga hyn ei bod yn un o dîm o bobol sydd yn casglu bwyd dros ben gan archfarchnadoedd neu fusnesau lleol ac yn ei gynnig i unrhyw un a all wneud defnydd ohono.

"Mae gwastraff bwyd yn cyfri' am 8% o allyriadau nwyon tŷ gwydr y DU – llawer mwy nag allyriadau ceir" meddai Magali. "Mae'r rhesymau dros wastraff yn gymhleth ac eto dydi ysgwyd ein pennau a gwneud dim yn datrys dim byd chwaith. Mae bod yn wirfoddolwr Olio wedi rhoi boddhad mawr i mi a dwi wedi cwrdd â llawer o bobl ryfeddol yn ystod y broses. Rydw i wrth fy modd efo'r ffordd mae'r fenter yn gwasanaethu'r gymuned leol a thrwy hynny yn creu mwy o gysylltiadau rhwng pobl."

Gallwch lawrlwytho 'app' Olio i weld pa fwydydd sydd ar gael am ddim yn eich ardal chi.





# Ti'n cofio 40…30…20…10?

Wyddoch chi fod gwefan *Eco'r Wyddfa* - www.ecorwyddfa.co.uk - yn drysorfa o atgofion am yr hyn sydd wedi bod yn digwydd yn ein bro am dros 45 o flynyddoedd? Os ewch chi i'r adran 'Archif' ar y wefan fe gewch fynediad i'r holl hen rifynnau a nifer fawr o luniau.

Cyhoeddwyd rhifyn cyntaf yr *Eco* fis Chwefror 1976, a chyn bo hir byddwn yn dathlu cyhoeddi rhifyn 500. Dipyn o gamp! Ewch i gael cip ar yr hen rifynnau a'r lluniau i weld os yw'ch llun chi yno, pa newyddion gyrhaeddodd y tudalenau blaen neu beth oedd yn digwydd ym mis eich geni!

Er mwyn rhoi blas i chi, dyma ychydig o bytiau o gynnwys *Eco'r Wyddfa* ym mis Ionawr 40, 30, 20 a 10 mlynedd yn ôl…

**Ionawr 1982**
Pris yn 15c.


ECO'R WYDDFA
NOSON FAWR Y MOTOBEICWYR IEUAINC
DATBLYGIAD CYFFROUS YN LLANBERIS
O EISTEDDFOD BETHEL

- Cyfarfod gwobrwyo Clwb Padarn - clwb o fotobeicwyr ifanc .
- Stafell adloniant wedi agor ym Mwyty Fferm Bron Eryri, gyda Chwmni Drama Llanberis yn cael cartref lleol i'w perfformiadau o'r diwedd. Mae goleuadau lliwgar newydd yn yr ystafell sydd "…yn y to, ar y waliau, yn y llawr, yn troi, yn fflachio i rythm y band, ac yn peintio'r perfformwyr, a'r dawnswyr mewn enfys o liwiau".
- Llythyr gan aelodau Capel Heol y Crwys, Caerdydd, yn hysbysebu cyfle i gael gwyliau yn y brifddinas. Llety gwely a brecwast 7 noson am £75 yng nghartref aelodau'r capel - "cewch groeso cynnes ar aelwyd Gymraeg a chyfle i weld ein prifddinas". Ydi'r cynnig dal yno 'dwch?!
- Clwb Cefnogwyr yr Eco - atgoffa darllenwyr i ymaelodi er mwyn cael y cyfle i ennill gwobrau.
- Llyfrau newydd ar gyfer y Nadolig (ac sy'n dal yn boblogaidd) - *I Hela Cnau* gan Manon Eames ar gyfer oedolion, a *Ble mae Smot?* ar gyfer plant.
- Edrych yn ôl ar hanes Capel Tabernacl, Deiniolen, ar ôl ei gau.
- Garej Minffordd, Bethel a Garej Hafod, Llanrug yn hysbysebu'r ceir 'newydd' - y Metro a'r Triumph Acclaim.

**Ionawr 2002**
Pris yn 40c.


ECO'R WYDDFA
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r holl ddarllenwyr, cyfranwyr a hysbysebwyr
Llawenydd yr Ŵyl

- Caffi'r Ffowntan, yn yr Amgueddfa Lechi yn Llanberis yw enillydd diweddaraf Bwydlen Ddwyieithog y Mis, cynllun arbennig a drefnir ar y cyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a Blas ar Gymru.
- Hysbyseb ar gyfer Noson agoriadol Clwb Garddio, Tŷ Gwydr, Cwm-y-Glo, gyda chroeso cynnes i bawb a mynediad a ddim.
- Noson 'Sêr yn y Llygaid' wedi ei chynnal yn Y Bedol, Bethel, gydag aelodau pwyllgor a thîm pel-droed Bethel yn dangos eu doniau 'cerddorol' o flaen torf o ryw 300. Roedd nifer yn taeru mai'r enwogion byd-eang go iawn oedd wedi landio yn Y Bedol y noson honno, sêr megis Abba, Freddie Mercury ac Elvis! Cafwyd ocsiwn ar y noson yn ogystal, gyda'r digwyddiad cyfan yn codi arian ar gyfer y clwb pêl-droed.
- Yn dilyn cyfarfod agored ar 23 Tachwedd lansiwyd *Strategaeth Gymunedol Waunfawr*, gyda'r bwriad o hybu prosiectau mewn nifer o feysydd, megis yr amgylchedd a'r economi.
- *Deffro* oedd teitl y stori fer fuddugol yng nghystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail, gyda Nora Ostler o flwyddyn 13 yn fuddugol. Cewch ddarllen y darn buddugol yn ei gyfanrwydd yn yr Eco.
- Dathlu tymor cyntaf llwyddiannus i fenter ddrama ieuenctid y fro, Rygarug, gyda pherfformiad y sioe 'Seren Newydd' yn Ysgol Brynrefail. Maent bellach yn edrych ymlaen at dymor yr un mor llwyddiannus yn y gwanwyn.
- Cofnod hynod ddifyr allan o ddyddiadur Griffith Hugh Roberts, Hedsor Villa, Pontrhyddallt, yn darlunio ei brofiad yn mynd i ryfel yn 1917.
- Hanes taith Côr Dyffryn Peris i Trier yn yr Almaen, a thros y ffin i Luxembourg. Difyr yw clywed barn maer ardal Redange am dwristiaid, a llwyddiant y côr i lenwi'r neuadd gyngerdd er gwaethaf y gŵr!
- Mae Parc Cartrefi Gwyliau Brynteg yn falch o fod wedi ennill gwobr "Y Parc Gorau ym Mhrydain" Calor 2002, a hefyd Gwobr Aur David Bellamy am welliannau arngylcheddol.
- Tîm Rygbi dan 18 oed Ysgol Brynrefail yn mynd o nerth i nerth, gan guro Ysgol Friars er mwyn sicrhau lle yn rownd nesaf Cystadleuaeth Plât Cymru. Y gêm honno yn erbyn Cardiff High School fydd "heb os nac oni bai hon fydd y gêm fwyaf yn hanes rygbi'r ysgol".

**Ionawr 1992**
Pris yn 25c.


ECO'R WYDDFA
Cyfarchion y Tymor i bob un ohonoch
HATRIC!
Pencampwyr Carioci

- Llyfrau newydd o Wasg Gwynedd yn cynnwys cyfrol Gerall Lloyd Owen, *Cilmeri a Cherddi Eraill.*
- Garej Hafod, Llanrug yn hysbysebu 'car bach hynod o fawr' newydd sbon, sef y Peugot 106.
- Criw ffilmio wedi bod yn Ysgol Gynradd Llanrug 'er mwyn paratoi rhan o gyfres newydd C'mon Midffild.
- Adroddiad yn darlunio hwyl Eisteddfod Bentref Dinorwig, gyda thua 130 yn bresennol.
- Grŵp Carioci Waunfawr - 4 o ferched ifanc y fro - wedi canu mewn cystadleuaeth carioci o flaen miloedd o bobl yn yr Empire Ballroom, Leicester Square, Llundain.

**Ionawr 2012**
Pris yn 50c.

- 'Lladron haearn' sy'n cael y bai am ddwyn y blwch postio yn Nhan y Gaer. Sut oedd trigolion y fro i fod i anfon eu llythyrau pwysig i Sôin Corn??
- Dathlu cyhoeddi llyfr Glenda Carr *Hen Enwau o Arfon, Llŷn ac Eifionydd* sy'n esbonio hanes nifer o enwau lleol i ni yn y Waunfawr, Llanrug, Llanddeiniolen a Betws Garmon.
- Eisteddfod Bethel - y prif lenor yn y cynradd oedd Gethin Rhys Jones, a'r prif lenor yn yr uwchradd oedd Manon Elwyn. Roedd hon yn eisteddfod lwyddiannus arall yn ôl y niferoedd a fu'n fuddugol sy'n cael eu henwi.
- Eisteddfod Llanrug a Chwm-y-Glo - porwch drwy enwau'r holl rai fu'n fuddugol, a mwynhewch ddarllen 'Wyneb yn Wyneb', sef cyfansoddiad buddugol Ffion Erin Williams yng Nghystadleuaeth y Gadair.
- Cled a Susan yn ail-agor y post a'r siop ym Methel.
- Ffarwelio â Mr Gareth Fôn Jones, sy'n gadael ei swydd fel Prifathro Ysgol Gymunedol Penisarwaun…ond yn symud i fod yn Brifathro Ysgol Dolbadarn.
- Disgyblion Ysgol Brynrefail wedi bod wrthi'n hynod o brysur yn paratoi bocsys ar gyfer Operation Christmas Child. Pan gyrhaeddodd Mr Wyn Owen, cynrychiolydd gogledd Cymru, yn ei fan i nôl y bocsys ei farn oedd "Mae hyn yn anhygoel! Yr ysgol orau yng ngogledd Cymru!"
- Maggie Oliver o Ddinorwig wedi ennill medal efydd ym Mhencampwriaethau Rasys Traws-gwlad Rhedwyr Hŷn Prydain yn Glasgow.
- Elain Siân Roberts, disgybl yn Ysgol Brynrefail, wedi ei dewis i chwarae yn nhîm pêl-rwyd dan 17 Cymru. Ar ben yr anrhydedd honno, cafodd y fraint hefyd o fod yn gapten y tîm. Llongyfarchiadau!


ECO'r Wyddfa
Penbleth anfon i Sion Corn

## LLANRUG

**Chwilio am ohebydd pentref newydd**
Ar ôl dros 20 mlynedd o wasanaeth a chefnogaeth i'r Eco, mae Eryl ein gohebydd pentref presennol yn dymuno rhoi'r gorau i'r gwaith. Diolch o galon i chi Eryl am bopeth yr ydych wedi ei wneud drwy'r cyfnod hwn. Dyma gyfle felly i rhywun newydd gamu ymlaen!

Be' fydd angen i mi ei wneud? Gofynnwn i chi fod yn barod i chi rannu ein manylion cyswllt er mwyn i bobl gysylltu â chi i rannu eu newyddion, ac i chithau hefyd chwilio am straeon yn y pentref. Wedyn, bydd angen i chi basio'r wybodaeth honno ymlaen unwaith y mis. Gall fod yn gyfle i fwy nag un person weithio efo'i gilydd i wneud y gwaith os nad ydych yn dymuno gweithio ar eich pen eich hun.

Mae croeso i chi gysylltu ag Eryl neu un o'r golygyddion os hoffech ragor o wybodaeth – manylion cyswllt ar dudalen 2. Diolch bawb!

**Gwellhad Buan**
Bu Mair Humphreys, Stad Minffordd, yn yr ysbyty'n ddiweddar ac rydyn ni'n falch iawn ei bod hi wedi cael dod adref bellach. Dymuniadau gorau am wellhad buan iddi gan ei chymdogion.

**Merched y Wawr**
Llongyfarchiadau gwresog i Rhiannon Roberts a enillodd yr ail wobr am ei gwaith cywrain yng nghystadleuaeth Merched y Wawr yn y Ffair Aeaf, 29ain/30ain Tachwedd. Roedd ei gwaith yn rhan o'r dosbarth 'Eitem yn cynnwys y lliw du, gwyn neu ddu a gwyn (gellid defnyddio lliwiau eraill yn ogystal â du a gwyn)'.

Roedd y gwaith o fewn y gystadleuaeth o safon uchel iawn ac mae'r llun yn dangos cystal safon oedd i waith Rhiannon hefyd.






# Parcio am ddim yng Ngwynedd i annog siopa'n lleol y Nadolig hwn

Fel rhan o ymdrechion i gefnogi busnesau lleol y Nadolig hwn, mae Cyngor Gwynedd yn cynnig parcio am ddim ym meysydd parcio'r awdurdod o 11 hyd 28 Rhagfyr.

Mae'r Cyngor yn annog pobl Gwynedd i wneud y mwyaf o'r cynnig ac i fachu ar yr amrywiaeth o gynnyrch arbennig sydd ar gael o siopau a busnesau'r sir yn y cyfnod sy'n arwain at yr Ŵyl.

Dywedodd y Cynghorydd Gareth Griffith, Aelod Cabinet Amgylchedd Cyngor Gwynedd:

"Mae'r cyfnod Covid-19 wedi bod yn anodd iawn i'r gymuned fusnes, ac mae'r Cyngor yn gobeithio y bydd yr ymgyrch yma yn y cyfnod yn arwain at y Nadolig yn rhoi hwb i gwmnïau Gwynedd.


"Trwy siopa'n lleol, yn hytrach na theithio am filltiroedd a mynd yn sownd mewn tagfeydd traffig, rydych nid yn unig yn rhoi hwb i fasnachwyr lleol ond byddwch hefyd yn helpu'r amgylchedd hefyd.

"Wrth gwrs, mae'r profiad siopa yn parhau ychydig yn wahanol ac rydym yn annog pawb i barchu rheolau pellhau cymdeithasol, a gwisgo mwgwd mewn unrhyw siop neu fan cyhoeddus dan do er mwyn cadw ein cymunedau yn ddiogel."

Mae'r cynllun parcio am ddim yn rhan o ymgyrch ehangach gan y Cyngor i annog pobl i siopa'n lleol. Mae gwybodaeth am yr amrywiaeth o ddanteithion sydd ar gael o lawer iawn o fusnesau Gwynedd i'w gweld yma https://www.visitsnowdonia.info/cy/siopau-cynnyrch-lleol

Bydd parcio am ddim ym meysydd parcio cyhoeddus Cyngor Gwynedd o 11 tan 28 Rhagfyr, gyda ffioedd fel arfer yn ail-gychwyn o 29 Rhagfyr.

Ymgyrch ym meysydd parcio cyhoeddus Cyngor Gwynedd ydi hwn. Bydd arwydd ar bob peiriant talu ac arddangos ym meysydd parcio cyhoeddus y Cyngor, felly os nad oes nodyn i'w weld, dylech wirio os ydi o'n faes parcio'r Cyngor.

Tyddyn Teg
Bwyd - Tir - Pobl

LLYSIAU LLEOL FFRES

Ymunwch â'n cynllun llysiau!

Dewch i'n siop!

- Rydym bob amser gyda llysiau blasus a ffres o'n caeau a'n twneli polythen.
- Rydym wedi ein lleoli ym Methel ar y ffordd tuag at Llanrug.

Cyslltwch â ni: **07599 813777**
info@tyddynteg.com
Neu ewch i'n gwefan: **www.tyddynteg.com**




Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn - 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

# Ysgol Gynradd Llanrug

**Tymor Ewyllys Da**
Mae Dosbarth Tryfan wedi bod yn brysur yn meddwl sut allent arddangos caredigrwydd dros y mis nesaf wrth greu calendr Adfent ychydig yn wahanol.



**Gwrth-fwlio**
Cafwyd llawer o drafod yn y dosbarthiadau yn ystod diwrnod gwrth-fwlio. Dyma rai yn gwisgo eu sannau od!



**Meddwl am Eraill**
Rydym wedi bod yn brysur yn cefnogi gwahanol elusennau. Casglwyd nifer helaeth o focsys ar gyfer Teams4u. Cafodd y plant hwyl ar ddiwrnod Plant mewn Angen gyda bob math o weithgareddau. Bu plant y Cyfnod Sylfaen yn rhedeg o amgylch trac yr ysgol yn ystod y dydd a bu iddynt gyd-redeg 26 o filltiroedd. Yn yr Adran Iau bu bob math o gystadlaethau hwyliog gan godi cyfanswm o £521.






**Sul y Cofio**
Bu plant blwyddyn 5 a 6 yn dysgu am Sul y Cofio ac ystyr y pabi coch.
Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl gymuned yr ysgol.



DODREFN A LLORIAU
PERKINS
●●● 01286 673535 ●●●
www.perkinsfurniture.co.uk
16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AG

## PENISARWAUN

**Pwyllgor Neuadd Gymuned Cydymdeimlad**
Ar drothwy'r Flwyddyn Newydd, dymuna Aelodau Pwyllgor y Neuadd Gymuned anfon eu cydymdeimlad dwysaf at gyfeillion o'r pentref sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Anfonwn ein cofion anwylaf at deulu'r diweddar Henry Jones, at Elen ac Irfon a Heddwen a'r teulu a theulu Llanfaethlu.

Anfonwn ein cydymdeimlad llwyraf hefyd at Annette, Heledd, Ynyr, Bedwyr, Nain Hannah a'r teulu oll yn eu profedigaeth lem o golli Gwyn, gŵr, mab yng nghyfraith, tad, tad yng nghyfraith, taid balch a brawd yng nghyfraith.

Wedi oes o wasanaeth clodwiw i'r pentref hwn, i'r Fro, Cyngor Gwynedd a Chymru benbaladr anfonir ein cydymdeimlad llwyraf at Leslie, Cai, Trystan, Ffion, Rheon a'r teulu oll yn y golled enfawr yn dilyn marwolaeth Pat, gwraig, mam, mam yng nghyfraith, nain, hen nain, chwaer a ffrind i lawer. Mae'r Ysgol Gymuned yn dystiolaeth o'i llafur diflino i sicrhau ysgol a Neuadd Gymuned sydd ymysg y mwyaf chwaethus yng Ngwynedd.

**Llongyfarchiadau**
Llongyferchir Myfanwy a Dic Parry ar ddod yn hen nain a thaid i or wyres fach, Ani Mair Glyn, merch fach i Elin a Kallum a chwaer fach i Arthur o Fae Penrhyn, Bae Colwyn - testun llawenydd i Myfanwy a hithau'n dal i ddioddef gyda'i chlust. Brysia wella Myfanwy a phawb arall sy'n sâl yn y pentref.

Llongyfarchiadau i Dafydd Sycharth, 5 Bryn Eglwys ar gyrraedd pen-blwydd arbennig ar Ragfyr 24ain o Ragfyr. Llawer o gariad gan Ann, Eurgain Haf, Bedwyr, Osian a'r teulu i gyd, a'i chwaer Megan.

Llongyfarchiadau i Eurgain Haf ar gyhoeddi ei llyfr, 'Cyfrinach Noswyl Nadolig' - "stori gyfoes a pherthnasol ac iddi wers bwysig, sef sut i fod yn garedig tuag at bawb o bob cefndir a hil."

**Gohebydd i'r pentref**
Taer erfynnir am ohebydd pentref i'r Eco. Bydd angen i chi dderbyn newyddion am ddigwyddiadau yn y pentref a'u cyflwyno i'r Eco ar ecorwyddfa@gmail.com Cofiwch fod dau ben bob amser yn well nag un a bod posib i fwy nag un gyd weithio i hel straeon. Diolch o galon i unrhyw un neu ddau fyddai'n fodlon ymgymryd â'r gwaith.

**Tâl am yr Eco**
Dymunir atgoffa darllenwyr ffyddlon Yr Eco bod angen talu'r tâl blynyddol o £10 ar ddechrau mis Ionawr er bod rhai yn talu ym mis Mawrth, gan obeithio y ceir eich cefnogaeth yn 2022!

Gobeithio cawsoch chi Nadolig dedwydd a dymunir Blwyddyn Newydd obeithiol i chi i gyd yn 2022.

## Ysgol Penisarwaun



**Diwrnod Elfed yr Eliffant**
Cafodd disgyblion y Cyfnod Sylfaen bleser mawr yn dysgu am ELFED yn yr Ysgol dros yr wythnosau diwethaf. Cafwyd diwrnod dathlu ar ddiwedd y cyfnod thema, pan ddaeth y disgyblion i'r Ysgol wedi eu gwisgo'n lliwgar, a gwneud llawer o weithgareddau lliwgar yn ystod y dydd.

**Plant Mewn Angen**
Penderfynodd y Cyngor Ysgol eleni y byddem yn dathlu diwrnod Plant Mewn Angen drwy ddod i'r Ysgol mewn pyjamas a gwallt gwyllt! Casglwyd £70 tuag at gronfa Plant Mewn Angen. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

**Wythnos Newid Hinsawdd**
Bu disgyblion yr Adran Iau'n dilyn y datblygiadau yn ystod COP-26 yn ddiweddar, a buom yn trafod pwysigrwydd cydweithio ar draws y byd. Cafodd disgyblion yr Adran Iau wersi am Newid Hinsawdd yn rhithiol dros ZOOM yn ddiweddar i atgyfnerthu'r gwaith yn y dosbarth. Roedd y dosbarth cyfan yn ymuno'n rhithiol yn ddyddiol am wythnos gyfan. Cafwyd llawer iawn o wybodaeth ddefnyddiol iawn, a phawb wedi mwynhau. Diolch i griw 'Eco 'sgolion' am ddarparu.

Mae disgyblion yr Adran Iau newydd gwblhau deg sesiwn o wersi nofio yn y Ganolfan Nofio yng Nghaernarfon. Pawb wedi mwynhau, a phawb wedi datblygu eu hyder yn y dŵr. Da iawn chi blantos!

Hoffai pawb yn Ysgol Gymuned Penisarwaun ddymuno Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd dda i bawb, a diolch i'r gymuned gyfan am eich cefnogaeth drwy gydol y flwyddyn.

## CWM Y GLO

**Diolch**
Dymuna Iris Rowlands ddiolch o galon am y dymuniadau da a dderbyniodd i lwyddiant y siop newydd – drwy lythyr, galwadau ffôn a Facebook. Yn 1987 bu i Wyn ymuno mewn partneriaeth gyda Wil Chick a Meuryn Huws Roberts yn y busnes. Wedi colli Wil a Meuryn, aeth Wyn yn ei flaen gyda'r busnes a'i ddymuniad oedd cael codi adeilad newydd. Yn anffodus, oherwydd anhawsterau gyda'r safle, nid oedd modd adeiladu ond yn y safle presennol. Bu i Wyn ein gadael yn sydyn yn 2006 heb gael gwireddu ei freuddwyd. Ychydig a feddyliai ei daid mai Ben, ei ŵyr, fyddai 'trydanwr' y siop newydd. Byddai wedi bod yn falch iawn ohonno.

Mae fy niolch yn amhrisiadwy i'r holl gwsmeriaid ffyddlon o bell ac agos ar hyd y blynyddoedd. Bûm yn ffodus iawn o gael sgwrs gyda phobl o bob rhan o'r byd; pob iaith a chred – lawer gwaith yn deall dim ar ein gilydd, ond yn deall y gair bach pwysig ar ddiwedd pob sgwrs 'diolch'.

Dymunaf ddiolch hefyd i Sion – fy llaw chwith – am ei waith yn y kiosk bach am saith mlynedd. Ydi mae'r hen giosg bach wedi mynd bellach, ond mae'r atgofion yn aros.

Dymunaf Nadolig Dedwydd a Blwyddyn newydd well i'm teulu, ffrindiau, cymdogion a'r holl gwsmeriaid.

**Cyfarchion Nadolig**
Dymuna Hilda, Morannedd, anfon ei dymuniadau gorau i deulu, ffrindiau a chymdogion dros Ŵyl y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd gan na fydd yn anfon cardiau eleni. Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

# Adduned y Flwyddyn Newydd

Dach chi'n gwneud addunedau'r Flwyddyn Newydd? Blynyddoedd yn ôl ar y 1af o Ionawr y cwestiwn mawr oedd – "Wyt ti wedi gwneud adduned Blwyddyn Newydd?" a'r cwestiwn yna yn cael ei ddilyn efo "A beth wyt ti wedi penderfynu?" Diolch byth doedd dim llawer o bobl yn gofyn ychydig o wythnosau wedyn, "Sut wyt ti'n gwneud efo dy adduned?" Pan o'n i'n ifanc ac yn hollol ffôl yr adduned pob blwyddyn oedd rhoi'r gorau i smygu. Roedd rhoi'r gorau i smygu yn hawdd iawn – wnes i hynny llawer gwaith! Ond y tro olaf oedd yr un pwysig, yr un sydd wedi parhau hyd heddiw.

Dw i ddim yn clywed llawer am yr arferiad y dyddiau yma. Ydy pobl yn dal i'w wneud? Achlysur od iawn yw'r flwyddyn newydd, mae fel bod chi'n cael tudalen lân ar y 1af o Ionawr a dyna eich cyfle i newid eich ffordd o fyw. Wel, tydi pob diwrnod yn rhoi tudalen lân i chi, neu bob awr a phob munud? Wrth gwrs eu bod nhw! A diolch byth am hynny achos mae'n anhebyg eich bod chi'n darllen yr erthygl yma ar Ionawr y cyntaf.

Mae dau fath o adduned, yr addewid i beidio gwneud rhywbeth o hynny ymlaen neu'r addewid i wneud rhywbeth. Dydy hi ddim yn bwysig pa bynnag dewis dach chi'n wneud. I'w wneud ac i'w gadw sydd yn bwysig.

Fel pob un ohonoch chi dw i wedi cael fy effeithio gan yr hen pandemig greulon yma ond dw i'n falch o ddweud nid effaith gwael dw i wedi cael. Mae'n wir i ddweud roeddwn i wedi cael fy rhwystro i dreulio amser yn cerdded y cefn gwlad yn y dyddiau cynnar, a dw i wedi dod i arfer â pheidio mynd mor aml. Dyna'r effaith negyddol.

Ond mi oedd effaith gadarnhaol hefyd. Chi'n gweld dw i ddim yn hapus os nad oes gen i rywbeth i'w wneud ac roedd y syniad o fod dan glo am fis braidd yn hunllefus. Beth alla i wneud? Blynyddoedd yn ôl pan o'n i'n diwtor ym Mhowys roeddwn i'n cyhoeddi cylchlythyr i ddysgwyr o'r enw Y Wennol ac roeddwn yn mwynhau'r profiad. Tybed a fydda i'n gallu atgyfodi'r cylchlythyr? Roeddwn i'n adnabod llawer o ddysgwyr trwy Gymdeithas Edward Llwyd a hefyd trwy grŵp oedd yn cyfarfod yn wythnosol yn yr ardal. Anfonais neges atyn nhw i esbonio'r syniad a gofyn a fydden nhw'n fodlon ysgrifennu erthyglau. O fewn tair wythnos ces i ddigon i lenwi chwe dudalen ac roedd y cylchlythyr allan at bawb o'n i'n hadnabod oedd yn siarad Cymraeg erbyn Ebrill 1af.

Mae'n dal i fynd ymlaen a dyma fi wedi cyhoeddi rhifyn mis Ionawr erbyn hyn ac erbyn mis Mawrth bydd Y Wennol wedi cyrraedd ei ail ben-blwydd. Mae 15 dudalen ynddo erbyn hyn a llawer mwy o ddysgwyr yn cyfrannu.

Nid pwrpas yr erthygl hon yw dweud jôc am ba mor hawdd yw hi i roi'r gorau i smygu. Na, yn hytrach i bwysleisio gwerth cael dysgwyr i'n cymunedau a'n cymdeithasau – maen nhw'n barod i gyfrannu, yn wir maen nhw eisiau cyfrannu. Edrychwch ar oedran aelodaeth eich cymdeithasau a gofynnwch faint fydd dal yna mewn deng mlynedd. Dw i'n sicr byddech chi'n gweld bod rhaid i chi gael aelodau newydd, aelodau brwdfrydig.

Mae'r bobl fydd yn achub ein cymdeithasau, ein cymunedau a'n hiaith yna yn eich dosbarth nos lleol. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n dod i adnabod eich tiwtor lleol er mwyn i chi agor eich drysau i'ch dysgwyr. Os ydyn nhw yn ein cymunedau bydden nhw'n gwneud gwahaniaeth.

Trefnwch fore coffi iddyn nhw yn rheolaidd a rhoi'r cyfle iddyn nhw ddod i'ch adnabod chi. Ni fyddwch yn difaru!

**Rob Evans**





HYWEL WILLIAMS

AELOD SENEDDOL ARFON



01286 672076

8 Stryd y Castell Caernarfon

hywel.williams.mp@parliament.uk

Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Senedd San Steffan, o gronfeydd cyhoeddus

HUW OWEN

PLASTRWR

ADEILADWR LLEOL

23 BLWYDDYN O BROFIAD

Ffôn - 01286 677668

Symudol - 07940023159


Cwôt di-dal



Gladwyn, Ffordd yr Orsaf LLANRUG LL55 4AG

Ebost - lisa.huw@btinternet.com





FFRAMIA

Parc Padarn Llanberis

(01286) 870922

Gwasanaeth

FFRAMIO LLUNIAU

Dewis eang o luniau yn yr oriel ac ar y wefan

www.fframia.com

William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy

GERAINT OWEN CARPEDI



Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd

A Uned 5 Gwyrfai Mill, Bontnewydd

(01286)650552 Symudol - 07712779475

CARPEDI TEILS VINYLS

DEWIS MAWR O BATRYMAU

# Ysgol Brynrefail



**Cadeirydd Cadw yn canmol cyfraniad disgyblion bl13 mewn gweithdy yng Nghaernarfon**

Nododd Jane Richardson, Cadeirydd Cadw, mewn llythyr i'r ysgol bod cyfraniadau dwy hanesydd ifanc o flwyddyn 13 sef Beca Haf a Gwernan Brooks wedi bod yn rhagorol yn y gweithdy i'r cynllun dehongli Castell Caernarfon. Dywedodd bod eu cyfraniadau a'u hadborth yn ddeallus ac yn dangos mewnweledïad a threiddgarwch. Fe ddefnyddiodd y ddwy hefyd eu gwybodaeth o lenyddiaeth Gymraeg i gadarnhau eu sylwadau. Gwernan a Beca atgoffodd bawb yn y gweithdy o'r cyswllt rhwng cestyll Dolbadarn a Chaernarfon a'r angen i adlewyrchu hynny yn y straeon fydd yn cael eu hadrodd yn y dehongliad newydd o'r castell.

Bydd Cadw yn gwahodd y ddwy i agoriad y dehongliad newydd o Gastell Caernarfon a byddai croeso iddynt dderbyn profiad gwaith gyda Chadw oherwydd dyfnder eu dealltwriaeth a'u hymwybyddiaeth o hanes Cymru. Mae'n amlwg bod Beca a Gwernan wedi gwneud argraff arbennig iawn ar bawb oedd yn bresennol yn y gweithdy a dod a chlod iddyn nhw eu hunain ac i'r ysgol - gwych!

**Cystadleuaeth Pwy ydi Eryri i chi?**

Gwernan yn serennu!

Fel rhan o ddathliadau 70 mlwyddiant Parc Cenedlaethol Eryri, fe wnaeth Pontio, Bangor mewn cydweithrediad â'r Parc Cenedlaethol estyn gwahoddiad i 70 o ysgolion y Parc i ddweud beth mae Eryri yn ei olygu iddynt hwy gan bersonoli'r ardal trwy gelfyddyd o'u dewis.

Y bwriad oedd i'r gwaith gael ei rannu ar fap rhithiol ar wefan y Parc a'r artistiaid sydd ynghlwm â dathliadau'r Parc yn dewis eu hoff ddarn a'r ysgol honno yn derbyn print arbennig o waith Lisa Eurgain Taylor.

I helpu disgyblion yr ysgolion uwchradd i greu eu gwaith fe gynhaliodd Pontio weithdy drama a chreu monolog gan Mared Elliw Huws am ddim i ddosbarth o ddewis yr ysgolion.

Fe ddaeth Mared o Pontio yma i adran Gelf Ysgol Brynrefail ddiwedd Medi i gynnal y gweithdy gyda disgyblion Celf Bl13. Newyddion gwych i ni fel ysgol yw mai Gwernan Brooks, Bl13 ac un o'n Prif Ddisgyblion, enillodd y wobr!

Dyma ddatganiad Gwernan am ei gwaith:

'Lleoliad y gwaith yw ffiniau Eryri gyfan. Rwyf yn astudio Celf, Cymraeg a Hanes yn yr ysgol ac mae gen i ddiddordeb mawr yn nhreftadaeth fy ardal a'r iaith Gymraeg. Mae ysbryd goruwch naturiol yn perthyn i Eryri ac ymdeimlad bod y lle yn bwysig. Teimlaf fod hyn oherwydd yr hanes a'r chwedlau sy'n perthyn i Eryri, er enghraifft y Mabinogi. Rwyf wedi peintio portread o gymeriadau'r Mabinogi. Mae rhai o geinciau'r Mabinogi wedi eu lleoli yn Eryri. Gellir dadlau ein bod yn gallu teimlo ysbryd y cymeriadau yn y tir. Lleolir rhan fawr o ail gainc y Mabinogi neu Chwedl Branwen a phedwaredd gainc y Mabinogi sef Chwedl Blodeuwedd yng Ngwynedd. Gwirioneddol ddigalon i mi yw sylwi nad yw holl blant Eryri yn gwybod eu hanes eu hunain. Pwerus iawn fodd bynnag yw cofio bod y Gymraeg wedi ei defnyddio bryd hynny ac yn parhau yma heddiw. Felly efallai mai'r Gymraeg yw Eryri?'

Bydd Mared a Lowri Ifor o'r Parc Cenedlaethol a Lisa Eurgain yn dod draw i'r ysgol cyn y Nadolig i gyflwyno'r wobr i Gwernan. Rydym i gyd yn falch iawn o'i llwyddiant.

**Diwedd tymor prysur**

Mae'r tymor yn prysur ddirwyn i ben ac wrth edrych yn ôl dylem fod yn hynod o falch o'r hyn sydd wedi ei gyflawni dan amgylchiadau eithriadol o heriol ac anodd. Mae'r don Covid-19 wedi bod yn golchi trosom ers wythnosau bellach a nifer o ddisgyblion a staff wedi dal yr aflwydd. Er gwaethaf hynny a'r problemau sy'n dod yn ei sgil, rydym wedi llwyddo i ddal ati â'r gwersi a'r gweithgareddau (y rhai hynny sy'n bosib dan y cyfyngiadau). Nid ar chwarae bach mae hyn wedi digwydd, felly diolch yn fawr iawn i'r holl staff am ddal ati yng ngwyneb amodau heriol tu hwnt, ond yn bennaf diolch i'r disgyblion – y mwyafrif llethol ohonyn nhw wedi dangos gwydnwch arbennig dros y tymor diwethaf – da iawn chi, rydym yn hynod falch ohonoch.

Y newyddion trist yw, er i ni ddechrau paratoi ac ymarfer, na fydd hi'n bosib cynnal Eisteddfod Ysgol Brynrefail fel roedden ni wedi ei fwriadu ar 17eg Rhagfyr. Mae hyn yn siom enfawr i ni gyd, yn enwedig felly'r chweched dosbarth sy'n cael cymaint o fudd o baratoi'r gwahanol eitemau a hyfforddi'r disgyblion iau. Trist o beth yw bod yr ochr yma i fywyd yr ysgol yn parhau i fod yn amhosibl i'w gynnal - am y tro beth bynnag.

Gan na fydd yr Eisteddfod yn digwydd bwriedir cyhoeddi fideo o nifer o eitemau yn Gyngerdd Nadolig Rhithiol fydd yn dangos rhai o uchafbwyntiau'r tymor a aeth heibio. Dim cystal ag Eisteddfod yr Ysgol wrth gwrs ond yn gyfle gwahanol i roi llwyfan i'r talentau sydd yma.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddisgyblion, staff, rhieni a charedigion yr ysgol.








**Plant Mewn Angen**

Er gwaethaf yr holl gyfyngiadau mae Covid-19 yn ei orfodi arnom fel ysgol, penderfynwyd bod yn rhaid dal ati i gasglu arian i Blant Mewn Angen yn ôl yr arfer. Roeddem hefyd yn gobeithio byddai'r diwrnod yn fodd i'r staff a'r disgyblion gael ychydig o hwyl gan fyddai cyfle i wisgo gwisg ffansi yn ystod y dydd. Felly ar ddydd Gwener, Tachwedd 19eg creodd sawl aelod o staff a disgyblion y chweched dosbarth dipyn o gynnwrf a hwyl oherwydd eu gwisgoedd doniol.

Penderfynodd staff yr Adran Gymraeg wisgo fel cymeriadau o 'C'mon Midffild' gyda George a Sandra yn edrych yn wych a Wali a'i fam yn dal i ddadlau! Cymeriadau lliwgar o'r chwedegau oedd y cymorthyddion a sawl un ohonyn nhw yn gwisgo lliwiau llachar! Taniodd rhai o staff yr Adran Wyddoniaeth ddiddordeb y disgyblion yn eu pwnc trwy wisgo fel gofodwyr a staff NASA a gwisgodd sawl un arall fel cymeriadau amrywiol o wahanol ffilmiau. Chwarae teg i'r chweched dosbarth a wnaeth ymdrech hefyd yn eu gwisgoedd power rangers, deinosor a phyjamas! Roedd y disgyblion wrth eu boddau a chasglwyd swm anrhydeddus o £429 tuag at yr achos arbennig yma. Diolch i'r holl staff a ddaeth yn eu gwisgoedd ffansi ac i bawb a gyfrannodd ar y diwrnod.



**Ymgyrch Nadolig elusen T4U**
Yn ôl ein harfer bellach, rydym wedi bod yn brysur yn casglu bocsys o anrhegion ar gyfer plant llai ffodus, mewn gwahanol rannau o'r byd er mwyn cefnogi ymgyrch bwysig T4U. Mae prif Warws T4U wedi ei lleoli yn Wrecsam ac ar ddiwedd Tachwedd gadawodd y lori gyntaf gyda 9,084 o focsys ar eu ffordd i Rwmania. Mae'n bwysig ein bod yn cefnogi ymgyrch o'r math yma sy'n ceisio sicrhau bod gwên yn cael ei roi ar wynebau plant anghenus a thlawd dros gyfnod y Nadolig.

Yma yn yr ysgol rydym eleni wedi casglu 130 o focsys. Diolch i bawb a gyfrannodd ac yn enwedig Mrs Anwen Powell sy'n gwneud y gwaith o drefnu'r ymgyrch yma'n flynyddol. Y dosbarth a gasglodd y mwyaf o focsys oedd 8E ac fe gawsant wobr am y gamp honno. Diolch yn fawr iawn i bawb.





## BRYNREFAIL

**Sefydliad Y Merched**
Nos Iau 1af Rhagfyr, cafodd yr aelodau gyfle i ddod at ei gilydd yn y Ganolfan, Llanberis wedi cyfnod hir heb gyfarfodydd.

Trefnwyd Bwrdd Gwerthu Cacennau ar gyfer y noson i ail-gydio yn y gweithgareddau. Mawr ddiolch i'r aelodau am eu cyfraniadau ariannol a'r cacennau - gyda phob briwsionyn wedi ei werthu!

Cafwyd cyfle i drafod syniadau ar gyfer cyfarfodydd y flwyddyn nesaf dan ofal Shirley a Margaret.

Roedd pawb yn falch o weld Pat ein llywydd yn bresennol gan obeithio y caiff alwad cyn bo hir i dderbyn triniaeth ar ei chlun. Anfonwyd dymuniadau da i Pat Parry sydd yn wynebu triniaeth yn fuan yn yr ysbyty ac at Vera yn dilyn ei thriniaeth ddwys ddiweddar ac i bawb sy'n gwella wedi cyfnod o salwch.

Edrychir ymlaen at ddyfodol y Sefydliad - yn arbennig y cyfle i ddod at ein gilydd i gael mwynhau nifer o gyfarfodydd diddorol yn 2022.

# Ceir athrawon Brynrefail yn y Pumdegau!

Yn dilyn hanes BNY 90 (Byni Neinti) yn rhifyn diwethaf (Rhagfyr) Eco'r Wyddfa, derbyniwyd y wybodaeth a'r lluniau isod gan Gareth Pritchard:

Ar ôl darllen yr hanes diddorol gan Rhiannon Roberts am hen gar Austin ei thad (BNY 90) yn rhifyn Rhagfyr o Eco'r Wyddfa, cofiais am rai o'r penillion a ysgrifennodd Elfyn Thomas a Meirion Wyn Jones am orchestion Mr Land yn ei Austin 7.

Y tri athro yn y gerdd yw:

Mr William Charles Land: athro gwaith coed ac arlunio a ymunodd â'r staff ym 1947

Miss Mary Williams Parry (Mrs Mary Vaughan Jones yn ddiweddarach): athrawes Bioleg a ddaeth i Frynrefail ym 1940

Mr Ieuan Lewis James: Pennaeth Ffiseg, ac o 1956 Pennaeth yr Ysgol, a ddaeth i Frynrefail ym 1928.

Roedd yna fwy o benillion. Tybed oes rhywun yn cofio'r gweddill?

Diolch i Rhiannon Roberts a Gareth Pritchard am roi eu pennau at ei gilydd i gofio'r tri phennill.

Tybed os oes rhywun arall o blith ein darllenwyr neu gyn ddisgyblion Ysgol Brynrefail yn medru cofio unrhyw un arall o'r penillion?

Cysylltwch â'r Eco os oes pennill neu fwy yn eich meddiant: ecorwyddfa@gmail.com



## WAUNFAWR

**Llongyfarchiadau** i Llid Griffith, Perthi, sydd wedi cymhwyso i fod yn barafeddyg yn ddiweddar. Mae'r teulu a phawb sy'n dy adnabod yn falch iawn o dy lwyddiant, a dymunwn yn dda i chdi yn dy yrfa newydd.

**Croeso adra o'r Ysbyty** i Garry Griffith, Stad Ty Hen. Gobeithio byddi'n cryfhau pob dydd rwan, Garry.

Hefyd, cofion cynnes iawn at bawb arall o'r pentrefwyr sydd ddim yn dda ar hyn o bryd.

**Profedigaeth**
Estynnwn ein cydymdeimlad â Heledd, Min y Grug a'r teulu ar farwolaeth Gwyn Parry, tad Heledd.

Hefyd rydym yn cofio'n gynnes iawn at Gwyn Parry, Cefn y Waen Isaf a'r teulu yn eu profedigaeth hwythau o golli brawd yng nghyfraith.

**Plaid Cymru – Cangen Waunfawr**
Er gwaethaf cyfyngiadau Cofid, mae'r gangen wedi parhau i gyfarfod yn ystod y flwyddyn dros Zoom, ac yn bwriadu parhau i wneud hynny yn ystod y flwyddyn newydd. Croeso i aelodau newydd ymuno â ni. Yn y cyfamser, rydym fel cangen am anfon cyfarchion Nadolig i'r holl bentrefwyr a dymuno blwyddyn newydd dda i chi i gyd.

**Enillwyr Clwb 200 Canolfan Waunfawr 2021**

*Ionawr*
£30: Sara Davies, Bryn Melyn
£20: Dewi Jones, Dol Y Coed
£10: Alfie Jones, Hafod Y Rhug

*Chwefror*
£30: Nelma Pritchard, 6 Croes Y Waun
£20: Eluned Coles , 6 Bro Waun
£10: Nefyl Owen , Bryn Gwylan

*Mawrth*
£30: Aeron Jones , 9 Croes Y Waun
£20: Helena Edwards , Anneddle
£10: Glenys Jones , Rhandir Mwyn

*Ebrill*
£30: Irene Roberts , Pant Teg
£20: Nan Roberts, Madryn, Caeathro
£10: Delyth Jones, Tan Y Coed

*Mai*
£30: Geraint Williams, 13 Croes Y Waun
£20: Iolo Davies, Pennant
£10: Alice Johnstone, 10 Tref Eilian

*Mehefin*
£30: Lesley Williams, 4 Stad Ty Hen
£20: Martin Beech, Bryn Arfon
£10: Mererid Llwyd, Cae Rhos

*Gorffennaf*
£30: Ann Clark, 2 Pant Waun
£20: Zoey Aindow , Swn Y Gwynt
£10: Elen Roberts , Bodrida

*Awst*
£30: Olwen Morgan , Cartrefle
£20: Lowri Jones , Preswylfa
£10: Graham Rowlands , Arfon House

*Medi*
£30: Glenys Jones, Rhandir Mwyn
£20: Sion Wyn, Dol Gwyrfai
£10: Steven Jones, Ty'r Efail

*Hydref*
£30: Pearl Williams , Parc
£20: Sali Burns , Ty Capel
£10: Bethan Thomas, Ty'n Llain

*Tachwedd*
£30: Gareth Jones, Glyn Ceris
£20: Dylan Jones, Eryri Wen
£10: Sian Thomas, Ty Ysgoldy

*Rhagfyr*
£30: Mr & Mrs.Greasley, Minafon
£20: Elfyn Griffith, Blaen Y Nant
£10: Iola Jones, Bron Eifion

**Llwyddiant genod Weun yn Blackpool**
Bu nifer o enethod Waunfawr yn cymryd rhan, ac yn llwyddiannus iawn ym mhencampwriaeth Cheer Dance Uk gynhaliwyd yn ddiweddar yn adeilad Tŵr Blackpool. Yn cymryd rhan oedd Ellie, Loti, Lucy a Cadi, Berllan Las, Eila Roberts, Gadda a Lois Ty'r Efail.

Daeth Lucy a ffrind o Gaernarfon yn gyntaf mewn cystadleuaeth deuawd, Lucy yn ail mewn cystadleuaeth unigol, Lois a Cadi yn gyntaf mewn cystadleuaeth unigol, ac aeth Ellie ac Eila drwodd i'r rownd gyn-derfynol yn eu cystadleuaeth nhw. Llongyfarchiadau i bob un ohonoch chi genod!

**Genedigaeth**
Ganwyd merch fach – Zara Anna – i Meirion a Markata ym Mro Waun. Hwyl fawr i chi rieni newydd ar y magu!

**Teyrnged i Idris Roberts – Tarw Nefyn**
Diolch i Gwilym Morris Jones (Mois) am anfon ei atgofion am Idris Roberts:

**Cofio Idris**
Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Idris Wyn Evans, neu 'Tarw Nefyn' fel y'i hadwaenid yng nghylchoedd pêl-droed y gogledd yn ystod y 1950 a'r 60au.

Yn fuan wedi i mi ymddeol ddiwedd y flwyddyn 2013, ymunais am gyfnod byr gyda chlwb bowlio mat y Waunfawr. Ymysg y bowlwyr yng nghanolfan y pentref bryd hynny roedd Idris Evans, ac fel un yn cofio'r unigryw 'Tarw Nefyn' yn chwarae ar y cae pêl-droed, pleser i mi oedd dod i gysylltiad a dod i adnabod y gŵr arbennig yma.

Yn ystod y nosweithiau hyn, cynhaliwyd cystadlaethau 'doubles' a braint i mi oedd cael bod yn bartner i Idris ac o ganlyniad cael llawer o hwyl yn ei gwmni. Roedd Idris a dweud y lleiaf mor gystadleuol ar y mat bowlio ac yr oedd ar y cae pêl-droed, "Tud was, mi rown'i rych i'r rhein!" felly y dywedai gyda winc a phwniad i mi yn fy nghesail gyda'i benelin. "Yli, rowlia'r hen bêl ddu 'na yn ara deg fel bydd hi'n cyrradd gin agosad a phosib at y 'jac' bach gwyn 'na yn fancw!" Idris yn ei dwrn yn gwyro a bowlio ei bêl

# Gweinidog Newydd i Eglwys y Waun

Roedd nos Wener, 26ain Tachwedd yn noson arbennig o ddathlu yng Nghapel Seilo pan ddaeth cynulleidfa dda at ei gilydd – yn y capel ei hun, ar Zoom, ac ar y ffôn – i ddangos cefnogaeth i'r Parchedig Anna Jane Evans wrth iddi gael ei 'sefydlu' yn Weinidog ar Eglwys Seilo; Capel y Waun, Waunfawr; ac Eglwys y Berth, Penmaenmawr. Er iddi fod yn hynod weithgar yma ers dros flwyddyn a hanner, daeth cyfle o'r diwedd i gynnal gwasanaeth a oedd yn cadarnhau yn swyddogol ei bod hi, bellach, yn Weinidog ar y tair eglwys sy'n ffurfio'r Ofalaeth.

Llywyddwyd y cyfarfod gan Nerys Evans, Rhostryfan (cyn-Lywydd Henaduriaeth Arfon) a chymerwyd rhan gan Susan Williams (Cynllun EFE), Llinos Morris (Eglwys Noddfa), Llinos Roberts (Cymorth Cristnogol), Pat Parry (Capel y Waun), W. Gwyn Lewis (Seilo), a'r Parchedigion Gwenda Richards a Pryderi Llwyd Jones. Alun Rhys Williams oedd wrth yr organ.

Yn ystod y gwasanaeth, sonwyd fwy nag unwaith am ofal cydwybodol Anna Jane dros bawb o'r aelodau – yn arbennig pobol oedrannus, unig a bregus. Mae pawb yn gwybod yn iawn am ei hymroddiad diwyro i helpu'r anghenus a'r difreintiedig yn ein cymdeithas ar hyd y blynyddoedd – er pan oedd yn gweithio yn Noddfa ac yna wedyn drwy ei gwaith efo Cymorth Cristnogol. Diolchwyd yn ddiffuant iddi am yr hyn y mae hi eisoes wedi'i gyflawni yn gyffredinol yn ystod y cyfnod anodd sydd wedi bod dros y flwyddyn a hanner diwethaf yn sgil y pandemig, a dymunwyd pob bendith ar ei gweinidogaeth a'i chenhadaeth yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.

Cyfeiriwyd hefyd at ddiweddar daid Anna Jane, y Parchedig Stephen Owen Tudor, a fu'n weinidog ar Eglwys Moreia yn y dre o 1935 i 1962, a dyfynnwyd o englynion coffa y Parchedig John Roberts iddo: 'Dan ei law roedd doniau lu, / A'i dalent oedd ei deulu.' Yn y cyd-destun hwn, braf iawn oedd gweld nifer o aelodau'i theulu yn bresennol yn y gwasanaeth i ddangos eu cefnogaeth iddi.



Wrth ymateb i'r croeso a'r dymuniadau da, nododd Anna Jane bod llawer o waith i'w wneud er mwyn gwella amgylchiadau pobl yn ein cymdeithas a rhoddodd wahoddiad ac anogaeth i bawb ohonom 'fynd allan i weithio' efo hi. Dyna fydd ein braint a'n cyfrifoldeb ni.

Croeso cynnes – 'swyddogol' o'r diwedd – Anna Jane!

**Pat Parry**

yntau a'i dilyn yn araf ar hyd y mat a gwneud arwydd efo'i law fel pe bai'n ei hannog i gyflymu neu arafu ar ei ffordd i'w targed.

Roedd paned yn ei gwmni ar hanner amser yn hynod ddifyr. Idris yn traethu a minnau'n gwrando'n astud arno'n sôn am ei brofiadau â'i helyntion yn ystod ei yrfa gyda thimau pêl-droed Pwllheli, Nantlle Vale a Chaernarfon.

"Cofio pan ddechreuis i chwara i Bwllheli 'stalwm sdi, finna'n ryw lefnyn o 'right back' bach ifanc ddibrofiad ynghanol rhei o'r ffwtbolars gora'r 'Welsh Lîg. Tomi Jôs o'dd y manijar, ew coblyn o fanijar da was, a Pwllheli radag honno efo tîm fasa'n curo rhywun i ti. 'Esu, doedda'n ni'n curo tîms fel Holihed, Bangor a Fflint sdi, a rheiny yn goblyn o dîms da de!

"Roedd 'na foi yn chwara sentar fforward i ni radag honno, Mac Eynon o'dd i enw fo, ew andros o chwaraewr da was, ag un fel melltan am gôl! Mi elli fentro pan fydda hwn yn ca'l y bêl rwla yn y bocs, mi fyddai yng ngefn y rhwyd cyn i'r goli droi rownd!

"Beth bynnag i chdi, un dydd Sadwrn mi roeddan ni'n chwara 'Stiniog awê a rheiny ar bapur yn dîm y dylia ni fod yn eu curo nhw'n hawdd. Am ryw reswm pnawn hwnnw fedra Eynon 'neud diawl o ddim yn iawn. Methu bob cyfla fydda'n disgyn i'w draed o. Hitio'r bêl dros y bar neu heibio'r postyn bob gafal. Mwya'n byd ro'dd y creadur yn trio, mwya'n byd roedd o'n fethu. Wel be ddigwyddodd? Yn hollol yn erbyn y chwara, dyma Blaenau i fyny pen arall i'r cae a blydi sgorio! R'Arglwydd! cwta bum munud wedyn, dyma nhw'n sgorio un arall, a ninna tŵ nil i lawr ar hannar amsar!

"Tomi Jôs yn y dresing rŵm half teim yn gandryll ag yn rhoi uffar o lond ceg i Eynon nes fod o'n tincian. Hwnnw wedi pwdu fel hogyn bach ysgol wedi ca'l chwip dîn gin y tichar! Peth nesa dyma Tomi yn troi ata'i a deud, "Idris? you'r playing centre forward second half!" Finna'n trio deud yn fy Saesnag gora na'd oeddwn'i 'rioed wedi chwara sentar fforward yn fy mywyd. Fynta'n harthio nôl. "Idris! shut up!, You're playing centre forward whether you like it or not, and Eynon you're moving to right back!"

"Doedd ddim iws trio taeru efo'r dyn achos fod o mor gythreilig o ben galad! Ta waeth, dyma ni allan ar gyfar y second hâff rŵan, a myn uffar goeli di be ddigwyddodd? Mi sgori's i dair gôl. Do myn diawl! Hat-tric was! a ninna ar y diwadd yn ennill y gêm thrî blydi tŵ!"

"Finna'n dŵad oddi ar y cae rel bôi yn disgwl ca'l 'Well done Idris!', ond cwbwl ges'i gin Tomi oedd,"Idris! what the hell have you done? Do you realise you've made things difficult for me! You can't expect me to play Eynon at full back again next week!" Diawl, finna'n gwbod yn iawn fod o'n falch ond fod o'n cau dangos! Un fel'na o'dd Tomi Jôs sdi!"

Ar ddiwedd y nosweithiau bowlio byddwn yn rhoi 'lifft' adre i Idris ac wrth iddo adael y car yng Nghroesywaun, taro'r to efo'i law a dweud, "Cym bwyll boi, wela'i di wsnos nesa yli!"

Fel y crybwyllais, ond am gyfnod byr y bûm yn aelod o'r clwb bowlio, ond er hynny byddwn yn taro ar Idris o bryd i'w gilydd ar y Maes yng Nghaernarfon, a byddai'r sgwrsus yn ei gwmni yn dal mor hwyliog â difyr.

Cofiaf ar un o'r adegau hyn â'r ddau ohonom yn sgwrsio tu allan i ddrws un o'r siopau pan ddaeth gŵr eitha parchus yr olwg i'n cyfeiriad. Gan fod Idris a minnau braidd ar ei ffordd, gwthiodd y dyn yn fygythiol rhwng y ddau ohonom a meddai'n flin." For God sake! symudwch i'r ochr wnewch chi? Ydych chi yn ryleisio eich bod yn damn niwsyns ar ffordd pobl mynd i'r siop! Ewch i rywle arall i siarad wir!" Mewn eiliad roedd llygad Idris yn fflachio a meddai gan graffu ar ei ôl. "Pwy oedd y pin stryip uffar yna deuda? Wyddost di'r boi dwytha ddaru hynna i mi, mi fuodd hwnnw'n gorwadd ar ei gefn yn 'Si and E' Bangor am bythefnos!"

Dro arall, pan roedd Elis fy ŵyr bach 7 oed a minnau mewn siop fferyllydd ar y Maes, pwy ddaeth drwy'r drws ond Idris. Gan fod Elis wedi gwirioni ar bêl-droed dywedais innau wrtho, "Weli di'r dyn yma, mi roedd hwn yn arfer bod yn ffwtbolar" Meddai Elis, a'i lygad yn pefrio. "WAW! Oedda chi yn chwara ffwtbol?" "Wel oeddwn, ngwas'i, ond lot fawr o amsar yn ôl erbyn hyn de." "I pwy oeddach chi'n chwara, i Man U?" Idris yn ei ddyblau ac yna mynd i'w boced ac estyn darn punt a'i roi yn llaw Elis a dweud yn dyner. "Dyma chdi ngwas i, rwbath bach i iti ga'l ice cream yli"

Ie, Idris Evans,y 'Tarw' ffyrnig ar y cae pêl-droed, ond Idris Evans y gŵr bonheddig oddi arno.

Diolch am y cyfle o gael ei adnabod.

**Mois**

**Diolch**

Ar ddiwedd blwyddyn, diolch yn fawr i ddosbarthwyr yr Eco yn Waunfawr am eich gwaith drwy'r flwyddyn, ac i bawb sydd wedi cyfrannu gyda stori neu newyddion i'r golofn.

Dolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chi i gyd!

# LLANBERIS

**Cais am Newyddion**

Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno cyflwyno eitem o newyddion, llun neu erthygl i'r Eco, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â mi drwy ffôn/ ebost neu alwad personol, yn y cyfeiriadau sydd ar dudalen 2. Diolch yn fawr.

**Eco ar werth unwaith eto yn One Stop**

Oherwydd problemau yn ymwneud â thalu am yr Eco, yn Siop One Stop, bu rhaid atal ei werthu yno yn ddiweddar. 'Rydym yn falch o hysbysu ein bod wedi cytuno trefn newydd o dalu amdano gyda'r perchnogion.

Mi fydd yr Eco ar gael yn yr un fan ac o'r blaen ond - mi fydd rhaid talu amdano, wrth y 'till', gydag ARIAN PAROD!

Felly, cofiwch fynd ag arian parod gyda chwi i dalu am eich Eco yn Siop One Stop. Bydd Arian yr Eco yn cael ei roi mewn Blwch Casglu neilltuol, wrth y 'till'.

Mae ein diolch yn fawr i'r ddwy Siop leol sy'n gwerthu'r Eco yn Llanberis.

**Eglwys Sant Padarn**

Gwasanaethau'r Nadolig Eglwys Sant Padarn

18fed Rhagfyr, 5.00PM - Canu carolau cymunedol yn stabl Gwesty Dolbadarn. Gwahoddir y plant i wisgo eu gwisgoedd cymeriadau'r geni er mwyn creu'r stori yn y stabl. Bydd gwin cynnes (di-alcohol), diod ysgafn a mins pei yn cael eu gweini.

Dydd Nadolig, 10.00AM- Cymun Bendigaid Bro Eryri

Dydd Sul, 26ain Rhagfyr, 11.00AM - Cymun Bendigaid

Dydd Sul, 2ail Ionawr, 11.00AM - Boreol Weddi

Dydd Sul, 9fed Ionawr, 11.00AM - Cymun Bendigaid, yna am 3.00 o'r gloch - Gwasanaeth Cristingol Bro Eryri yn Eglwys Crist, Deiniolen.

**Capel Coch**

Bydd Oedfa yn Capel Coch am 10.00 AM ar Fore'r Nadolig. Er mwyn gofalu ein bod yn gwneud popeth yn ddiogel yn wyneb yr argyfwng Covid, a wnewch chi roi gwybod ymlaen llaw i'r Gweinidog (erbyn bore Gwener, 24ain Rhagfyr) os ydych yn bwriadu bod yno os gwelwch yn dda.

Bydd oedfa gyntaf Capel Coch yn 2022 am 10.00AM fore Sul, 2ail Ionawr.

Bydd yr Ysgol Sul yn ail gychwyn ddydd Sul, 16eg Ionawr.

Yn y cyfamser, cofiwch am yr oedfaon wythnosol a ddarperir trwy gyfrwng YouTube ar sianel 'Capel Tanycoed'. Mae'r Gweinidog yn arwain yr oedfaon hynny bob yn ail Sul.

Ceir neges wythnosol y Gweinidog a gyhoeddir yn Gronyn bob Sul ynghyd â gwybodaeth gyfredol am holl gyfarfodydd yr eglwysi a'r Ofalaeth ar wefan Gofalaeth Fro'r Lechen Las. Ewch i www.gronyn.org

**Cyfarchion Nadolig**

Dymuna Eirian Mali Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion. Ni fydd yn anfon Cardiau Nadolig eleni.

Mae Goronwy Lewis, Stryd Ceunant yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w deulu a'i ffrindiau.




# Ysgol Waunfawr

Daeth diwedd Tymor yr Hydref unwaith eto, a hithau'n gyfnod heriol i bawb o hyd. Braf yw cael dweud ein bod yn mwynhau pob eiliad yng nghwmni'r plant, a'u bod hwythau yn ein hatgoffa pob dydd o ba mor ffodus yr ydym o fod yn iach ac yn hapus. Bu'n dymor prysur a nifer o weithgareddau diddorol a chyffrous unwaith eto, gan gynnwys ymweliadau i'r Chwarel yn Llanberis, paratoadau ar gyfer y Nadolig a nifer o ddisgyblion yn dathlu llwyddiannau ym myd chwaraeon gan gynnwys Belt du mewn Karate a chystadlu mewn tîm nofio.














**Peryglon Cyffuriau**
Daeth PC Dylan i'r ysgol yn ddiweddar er mwyn dysgu'r plant am beryglon cyffuriau - diolch iddo am ei amser unwaith eto.



**Elusennau**
Casglwyd £ 277 ar gyfer ymgyrch y pabi coch a chasglwyd £200 ar achlysur Plant Mewn Angen.

**Pwyllgor Rhieni a Chyfeillion**
Rydym yn hynod o ddiolchgar fod Pwyllgor Rhieni a Chyfeillion yr ysgol mor weithgar a chyfrannwyd dros £1,000 y tymor hwn ar gyfer prynu meddalwedd Mathletics a phrynu offer Mathemateg a Gwyddoniaeth. Diolch o galon iddynt a phob lwc gyda'r ymgyrch raffl Nadolig.

**Cyfarchion yr Ŵyl**
Hoffwn ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i holl drigolion Waunfawr, gan obeithio y bydd 2022 yn flwyddyn well eto. Diolch i bawb am bob cefnogaeth a charedigrwydd a ddangoswyd i'r ysgol eleni.






**Dringo**
Mae un bachgen wedi bod yn brysur yn ddiweddar gan gystadlu mewn cystadlaethau dringo yn Ellesmere Port, Merthyr Tydfil, Abertawe ac yn y Beacon yng Nghaernarfon. Daeth yn 2il drwy Gymru yn ei gategori gan ddod yn 14 eg drwy Brydain yn ei gystadleuaeth. Gwych!!



# Becws Waunfawr - Atgofion o'r flwyddyn 1932: Rhan 4

Merch fferm o ardal Betws Garmon oedd Mary Pritchard fy mam cyn iddi briodi â John Awstin Jones fy nhad ym mis Gorffennaf 1932. Mewn llyfr nodion, neu'r 'copi bwc' a gadwai yn ystod y saithdegau mae hi'n sôn sut y bu i batrwm ei bywyd newid yn gyfan gwbl ar ôl priodi a symud i fyw i'r Waunfawr, sef pentref a chymdeithas wahanol iawn i'r hyn yr oedd wedi arfer ag o ym mro ei mebyd ym Metws Garmon. – Gwilym Morris Jones.

Mae'r hanes isod wedi ei gymryd o'r 'Copi Bwc' hwnnw, ac mae'r rhan olaf hwn yn dilyn ymlaen o'r trydydd rhan a gyhoeddwyd yn yr Eco fis Rhagfyr.

**Rhan 4**

Am y clawdd â'r becws roedd siop bwtsiar Richard Griffith ('Siop Dic Tan'Rallt'), ac fel 'Dic' yr adwaenid ef gan bawb. Byddai amryw o drafeilwyr yn galw yn aml yn y becws, a byddai rhai ohonynt yn anhawdd ofnadwy i'w troi heibio. Un felly oedd y dyn oedd eisiau gwerthu peiriannau at wneud teisennau a sosej. Er mwyn cael gwared ag ef, dywedodd John wrtho ei fod yn deall bod Dic Tan 'Rallt a'i bartner, Johnnie Jones, Tŷ'n Gadlas, yn selog am gael injan gwneud sosej, ac yno aeth y dyn heb oedi i geisio gwneud sêl. Johnnie Tŷ'n Gadlas oedd yn y siop ar y pryd. Roedd y dyn yn daer arno brynu, ond mynnai Johnnie mai Dic oedd y boss, ac nad oedd yno ar y pryd, ac nad oedd a wnelo ef ddim byd â phrynu. Fe stelciodd y dyn o gwmpas, a phan gyrhaeddodd Dic, aeth y trafeiliwr ato yn awyddus a cheisio ei berswadio i brynu. Wedi gwrando am ychydig a syrffedu ar ei batro, dywedodd Dic, "Di-a-a-wl, whai go iw and asg ddy bos ofyr thêr!" gan gyfeirio at Johnnie ei bartner. Hwnnw yn chwyrnu ar Dic. "Damia chdi gythral! Tydwi'n trio ca'l gwarad ar y diawl ers meitin, mae o'n fan ''ma fel barn yn trio hwrjo rhyw hen injan gneud sosej i mi, a finna'n trio deud na dy fusnas di ydio!" Roedd y dyn wedi deall eu bod yn ceisio osgoi prynu'r peiriant, ac er mai cymysgfa o Gymraeg a Saesneg y siaradant ill tri, roedd o beth bynnag yn benderfynol



o'i gwerthu. O'r diwedd, trwy daerineb dibendraw, llwyddodd i'w perswadio iddo adael yr injan ar dreial. Roedd ganddo un ail law yn digwydd bod yn y car meddai. Daeth Johnnie Tŷ'n Gadlas i'r becws toc, ac meddai wrth John Awstin, "Nostyn?" (Roedd yn arferiad bryd hynny ddweud y llythyren 'N' o flaen ambell air neu enw fel, 'Nerpwl' am Lerpwl er enghraifft.) "Wyddost di be ydi'r hen foi 'ma sy'n trio gwerthu rhyw injan gneud sosej? 'Rarglwydd, fedrai ddim symud na mae o wrth fy nhîn i. Fedrai ddim ca'l mynd i droi clôs na dim gin y diawl!"

Gyda'r nos honno, aeth Dic Tan 'Rallt a Johnnie Tŷ'n Gadlas ati i wneud sosej yn yr injan, ac yno yr aeth John Awstin, James Llywelyn Williams y Post, John Griffith Bae Colwyn, a Gilbert Williams Rhostryfan i weld y perfformiad. Dic yn un pen yn llenwi'r injan drwy wthio'r cig i mewn efo darn o bren, a Johnnie yn edrych ar ôl y pen arall lle deuai'r cig allan yn sosej. Tra roedd hyn yn mynd ymlaen, siaradai y dynion eraill a chaent lawer o hwyl a chwerthin. Canlyniad i hyn oedd i Dic wrth geisio gwrando ar yr hyn ai ymlaen anghofio gwthio'r cig, a chethrai Johnnie arno, "Canlyn arni bendith tad!" Erbyn hyn roedd y sosej yn bob stumiau, rhai yn hirfain a'r lleill yn dew, a Dic yn pystachu wrth geisio rheoli'r cig efo'r pren. Chafwyd fawr o lwyddiant ar wneud sosej y noson honno, a gwrthod yr injan fu'r hanes yn y diwedd. Roedd Johnnie Tŷ'n Gadlas wedi amau yn gryf bod a wnelo John â gyrru'r dyn ato.

Ar y twllnos, byddai plant y Waun yn chwarae 'hunt'. Byddent yn chwilio am rhywun a fyddai wedi ymguddio, ac roedd o gwmpas y becws yn lle wrth eu bodd, ond byddent yn niwsans garw i mi. Mi wyddwn na atebai i mi ffraeo â nhw, wnawn i ddim ond eu tynnu yn fy mhen. Felly un noson, er mwyn cael tipyn o heddwch, gwelais fy nghyfle a lluchiais lechen ar hyd to sinc siop bwtsiar Dic Tan 'Rallt, nes bod y sŵn yn diasbedain dros y lle. Mewn eiliad, roedd Johnnie Tŷ'n Gadlas yn rhedeg allan a chyllell fawr yn ei law yn gweiddi a rhuo ac am ladd y plant. "Adra â chi y diawliad!" Hwythau yn sgrealu i bob cyfeiriad oddi wrtho, ac o hynny 'mlaen, cefais innau lonydd oddi wrthynt. Dro arall, arferai'r plant ddod i chwarae ar yr iard o flaen y becws. Gwnaent dyllau adeg chwarae marblis, a phan fyddai wedi bwrw, byddai'r tyllau yn llawn o ddŵr. Un tro roedd Charles Owen, gŵr uchel ei barch yn y pentref, yn mynd o'r becws ar yr un amser yr oedd y Parchedig D.J.Lewis, y gweinidog, yn dod yno. Yn sefyll wrth siop y Post yr oedd Dafydd Owen, Gwynant. Hen lymbar pryfoclyd a chellweirus oedd Dafydd Owen bob amser. Gan fod gwrych yn cuddio'r tyllau o'i olwg, yr hyn a welodd oedd Charles Owen yn rhoi naid a sbonc, ond ni wyddai mai i arbed mynd i'r tyllau â wnai, ac yn yr eiliad, yn glanio ym mreichiau y gweinidog ac yn ysgwyd ei law yn galonnog. Dafydd Owen yn edliwio, "Ond dwyt ti yn hen ffalsiwr yn rhedag i gyfarfod y gweinidog i gael ysgwyd llaw efo fo". Roedd Charles Owen yn filain am hyn ac aeth yn dipyn o ddadl rhwng y ddau. Dafydd Owen yn galw arnaf innau. "Mi gwelsoch o yn do Musus Jôs, yn rhedag i gyfarfod 'rhen Lewis iddo ga'l ysgwyd llaw efo fo!" Charles Owen yn galw arnaf, "Mi welsoch fel roedd yn rhaid i mi osgoi mynd i'r pyllau dŵr yna yn do, a'r dyn gwirion yma yn camliwio pethau er mwyn iddo gael edliw". Fedrwn i ddim llai na chwerthin wrth weld y ddau ffyrnig yng ngyddfau ei gilydd yn cecru a bytheirio.

Fel y cybrwyllais, deuwn i gysylltiad â phob math o bobl yr adeg honno. Gwyddwn am eu harferion, yn ddrwg a da, eu castiau, eu ffaeleddau, eu cwmni, rhai a hoffwn, a rhai na hoffwn, rhai y byddwn wrth fy modd o'u gweld, a rhai na fyddwn. Y mwyafrif yn bobl ragorol diolch am hynny. Y lleiafrif oedd yn gwneud cadw busnes yn ddibleser. Dynes felly oedd Nel gwraig Johnnie Jôs Tŷ'n Gadlas. Doedd yr un dim yn ei phlesio. Hen swnan ddiflas oedd hi, a phob amser yn snwffian ac eisiau pob dim "reit neis". Galwai bopeth yn "ryw hen fwyd, 'w hen datws, neu 'w hen fara". Llusgai wrth wneud ei meddwl i fyny beth i'w gael, a chwynai yn ddibaid. Roedd Nel yn boen i bawb. Dywedodd Johnnie Tŷ'n Gadlas wrthyf mai cymryd trugaredd arni oedd ei gamgymeriad. Roedd wedi bod yn ei chanlyn pan yn ifanc, ond aeth ef ei hun i ffwrdd i'r 'Mericia am rai blynyddoedd. Pan ddaeth yn ei ôl, roedd yn disgwyl ei gweld wedi priodi, ond daeth rhyw biti ganddo drosti ei gweld wedi ei gadael ac fe'i priododd, ond yn rhy hwyr meddai. "Yn ifanc a gwirion, dyna'r adag i briodi," meddai. "Mi faswn wedi stwytho tipyn arni yr adag honno, ond roedd y cyfnod gwirion wedi ngadal i a hitha yn rhy stiff i'w stwytho!" Prynodd Johnnie dŷ Rhoslan a'i ail wampio, a phan oedd y lle yn barod iddynt symud iddo, penderfynodd Nel na lecia hi mo'r "hen dy 'na", ac y cai o fynd yno i fyw ei hun. Bu'n rhaid iddo werthu Rhoslan o'i hachos er llawer anhwylustod iddo ynglŷn â'r siop bwtsiar, a phrynu tŷ arall, sef Pengamfa. Ail wampiodd hwnnw, ac i'r fan honno yr aeth Nel dan rwgnach yn y diwedd.

Wrth edrych yn ôl i'r flwyddyn 1932, sylwaf fy mod yn perthyn i oes wahanol iawn ac i amgylchiadau na welwn mohonynt eto. Erbyn heddiw, mae patrwm bywyd wedi newid yn hollol, fel y gwelir yn glir gan rai o'r un oed â mi.


ESTD 1973
WAVELLS
AWARD WINNING BUTCHERS AND DELI
DELI A CHIGYDD O FRI
Bryn ac Angela Williams
LONDON HOUSE LLANRUG
yr wyn lleol mwyaf blasus
selsig cartre
cigoedd parod i'w bwyta
archebion ar gyfer y rhewgist
(01286) 673574

# CHWILAIR I'R FLWYDDYN NEWYDD

**Darllenwch yr erthygl 'Arferion y Flwyddyn Newydd' i wybod pam fod y geiriau yma yn cael eu cysylltu â dathliadau croesawu'r flwyddyn newydd.**

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| B | O | T | N | O | I | D | Y | R | B | S | Y |
| R | L | W | Ch | M | U | L | Th | A | D | I | L |
| Y | G | W | Y | R | Y | S | T | W | Y | Ll | N |
| S | B | S | Y | A | B | Ff | C | I | L | S | U |
| Th | W | O | L | Dd | T | Ll | A | T | E | Ch | A |
| R | G | N | S | U | Y | I | L | G | D | C | Y |
| E | D | R | P | N | A | N | E | E | I | O | M |
| C | W | E | H | E | Ng | A | N | D | O | D | W |
| L | Ph | N | C | D | O | B | N | E | N | Y | E |
| E | F | N | H | A | P | S | I | A | W | R | L |
| O | J | A | N | U | S | I | G | E | H | Y | Y |
| C | U | H | D | Y | W | L | I | R | A | M | Dd |

| | | |
|---|---|---|
| ADDUNEDAU | DYLEDION | MARI LWYD |
| BLWYDDYN NEWYDD | GLO | YR YSTWYLL |
| CALENNIG | HANNER NOS | PLYGAIN |
| COELCERTH | HELA'R DRYW | YMWELYDD |
| DATHLU | JANUS | YSBRYDION |

Cofiwch bod rhai llythrennau dwbl yn Gymraeg sydd yn llenwi un sgwâr yn y chwilair.

Allwch chi ddod o hyd i un peth nad yw wedi ei gynnwys yn y chwilair? Mi gewch chi'r ateb yn rhifyn nesaf Yr Eco - mwynhewch!

Cymdeithas Edward Llwyd
Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru
Elusen Gofrestredig rhif 1126027

## Blodau mis Ionawr – beth fyddech chi'n gweld?

Ar y 15fed o Hydref 2021 cawson ein cyfarfod blynyddol cyntaf ers Medi 2019. Tydi'r hen bandemig yma wedi achosi problemau dros y ddeunaw mis diwethaf, ac yn parhau i'w wneud hefyd? Cyfle i gyfarfod ein haelodau yw'r gynhadledd ond rywsut dydi cyfarfod ar Zoom ddim yr un peth. Does dim cyfle i gael sgwrs ac ar ôl y cyfarfod mae'r sgrin yn sydyn iawn yn mynd yn ddu - popeth drosodd! Dim cyfle i gael sgyrsiau am rywbeth wnaeth godi yn y cyfarfod.

Ac mi oedd rywbeth i drafod. Roedd Goronwy Wynne, ein llywydd wedi gosod tasg i ni. Roedd o eisiau i ni fynd allan yn ystod y chwe diwrnod cyntaf yn y flwyddyn newydd a chwilio am ba flodau sydd i'w weld. Dydyn ni ddim yn meddwl am flodau yn eu harddwch yng nghanol y gaeaf nac ydan? Ond mae yna rai. Meddyliwch am yr eithin, roedd y dyn a ddywedodd "Mi fydda i'n dy garu tra bydd blodau ar yr eithin" ddim yn trio rhoi'r argraff mai dim ond dros dro oedd ei gariad tuag ati achos mae blodau ar yr eithin trwy'r flwyddyn. Mae'n rhaid gobeithio roedd ei gariad yn ymwybodol o hyn wrth gwrs!

Neithiwr roeddwn i'n meddwl am hyn ac mae heddiw wedi deffro efo haul ac awyr las, roedd gen i bethau i'w gwneud y bore ma ond wedyn, a'r diwrnod yn rhy braf i wastraffu, es i am dro. Mae yna gylchdaith trwy'r coed dw i'n gwneud yn aml a cherddais hanner milltir i fyny'r ffordd i gyrraedd y mynediad. Erbyn hyn mae rhan fwyaf o'r dail ar y llawr a'r haul yn tywynnu trwy'r brigau'n ddirwystr. Doedd dim blodau i'w gweld yn unman. A fydd gobaith gweld rhai ym mis Ionawr?

Ond wrth fynd ymlaen dw i'n gweld ysgallen, nid mewn blodau ond ar fin blodeuo. Druan bach! Ond mae pawb yn drysu'r dyddiau yma! Mae gweddillion y mwyar duon o gwmpas ond esgus am fwyar ydyn nhw. Maen nhw'n rhy hwyr beth bynnag, bydd y diafol wedi poeri arnyn nhw i gyd erbyn hyn, neu rywbeth gwaeth! Ond yng nghanol y mwyar dw i'n gweld blodeuyn, dim ond un ond eto yn dangos balchder. Dydi pethau ddim yn rhy addawol am fis Ionawr! Ond wedyn des i ar draws blodau melyn yr eithin yn gweiddi "Dyn ni yma o hyd!"


Doeddwn i ddim yn disgwyl gweld unrhyw beth arall ond mi oedd pleser arall i ddod. Wrth gerdded ymlaen welais i gwpl yn cerdded tuag ataf fi ac wrth iddyn nhw nesáu roeddwn i'n amau eu bod nhw'n siarad Cymraeg efo'i gilydd. "Prynhawn da" medda fi wrth wenu. "Prynhawn da" medden nhw efo gwen llydain ar eu hwynebau.

Roedd yn werth mynd am dro a chael haul, awyr iach a geiriau Cymraeg!

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd!

**Rob Evans**


AM WASANAETH PERSONOL A GOFALUS



DYLAN GRIFFITH

*Trefnwyr Angladdau Annibynnol a Lleol*

TROS Y WAEN PENISARWAEN

Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu yr Holl Ardal
Busnes Teuluol

*Ffôn : 01286 871833 (SYMUDOL: 07778127394)*

Gwaith Coffaol
LLANRUG

Y Sgwâr
Llanrug
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4AA



☎ 01286 672898

# Capel wedi'i droi'n ganolfan gelfyddydol



## Dymchwelwyd Capel Gorffwysfa yn 1982

**Mae'r Festri yn elusen sy'n hyrwyddo a datblygu mentrau a phrosiectau celfyddydol cymunedol ym mhentref Llanberis.**




Mae'r fenter gelfyddydol wedi'i lleoli yn hen adeilad festri Capel Gorffwysfa, capel a oedd wedi'i leoli ar Stryd Fawr Llanberis. Fe'i dymchwelwyd ym 1982.

Mae enw'r elusen yn cydnabod gorffennol yr adeilad. Mae'r '*festri*' yn draddodiadol yn ystafell neu adeilad sy'n perthyn i gapel, a ddaeth yn hanesyddol yn llefydd i gynnal digwyddiadau diwylliannol, cymunedol, ymarferion neu gyfarfodydd.

Roedd adeilad y Festri yn perthyn i Gapel Gorffwysfa, capel Methodistaidd a adeiladwyd ar waelod Goodman Street ym 1867, ac mae ganddo hanes cyfoethog fel cartref i'r Ysgol Sul, Band of Hope, ac ymarferion Band Pres Llanberis. Wedi cyfnod y capel, roedd yr adeilad yn cael ei adnabod fel Theatr Fach, ac yn eiddo i'r elusen Cwmni Drama Llanberis.

Cyn cyfnodau clo Covid-19 roedd y Festri yn ferw o weithgaredd celfyddydol, ac yn cynnal dosbarthiadau celf a syrcas CircoArts ar gyfer pobl ifanc Llanberis, yn ogystal â dosbarthiadau ioga, partïon pen-blwydd, a sioeau cymunedol. Adnewyddwyd yr adeilad yn 2016 gyda chefnogaeth y gymuned ac mae'n cael ei redeg gan wirfoddolwyr.

Yn ôl Merlin Tomkins, cadeirydd yr elusen, gweledigaeth y Festri yw "hyrwyddo celf weledol, ddigidol a pherfformio cymunedol mewn ffordd sy'n dathlu iaith a diwylliant Cymru." Serch hynny, pan ddaeth Covid-19 i droi'n bywydau ben i waered, roedd yn rhaid i'r Festri ddod o hyd i ffyrdd newydd o gynnal eu prosiectau.

Yn gynnar yn y pandemig llwyddodd CircoArts i ddenu arian gan Mantell Gwynedd ac UnLtd er mwyn rhoi offer celf a syrcas am ddim i blant a theuluoedd y Festri. Yn ogystal â hynny, cynhaliwyd dosbarthiadau celf a syrcas ar Zoom, ac fe roddwyd arddangosfeydd celf cymunedol yn y blychau ffôn ar Stryd Fawr Llanberis.

Roedd prosiect arall gan y Festri yn annog trigolion Llanberis i arddangos cennin pedr yn eu ffenestri fel symbol o obaith.

Yn ddiweddar, comisiynwyd 3 artist i greu darnau i fynd yn y blychau ffôn yn dathlu hanes diwylliannol a diwydiannol Llanberis fel rhan o gais LleCHI i sicrhau statws Safle Treftadaeth y Byd i'r ardal.

Yn ôl cyfarwyddwr y Festri, Thomasine Tomkins:

"Pan oedd yn amhosibl i bobol ymweld ag orielau celf, fe aethon ni â chelf at y bobol!

"Rydyn ni'n teimlo bod gan Y Festri rôl bwysig wrth adfer ar ôl y pandemig.

"Mae'n hanfodol bod gan gymunedau le diogel i ddod at ei gilydd, cysylltu â chymdeithasu. Mae'r Festri yn gobeithio cefnogi'r gymuned gyda phwyslais arbennig ar les a chreadigrwydd."

Aeth Siân Gwenllian AS, cynrychiolydd Llanberis yn y Senedd draw i'r Festri yn ddiweddar:

"Roedd festri yn rhan ganolog o fywyd diwylliannol y Cymry, ac mae 'na deimlad o barhad wrth weld y Festri yn cyflawni ei bwrpas gwreiddiol fel canolbwynt cymunedol a diwylliannol i'r pentref.

"Mae'r celfyddydau a diwylliant yn rhannau annatod o'n bywydau. Mae'n anodd dychmygu bywyd oni bai am y celfyddydau a diwylliant yn ystod cyfnodau clo Covid-19.

"Rydan ni'n genedl greadigol, sy'n dod o hyd i atebion creadigol i'r heriau cyson sy'n ein hwynebu, ac mae pentref Llanberis yn wynebu sawl her.

"Mae'r pandemig wedi bod yn ergyd fawr i'r celfyddydau yng Nghymru, ond mae'n codi calon gweld mentrau fel y Festri yn dal ati.

"Er lles gwytnwch, hyder ac iechyd meddwl ein pobl ifanc, mae'n hanfodol bod prosiectau fel Y Festri yn ffynnu. Maent yn rhoi sgiliau trosglwyddadwy, sgiliau dadansoddi, a'r gallu i feddwl yn annibynnol i bobol ifanc.

"Yn ddiweddar rydym wedi bod yn myfyrio ar hanes cyfoethog yr ardal, yng ngoleuni penderfyniad UNESCO i ddynodi ardaloedd llechi Cymru' yn Safle Treftadaeth y Byd.

"Mae cyfraniad celfyddydol a diwylliannol yr ardaloedd llechi ers dros ganrif yn aruthrol. Mae'n wych gweld Y Festri yn parhau yn y traddodiad hwnnw.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Thomasine Tomkins:

"Dim ond mewn partneriaeth â chymuned y gall celfyddydau cymunedol lwyddo! Dydi celfyddydau cymunedol ddim jest yn golygu cymryd rhan mewn gweithdai neu ddigwyddiadau, mae'n golygu darparu ffyrdd i estyn allan a dod â gwahanol bobl ynghyd i rannu profiadau, creu hunaniaethau a pherthnasau cadarnhaol, a thrwy hynny greu cymuned gryfach ac iachach."


SIÂN GWENLLIAN

AELOD O SENEDD CYMRU DROS ARFON



01286 672076

8 Stryd y Castell Caernarfon

sian.gwenllian@senedd.cymru

Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd, o gronfeydd cyhoeddus

# Cyngor Cymuned Llanrug

## 19 Hydref 2021

**Ffordd osgoi Cwm-y-Glo**
Mynegwyd pryder am gyflymder y traffig ar ffordd osgoi Cwm-y-Glo a phenderfynwyd y byddai'r Cynghorydd Berwyn Parry Jones yn cymryd y mater i fyny gyda swyddogion Cyngor Gwynedd.

**Adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones, aelod dros Gwm-y-Glo ar Gyngor Gwynedd.**

**Cyfarfod Adran Amgylchedd**
Mewn cyfarfod gyda'r Adran Amgylchedd i drafod cynllun ail wifro'r Grid Cenedlaethol, rhoddwyd diweddariad o'r cynllun gyda'r gwaith i ddechrau yn y flwyddyn newydd. Yn anffodus bydd hyn yn golygu goleuadau traffig ac oedi eto. Mae cynnig o swm bychan o arian er mwyn rhoi ychydig o fudd i'r Cymunedau ond ni fydd ddim llawer i'w rannu rhwng 5 ward.

**Byw'n Iach**
Y cwmni yn agored bron fel arfer, heblaw bod dal angen gwisgo masgiau wrth gerdded o gwmpas yr adeiladau, a bod y niferoedd yn y dosbarthiadau yn llai i alluogi pawb i gadw pellter cymdeithasol.

**Adra**
Mae gwell cynrychiolaeth o ferched ar y Bwrdd erbyn hyn tua 50 / 50 ond dal gormod o bobl hŷn. Mae hi yn anodd denu pobol ifanc.

**Yn Lleol**
Dal i ddisgwyl ymatebion gan y Cyngor Sir ynglŷn â nifer o ymholiadau sydd wedi eu gwneud gan gynnwys lleoliad yr arwydd 40mya wrth ddod i Gwm-y-Glo o gyfeiriad Llanberis, gor-gyflymder ar Ffordd Ceunant/Tanycoed ac amserlen trosglwyddo Ysgol Cwm-y-Glo i Fenter Fachwen.

**Ceisiadau Cynllunio**
**Penderfynwyd cefnogi'r ceisiadau canlynol:**
**(a)** Estyniad un llawr at gefn 45 Nant Y Glyn, Llanrug
**(b)** Codi estyniad at uned ddofednod presennol ar gyfer 16,000 o ieir ychwanegol (ar gyfer cynhyrchu wyau rhydd) ynghyd â gwaith cysylltiol - Plas Tirion, Llanrug
**(c)** Codi adeilad amaethyddol i'w ddefnyddio ar gyfer cadw tail a phob gwaith Cysylltiol - Plas Tirion, Llanrug

**Gwrthwynebwyd y cais canlynol**
Cais ar gyfer codi 4 ty fforddiadwy ar dir ger Tafarn Glyntwrog, Llanrug,

**Y llwybr o Dolafon i dop Cwm y Glo. (Cyng Alan Pritchard)**
Adroddwyd fod cwyn wedi'i dderbyn am gyflwr llwybr Carreg y Fran a bod lluniau o'r anawsterau ar hyd y llwybr wedi'u hanfon. Ymysg yr anawsterau roedd

- Fod ffens wedi rhoi ar draws man cychwyn y llwybr;
- Fod dwy wal angen eu clirio
- Fod giât gyda dau bostyn wedi ei osod ar ei thraws
- Fod weiren ar draws y llwybr

Penderfynwyd fod y Cynghorydd Berwyn Parry Jones am gysylltu â swyddog llwybrau Cyngor Gwynedd ynglŷn â 'r mater.

**Cyfethol cynghorwyr i ddwy sedd wag ar y Cyngor**
Cafodd pedair ymgeisydd gyfle i gyflwyno eu hunain a gofynnwyd pum cwestiwn safonol iddynt yn seiliedig ar waith y cyngor. Yna cafodd yr aelodau gyfle i holi'r ymgeiswyr a rhoddwyd cyfle i'r ymgeiswyr ofyn cwestiynau wrth y cyngor.

Yn dilyn y cyflwyniad ac atal y cyhoedd o'r cyfarfod, penderfynwyd cyfethol Sioned Jones ac Elliw Griffith i lenwi'r ddwy sedd wag.

# Dwy Ganrif yn Ôl

## "Y Gwyliau" 1821-1822

Doedd ein hardal ni yn cael nemawr ddim sylw gan yr ychydig bapurau newydd oedd yn bodoli dwy ganrif yn ôl. Does dim sôn am Lanrug na Llanddeiniolen. Roedd y Waunfawr yn rhan anghysbell o blwyf Llanbeblig, a'r unig gyfeiriad at Lanberis yw prisiau copr o'r mwynfeydd yno pan werthid y copr yn Abertawe.

Prin iawn yw'r sylw a roir i ddathliadau a digwyddiadau'r Nadolig a'r Calan. Dim ond pan ddigwyddai rhywbeth allan o'r cyffredin y cai sylw. Dyma felly dair enghraifft:

**Dysgwch am blanhigion**
Roedd Mrs Joseph Gorst o Frodsham, Swydd Caer wedi paratoi cinio Nadolig i ddeg ar hugain o westeion. Yn ystod y pryd gofynnodd rhywun am ruddygl (radish), a rhoddodd Mrs Gorst orchymyn i'w gwas i fynd allan i'r ardd a'i ddanfon i'r gegin. Roedd y rhuddygl yn tyfu wrth ochr y gasgen ddŵr yn yr ardd, meddai hi. A dyna ddigwyddodd. Yn ddiweddarach yn y dydd dechreuodd Mrs Gorst a'i brawd yng nghyfraith deimlo'n sâl. Er galw am ofal meddyg, bu hi farw yn gynnar y noson honno. Yn y cwest adroddwyd ei bod wedi marw oherwydd gwenwyn. Roedd y gwas wedi dod a llysiau'r blaidd i'r gegin, a Mrs Gorst a'i brawd yng nghyfraith oedd yr unig ddau i'w fwyta. Cyfaddefodd y gwas a'r forwyn wnaeth ei baratoi yn y gegin nad oedd ganddynt unrhyw syniad beth oedd rhuddygl, a bod y gwas wedi casglu pa bynnag blanhigyn oedd yn tyfu ger y gasgen ddŵr. Pasiwyd dedfryd o farwolaeth drwy wenwyno damweiniol.



**Blodau Llysiau'r Blaidd (*winter aconite*)**

**Nadolig tyner**
Adroddwyd fod gogledd Ewrop yn cael gaeaf hynod o glaear, yn enwedig Norwy. Daeth adroddiadau oddi yno yn nodi, er gwaethaf y gwyntoedd a'r glaw, ei bod yn gynnes iawn, a bod coed afalau wedi blodeuo ar ddydd Nadolig mewn sawl lle.

**Ysgol newydd i Fangor**
Ar Ionawr 1af 1822 agorwyd ysgol elfennol newydd ym Mangor, gyda digon o le ynddi i 400 o blant. Ysgol eglwys mae'n amlwg oedd hon, oherwydd *"after the religious ceremonies had been gone through, the children were liberally regaled by the Lord Bishop."* Cinio Nadolig fymryn yn hwyr felly i blant Bangor!

# Ar ben arall i'r lein




Dyma ni, blwyddyn arall wedi hedfan heibio: tydi amser na'r llanw'n aros am yr un ohonom, fel yr ydw i wedi sylweddoli dros y deunaw mis diwethaf. Ac oes, mae llawer o waith genweirio i'w wneud yn y flwyddyn newydd.

Yn ddiweddar, fe gollwyd un o aelodau selocaf y Gymdeithas Bysgota yn 90 mlwydd oed, sef Gwynfor Jones, Cenarth, Bethel. Mi fûm yn ffrindiau mawr â Gwynfor ers i ni ddod fel teulu i fyw yn ôl i Fethel ym 1977. Mi roddodd ymdrech fawr i weithio ar ran y Gymdeithas ac i sicrhau fod yr hawl i bysgota ar ddyfroedd lleol yn nwylo lleol. Mi fu'n gorfoleddu pan ddaeth hawliau pysgota ar Lyn Padarn ac afonydd Rhythallt a'r Seiont a thalpiau o dir yn cynnwys safle'r Ddeorfa yn Crawia i berchnogaeth y Clwb. Roedd yr eiddo hwn gynt ym mherchnogaeth Stâd y Faenol, a dyna hwyl ddaeth yn sgil hyn! Mi fu Gwynfor yn aelod brwdfrydig o bwyllgor gwaith y Gymdeithas am flynyddoedd lawer, ac roedd hefyd yn un o'r saith cyfarwyddwr cyntaf pan drosglwyddwyd y Gymdeithas i fod yn gwmni cyfyngedig drwy warrant ym 1996. Hoffwn ar ran y Gymdeithas estyn ein cydymdeimlad dwys i Elma a Dewi am golli gŵr a thad arbennig.

Diolch i'r Cadeirydd am ei adroddiad yn y rhifyn diwethaf: efallai bydd ganddo fwy o amser i gofnodi ei anturiaethau pysgodfaol o hyn ymlaen, i bashio tipyn o'r amser rhydd fydd ganddo yn dilyn ei ymddeoliad! Derbyn ein dymuniadau gorau Robin, a diolch o galon iti am dy wasanaeth i'r fro ac i'r Gymdeithas dros yr holl flynyddoedd.

Mae digon wedi ei ddweud yn ystod y flwyddyn am sut mae pethau ar ein dyfroedd, yn enwedig y gwaith sydd wedi e wneud i uwchraddio tipyn o'r adnoddau; a dyna o bosib fydd un o'r targedau mwyaf y bydd rhaid anelu ato dros y misoedd nesaf. Be' rydym yn gobeithio ei wneud? Wel, mae un peth yn sicr: bydd rhaid ceisio cael y maen i'r wal gyda'n bwriad i geisio addasu be sy'n dal i sefyll o hen Westy'r Newborough ym Mhen Llyn. Mae un peth yn sicr: os bydd modd efelychu llwyddiant ein llety hunangynhaliol, sef Melin y Cim ym Mhontllyfni, yna mae'n rhaid troi pob carreg i gael cynllun o'r fath yn y fro hon. O! dwi'n clywed rhai'n dweud, ac mae rhai'n ei ddweud yn barod, 'Ai denu rhagor o ymwelwyr yma y mae'r Gymdeithas yn trio ei wneud!' Wel, ia ydi'r ateb, achos trwy greu rhagor o incwm, yn ychwanegol at yr arian a geir o werthu tocynnau pysgota, mae wedi bod yn bosib peidio â chodi pris tocynnau i drigolion lleol. Cofiwch, mae pris tocyn heb ei godi dros y 12 mlynedd diwethaf. A dyna i chi fargen ydi aelodaeth heddiw.

Heblaw'r busnes lletygarwch, efallai fod cyfleoedd eraill ar y gorwel. Fel y gwyddoch, mae'r Clwb yn berchnogion ar eiddo di-ri, yn cynnwys adeiladau a thiroedd sy'n rhan ac yn cyfochri â dyfroedd lleol. Clywais dros y penwythnos y daw cymorth o bosib trwy gytundebau newydd a gaiff eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru. Hynny yw, bydd cymorth ar gael i sefydlu datblygiadau cymunedol fydd yn ymwneud â datblygu unedau cynhyrchu ynni drwy ddŵr a gwynt. Rydym yn ymwybodol fod cwmni Ynni Peris wedi dechrau ar y gwaith yma, ond beth am i ni i gyd roi hwb i'r peth? Mae'r arbenigaeth gan y cwmni presennol a'r tiroedd gan y Gymdeithas. Dyma gyfle efallai am ryw ddisgownt ar y bil lectrig os yn aelod o'r Clwb! Breuddwydio eto efallai, ond cawn weld.

Ac aros gyda mater yr ymwelwyr a thwristiaeth: mae cais cynllunio wedi ei gyflwyno i ddatblygu Gwesty'r Seiont Manor. Safbwynt y Gymdeithas ar faterion fel hyn yw: ydi'r peth yn mynd i gael effaith negyddol ar ein pysgota? Wel, yn y fan hyn yr ateb ydi 'wrth gwrs'! Pwy yn ei iawn bwyll fuasai'n cynnig adeiladu 35 o 'lodges' moethus bron at lan yr afon? Mi fuasai peth fel hyn yn cael effaith ofnadwy o negyddol ar bysgota am y gwyniadau yn ystod oriau'r nos: heblaw am lygredd, un o'r pethau gwaethaf i ni fel sgotwrs nos ydi'r hyn a elwir 'llygredd golau'. A'r Finiog, o Crawia i lawr at Bont Rug, ydi'r unig ran o'r afon sy'n glir o'r broblem yma, ac felly dyma yw sail ein gwrthwynebiad, yn ogystal wrth gwrs â'r effaith ar fywyd gwyllt a'r carthffos difrifol oedd yn llifo i'r afon o'r gwesty fel ag yr oedd. Rydym yn derbyn fod rhan o'r cais yn dweud fod carthffos o'r gwesty i gael ei bibellu i system Dŵr Cymru sy'n rhedeg i'r gwaith yn Crawia. Ond mewn difri, mae'r gwaith yma'n warthus: mae'r arllwysiadau i'r afon yn ofnadwy gan nad yw'r system yn medru trin yn effeithiol garthion ardal Llanrug. A does dim rhyfedd hynny chwaith, gyda'r holl ddatblygu sydd o gwmpas y lle. Mae'n rhaid i'r baw fynd i rywle; ar ei ben i'r afon yn amlwg. Wyddoch chi be? Does neb ar wahân i'r Gymdeithas yn tynnu sylw at hyn. Beth am ein cynghorau lleol?

Un mater arall ddaeth i'm sylw gyda'r cais oedd bod eisiau creu llety i weithwyr y gweswty. I be goblyn mae eisiau lle mor fawr gan mai un o'r addewidion yw creu gwaith i drigolion lleol?

Yr adeg hon o'r flwyddyn, mi fyddaf yn rhoi cais i'r hen Siôn Corn am ryw anrheg neu ddau neu dri! Eleni, y peth cyntaf yr hoffwn ei gael fyddai i gais Seiont Manor gael ei daflu cyn belled â phosib i'r gwair hir, a hynny o bosib rhyw dri chan metr o lannau'r Seiont. Yr ail beth fyddai cael yr awdurdodau, sef Cyfoeth Naturiol Cymru a Heddlu Gogledd Cymru, i wneud tipyn o ymdrech i gael gafael ar y criw sy'n difetha dyfroedd Gwynedd trwy eu potsio parhaus. A'r trydydd peth ydi hyn: gobeithio bydd y rhai o bentref Llanberis sy'n mynnu pysgota heb docynnau yn gweld y gwerth sydd i'w gael o ymaelodi â'r Gymdeithas, a sylweddoli be' fuasai'r cyfleoedd pysgota iddynt heb reolaeth leol.

A chan ei fod yn dymor y Nadolig, dwi wedi bod wrthi ers cryn amser yn cofnodi tipyn o hanes a chasglu lluniau o ddatblygiad y Gymdeithas am dros 100 mlynedd. Os oes unrhyw un eisiau ei ddarllen, yna anfonwch ddyfais storio USB yma, gydag amlen wedi ei chyfeirio â stamp arni, ac mi fydd copi ar ei ffordd i chwi. Fy nghyfeiriad yw 11 Ystâd Eryri, Bethel, LL55 1BX.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chwi oll, a diolch yn fawr am ddarllen.

**Huw Price Hughes**

AVW ADVANCED VEHICLE WORKSHOP
Arbenigwyr mewn ceir VW
Audi, Seat, Skoda a Porsche
Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975
Which?
01286 673559
BOSCH Service
Parth 2, Stad Ddiwidiannol Cibyn, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk



BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol -
Ffoniwch **(01248) 361044**
**D. P. OWENS** RHIWLAS

# Rhythallt, Seiont, Saint





Olion y cryw/criw ar Lyn Garreg Fawr, afon Rhythallt

Dyna'r enwau a roddir i'r afon sy'n llifo o Lyn Padarn ac i lawr y dyffryn cyn ymarllwys i'r Fenai yng Nghaernarfon. Ond pam y gwahanol enwau? A ble mae un enw yn peidio â bod, ac enw arall yn cychwyn? Mae enw'r afon sy'n llifo dan bontydd, fel arfer, yn rhoi cynnig ar yr ateb – ond nid bob amser. Ganrifoedd yn ôl, pedair pont yn unig oedd yn croesi'r afon rhwng Llyn Padarn a'r Fenai: Pont Rhythallt, Pont Rug, Pont Peblig a Phont Saint. Dwy yn unig sy'n cyfeirio at yr afon – a does dim sôn am Bont Seiont.

Mae'r gymdeithas bysgota leol yn arddel yr enw Seiont. Roedd yr ysbyty sydd bellach yn gartref gofal, hefyd yn arddel yr enw Bryn Seiont. Gerddi Seiont oedd ym Mhontrug ac mae'r ffordd sy'n arwain at yr hen waith brics yng Nghaernarfon yn Ffordd Melin Seiont. Ffurf ffug-hynafol yw'r enw Seiont. Roedd y tŷ ble'r adeiladwyd Ysbyty Bryn Seiont yn Bryn Saint yn 1819 am ei fod yn sefyll uwchlaw pont ac afon Saint. Cofnodion diweddarach na hynny sy'n galw'r afon yn Seiont.

Ond mae'r enwau Rhythallt a Saint yn llawer hŷn, er bod darganfod union leoliad newid yr enw o'r naill i'r llall yn anodd iawn. Mae Glenda Carr (*Hen Enwau o Arfon, Llyn ac Eifionydd* – tudalen 52) yn nodi mai o Bont Rhythallt ymlaen y gelwir hi yn Saint (neu Seiont). Mae hynny'n wir am fapiau'r O.S. o wahanol gyfnodau. Mae tystiolaeth gynnar yn awgrymu fod afon Rhythallt yn llifo ymhellach i lawr y dyffryn cyn newid ei henw. O ble felly, y daw'r dystiolaeth?

Mewn dogfen ddyddiedig 3ydd o Dachwedd 1584, sy'n cael ei disgrifio fel *"Letters patent of Queen Elizabeth directed to her bailiffs and collectors of rents in the Court of Iscor (sef Is-gwyrfai)"* mae cyfeiriad at *'a crewe between the waters of Seynt and le Pandy in the vill of Ruke.'* Mae'r ddogfen hon ar gadw yn yr Amgueddfa Brydeinig (Collection of Manuscripts relating to Wales – rhif 1255). Mae'r frawddeg berthnasol yn cyfeirio at gryw/criw, sef yr argae isel o gerrig a godwyd ar letraws ar draws afon er mwyn cronni dŵr a'i gyfeirio at ffos melin. Ond mae'r cryw/criw ***rhwng*** y Seynt (Saint) a le Pandy ( y Pandy) yn Ruke (Y Rug). Roedd pandai ym Mhontrhythallt, ac mae'r enw'n cael ei gadw yno hyd heddiw, ond ar ochr Llanddeiniolen o'r afon; hen uned weinyddol Dinorwig yn hytrach na hen uned Y Rug. Wrth gwrs, gallai fod Pandy ar ochr ddeheuol yr afon hefyd yn 1584, ond fod yr adeilad a'r enw wedi llwyr ddiflannu.

Yn 1584 felly, nid ar y rhan o'r afon a chai ei galw'n Saint y codwyd y cryw. Tybed a oedd Rhythallt yn rhy anodd i'r cofnodwr, o gofio fod 'rh', 'th' ac 'll' yn yr enw, ac mai prin fyddai ei Gymraeg yntau!

Er bod cyfeiriadau diweddarach at godi crywiau ac adeiladu melinau ar hyd yr afon, methais a darganfod unrhyw un yn crybwyll enw – naill ai'n Rhythallt na Saint. Ond yn 1810 mae cyfeiriad at Afon Rhythallt sydd hefyd yn ei lleoli. Daw mewn hysbyseb yn y North Wales Gazette yn ystod mis Medi, sef *"a certain part of the common in the parish of Llanrug called Rhosddu, adjoining Afon Rhythallt, from Sarn y Crowia to Pont Rhythallt…"*. Gwerthiant tir comin sydd yma, ac fe'i hawliwyd gan John Hughes, perchennog Llwyn y Brain. Diddorol nodi, a hynny mewn hysbyseb uniaith Saesneg, mai afon Rhythallt a ddefnyddir ac nid river Rhythallt.

Ddeng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach, ac yr oedd tyddynod wedi eu hadeiladu ar y 'lots' oedd ar werth, a rhaid troi at Fapiau Degwm Llanrug a Llanddeiniolen i chwilio am yr enw. Rhwng Pontrhythallt a Sarn y Crywiau ar ochr Llanddeiniolen ceir Waen Rhyddallt ('dd' yn hytrach na 'th'), Glasgoed a Tyddyn y Felin, ond ni cheir enwau ar y caeau. Felly, Waen Rhyddallt/Rhythallt yw'r unig gyfeiriad at yr afon – ac y mae islaw'r bont. Mae Map Degwm Llanrug yn llawer manylach, a'r tyddynod a adeiladwyd arno erbyn 1840 wedi eu henwi. Gan ddilyn yr afon o'r bont i lawr, dyma'r tyddynod sy'n ffinio â'r afon: Penybontrhythallt, Hendy, tir heb enw, Fron Hyfryd, Cefn Rhythallt, Penlan, Bryn Hafod a Talsarn.

Mae Pen Bont yn dal yma heddiw (ond heb dir ar lan yr afon). Mae Bron Hyfryd yma – ond yn ddaliadau llai, tir yn cyrraedd yr afon, a gyda thai wedi eu hadeiladu ar dir yr hen uned ar hyd Ffordd yr Orsaf. Mae Penlan a Talsarn yn dal yma gyda thir yn ffinio'r afon. Mae Bryn Hafod yn dal yma – ond y tir wedi mynd yn gaeau chwarae Ysgol Brynrefail. Ar y Map Degwm mae Hendy tua hanner ffordd rhwng Penybont a'r Fron Hyfryd, ond does dim sôn amdano yng Nghyfrifiad 1841 na 1851.


Cefn Rhythallt sy'n creu problem. Ar Fap y Degwm mae'n ymestyn o'r Lôn Groes bresennol i lawr at yr afon, sef Parc y Rhos bresennol. Mae'r Cefn Rhythallt presennol yn agos iawn at yr Hendy oedd ar Fap y Degwm, ac yn dŷ gweddol newydd, er bod tyddyn bychan unllawr yno cynt – o'r un enw. Pam felly cafodd yr enw ei drosglwyddo o'i safle gwreiddiol i'r safle presennol?

Erbyn 1851 mae Tyddyn Rhythallt yn ymddangos ar y Cyfrifiad. Mae'n dal yma heddiw, gyda thir yn cyrraedd yr afon, ac wedi ei leoli rhwng safle Hendy a'r Fron Hyfryd.

O fewn deng mlynedd (1841-1851) mae tri enw yn ymddangos yn agos at lannau'r afon, a phob un yn cynnwys yr enw 'Rhythallt' – sef Waen Rhythallt, Tyddyn Rhythallt a dau Gefn Rhythallt. Mae'r enwau yn sicr yn cadarnhau mai Rhythallt oedd yr enw a arferid bryd hynny ar yr afon o Bontrhythallt i Sarn y Crywiau, ac nid Saint. (neu fe fyddai Cefn Rhythallt yng Nghefn Saint, fel y Cefntresaint yn ardal Pontrug, sef fferm Kent).

Mae'n ymddangos felly mai o Sarn y Crywiau i lawr yr oedd yr afon yn cael ei hadnabod fel afon Saint, ac unwaith eto, cofnodion cynnar sy'n cadarnhau hynny. Mae fferm Glan Saint rhwng tir Llwyn y Brain a Phontrug, a cheir cofnod o'r enw hwnnw mor gynnar â 1613 ym mhapurau Emyr Thomas sydd ar gadw yn Archifdy Caernarfon. Yng nghofrestrau plwyf Llanrug mae'r enw Glan Afon y Saint yn ymddangos yn 1714 a Glan y Saint yn 1745.

Ond mae'r ateb i'r cwestiwn pam y mae'r afon yn newid ei henw yn parhau heb ei ddatrys!



And a certain part of the Common in the parish of Llanrûg, called Rhosddu, adjoining Afon-Rhythallt, from Sarn y Crowia to Pont Rhythallt, containing 67a. 1r. 29p. in the following lots, beginning at Sarn y Crowia.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Lot 1. | 6 | 3 | 38 |
| 2. | 12 | 3 | 2 |
| 3. | 14 | 1 | 1 |
| 4. | 1[illegible] | 0 | 20 |
| 5. | 16 | 1 | 8 |

The lots in the parish of Llanbeblig are well inclosed, and in a forward state of cultivation.

The Common in Llanrûg is of a good quality, and may at a small expence be brought to a high state of cultivation; the adjoining river has a good fall, and is very convenient to build Mills and other water works upon several of the lots.

Further particulars may be had, by applying at Mr. J. Evans's Office, Carnarvon, where a map of the lots may be seen.

Map Degwm yn dangos tyddynod ar lannau'r afon Rhythallt

# Garddio

Ers talwm ym mis Ionawr roedd angen amddiffyn yr ardd rhag rhew a barrug, gwyntoedd cryfion a glaw trwm. Erbyn hyn, gyda'r hinsawdd wedi newid, mae hyn i'w weld yn berthnasol i dymhorau'r hydref a'r gaeaf erbyn hyn - gyda storm Arwen yn sicr yn arwain y ffordd o ran gwyntoedd cryfion ym mis Tachwedd. Gallwch symud rhai planhigion er mwyn sicrhau eu bod yn cael mwy o oleuni ond mae'n anodd iawn dod o hyd i lefydd cysgodol i'r planhigion tyneraf erbyn hyn. Cofiwch fwydo'r adar hefyd – mae bwyd yn brin iawn iddyn nhw yn ystod y gaeaf a'r nifer o adar sydd ar y raddfa goch o ran prinder a pherygl o fedru goroesi i'r dyfodol yn cynyddu.

Gallwch hefyd ddechrau cynllunio ar gyfer yr ardd lysiau eleni. - 2022!

**Tasgau**

1. Gwaredu'r goeden Nadolig trwy ei thorri'n ddarnau mân a'i defnyddio fel taenfa [*mulch*] i orchuddio'r pridd. Fel arall gallwch ei darnio fel ei bod yn ddigon bach i ffitio yn y bin brown.

2. Darllen drwy eich nodiadau am beth ydach chi wedi ei blannu a beth fyddwch yn ei blannu eleni.

Fyddai ddim yn gwneud addunedau yn y Flwyddyn Newydd fel arfer - mi ydw i wedi addunedu i beidio gwneud ers blynyddoedd (gan nad oeddwn byth yn llwyddo i gadw atyn nhw). Ond eleni mi ydw i am drio cadw rhyw fath o lyfr nodiadau taclus (yn hytrach na '*post its'* a darnau o bapur blêr a nodiadau ar y calendr) - am beth blannwyd, pryd blannwyd nhw ac yn lle gawson nhw eu plannu, fel fy mod i'n gallu cynnal rhyw fath o gylchdro cnydau (*crop rotation*). Mae o hefyd yn mynd i fy atgoffa o lle blannwyd llwyni a phlanhigion newydd llynedd sydd wedi marw i lawr dros y gaeaf. Dydy o ddim yn help chwaith bod y piod a'r brain yn tynnu'r labeli plastig/darnau o gansen roeddwn i wedi eu gosod yn y pridd i nodi bod rhywbeth yno… Mae angen amynedd Job i fod yn arddwr ar adegau!

Mi ydw i wedi penderfynu eleni, gan nad oes gen i fawr o le i blannu llysiau, y byddai'n canolbwyntio ar foron (caraints - fel cyn Fonwysyn) yn y bocsys ailgylchu - *Purple Haze* a *Purple Sun* wedi bod yn hynod flasus - a'r wyrion ac wyresau wrth eu bodd yn gweld bod y dŵr yn troi'n biws wrth eu berwi. Penderfyniad arall yw peidio plannu rwdins, *kohlrabi* na blodfresych blaguro piws (*purple sprouting broccoli)* na chabaits yn yr haf, gan eu bod yn cymryd gormod o le (mewn lle cyfyng) a gormod o amser i ddod i'w llawn dwf. Mi fyddai'n dal i blannu cabaits a chennin yn yr hydref a salad gaeaf i gael cnwd sydyn fodd bynnag.

Un o fy hoff lysiau yw ffa dringo felly rwyf am blannu'r rhain yn y pridd yn lle bocsys a gobeithio cael cynhaeaf da! Byddaf yn sicr yn plannu tatws newydd '*Pink Fir Apple'* - dim ond 4 blannais i'r llynedd (gan nad oes gen i fawr o le) ond cefais gnwd arbennig o dda. Maent yn flasus ac yn cadw'n dda - felly rwyf wedi cadw 6 fel tatws hadyd am y flwyddyn nesaf ac mae rhai yn gaeaf gysgu mewn bag papur yn y cwt , yn barod i'w berwi pan nad oes tatws newydd blasus i'w cael yn yr hirlwm. Mi weithiodd y gorbwmpen (*courgette*) yn dda yn y tŷ gwydr eleni (pob un blanwyd allan o'r blaen wedi fferru/ marw gan ein bod 1000 o droedfeddi i fyny ar lethrau Eryri). Roedd un planhigyn yn fwy na digon iddo fo a fi - jest angen cofio ei roi ym mhen pella'r tŷ gwydr - yn hytrach nag wrth y drws - gan ei fod yn rhwystro mynediad. *Chillis* a ciwcymbrs bach wedi ffynnu - mi dyfodd y melon ond ni chafwyd digon o haul i gael ffrwyth. Os fydd yr haf yn wahanol yn 2022 ella ga'i ffrwyth - dyfal donc a dyr y garreg meddan nhw…



'kohlrabi'



'Collen Ystwyth / *Wych Hazel / Hamamelis mollis'*]

3. Agorwch ffenestri'r tŷ gwydr ar ddyddiau braf.

4. Pan nad yw'r pridd yn rhy wlyb, gallwch balu rhannau nad ydynt eisoes wedi'u palu.

5. Gallwch drwsio ac ail-siapio ochrau'r lawnt.

6. Edrychwch yn ofalus ar y Dahlia, Begonia a'r Canna rhag ofn eu bod wedi pydru.

7. Gallwch docio coed afalau a gellyg.

8. Gallwch roi bwced ar y riwbob a'i berswadio i dyfu'n gynt.

9. Cynlluniwch y modd yr ydych am gylchdroi eich cnydau yn yr ardd lysiau eleni.

10. Rhowch fwyd a diod yn rheolaidd i'r adar. Cofiwch lanhau a diheintio'r ardaloedd lle maent yn bwydo hefyd, i arbed pla ac anfadwch.

11. Mwynhewch gynllunio ymlaen wrth ddarllen eich catalogau a chofiwch gyfeirio at eich llyfr nodiadau am beth lwyddodd/ fethodd y n ystod y flwyddyn flaenorol.

12. Beth am drio rhywbeth newydd - dwi'n mynd i drio fy ngorau glas i gael gafael ar domato Y Ddraig Goch F1 (*Red Dragon*) eleni, mae wedi ei ddatblygu gan Medwyn Williams (Llanfairpwll) ac yn ôl pob sôn yn hynod flasus ac yn cynhyrchu ffrwythau coch cyfoethog.

Os yw'r ddaear wedi rhewi, cuddiwch eich rhosynnau neu goed ffrwythau sydd heb eu plannu â gwrtaith a'u gosod mewn potyn mewn lle cysgodol neu sied hyd nes y bydd y tywydd yn gwella. Byddai'r hen bobl yn dweud ei fod yn syniad da i roi cinio ar ddiwrnod Nadolig i'r rhosod hefyd. Os na wnaethoch chi hynny ychydig yn ôl, wel dyma'ch cyfle i'w bwydo nhw rŵan.

Cliriwch hen ddeilach a glaswellt a spigwch y lawnt yn ddwfn hefo fforch. Mae hwn yn waith caled ond mae'n talu ar ei ganfed am fod yr aer yn ysgafnhau'r pridd ac yn rhwystro mwsog yn nes ymlaen.

**Planhigyn y mis – Hamamelis mollis** (Collen ystwyth/*Wych hazel*)
Daeth y goeden hon o Tsieina yn 1879. Mae'n goeden boblogaidd gan fod y brigau sy'n dal clystyrau o flodau melyn peraroglus yn dod â lliw ar ganol gaeaf. Yn nes ymlaen, bathwyd yr enw collen ystwyth gan ymsefydlwyr Prydeinig i Ogledd America oedd yn gweld tebygrwydd i'r gollen oedd yn gyfarwydd iddynt o'u mamwlad.

Daw'r gair 'wych' o'r hen air Saesneg am frigau hyblyg; dyna pam y defnyddir brigyn o'r gollen hon fel gwialen i chwilio am ddŵr – '*dowsing rod'*


ECO'r Wyddfa

**Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?**

Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu

Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com



# Cwis Chwaraeon 2021

**Gyda'r flwyddyn yn brysur ddod i ben, beth am weld faint rydych chi wedi talu sylw i ddigwyddiadau chwaraeon y flwyddyn gyda chwis!**

**Trowch i dudalen 32 i weld yr atebion.**




Cwestiwn rhif 6




Cwestiwn rhif 14



Cwestiwn rhif 13

1. Pwy enillodd Pencampwriaeth Dartiau y Byd PDC?
2. Pwy enillodd gystadleuaeth Ewro 2020?
3. Sawl gwlad oedd yn cynnal cystadleuaeth Ewro 2020?
4. Ym mha ddinas oedd y Gemau Olympaidd?
5. Yn rhan o dîm Prydain yn y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd, sawl medal enillodd y Cymry?
6. Pwy oedd y dyn cyntaf i ennill 100 o gapiau i dîm pêl-droed Cymru eleni?
7. Pwy enillodd Pencampwriaeth y Chwe Gwlad?
8. Ble mae Cwpan y Byd FIFA yn cael ei chynnal flwyddyn nesaf?
9. Beth yw enw'r ferch 18 mlwydd oed enillodd gystadleuaeth Tennis yr US Open?
10. Pwy enillodd  y Ryder Cup?
11. Beth oedd enw'r joci enillodd y Grand National? Y ferch gyntaf i wneud hynny.
12. Pwy enillodd Uwchgynghrair Cymru?
13. Enillodd Tadej Pogacar y Tour De France ond o ba wlad mae'n dod?
14. Pwy gafodd ei phenodi fel rheolwr newydd tîm pêl-droed merched Cymru?
15. Pwy enillodd y Cwpan Undydd yn Trentbridge mis Awst?




Cwestiwn rhif 5

# Merched Cymru yn gobeithio cyrraedd Cwpan y Byd 2023

Gyda Chymru wedi chwarae 6 gêm yn ymgyrch Cwpan y Byd 2023 mae eu gobeithion o gyrraedd y gystadleuaeth yn Seland Newydd ac Awstralia dal yn fyw. Roedd gan Gymru ddwy gêm i chwarae mis Tachwedd a rheiny yn erbyn Groeg adref a Ffrainc oddi cartref. Mewn chwe gêm yn y grŵp rhagbrofol dim ond un gêm mae'r merched wedi ei golli a hynny yn erbyn Ffrainc fis diwethaf.

Groeg oedd yn eu wynebu yn gyntaf ym Mharc y Scarlets ac roedd hon yn gêm ddisglair iawn i dîm Gemma Grainger gyda Chymru yn ennill o bump gôl i ddim. Sophie Ingle oedd y cyntaf i sgorio a hynny o fewn 7 munud cyn i Kayleigh Green yna ddwblu'r fantais a rhoi Cymru dwy gôl ar y blaen dim ond 10 munud wedyn. Fe sgoriodd Ceri Holland ddwy gôl a Natasha Harding gafodd y bumed gôl i Gymru ychydig dros awr i mewn i'r gêm. Noson digon distaw gafodd Laura O'Sullivan gôl-geidwad Cymru wrth i Groeg gael un ergyd yn unig am y gôl. Fe roddodd Cymru berfformiad ddominyddol dros ben ac roedd hi'n gêm bwysig i gael buddugoliaeth ynddi yn enwedig o ystyried mai Ffrainc oedd yn eu chwarae nesaf. Yn bendant fe roddodd y canlyniad yma dipyn o hyder iddyn nhw wrth fynd ymlaen i'r gêm nesaf.

Teithiodd Cymru i Guingamp yn Llydaw i herio Ffrainc ond yn anffodus doedd dim pwyntiau yn dod adref gyda nhw. Fe lwyddodd Ffrainc i ennill o ddwy gôl i ddim ond rhaid cyfaddef roedd y sgôr yn flattering iawn o gysidro pa mor dda oedd Cymru yn chwarae. Fe gychwynodd Cymru yn arbennig o dda gan fynd yn agos iawn i sgorio yn y munudau cyntaf! Fe ildiodd Cymru gôl ychydig eiliadau cyn hanner amser ond wedi gwneud yn dda i gadw Ffrainc i ffwrdd tan hynny. Gydag ugain munud i fynd fe welwyd Cymru yn mynd lawr i 10 wrth i Kayleigh Green gael ei gyrru oddi ar y cae ar ôl derbyn ail gerdyn melyn (hwn oedd ei hail gerdyn coch mewn pum gêm ragbrofol Cwpan Y Byd). Roedd hi felly wedi troi yn hyd yn oed yn fwy o her i Gymru i geisio cael unrhyw beth allan o'r gêm. Yn y munudau olaf fe aeth Jess Fishlock o fewn trwch blewyn o sgorio i unioni'r sgôr ond fe aeth Ffrainc ymlaen a thorri ffwrdd i sgorio ar yr ochr arall o'r cae i selio'r fuddugoliaeth. Er bod Cymru yn siomedig gyda'r canlyniad terfynol mae'n gadarnhaol dros ben i ystyried eu bod wedi chwarae mor dda yn erbyn un o dimau gorau'r byd. Mae'r ffaith eu bod yn siomedig na lwyddon nhw i gael gêm gyfartal yn dangos pa mor bell maent wedi dod.

Gyda chwe gêm wedi chwarae felly mae Cymru ar hyn o bryd yn ail yn y grŵp rhagbrofol gyda Ffrainc (dim syrpreis yn fana) ar y brîg. Mae pethau dal yn edrych yn dda i Gymru i gyrraedd Cwpan y Byd 2023.

# Cymru dal yn gobeithio hawlio lle yn Qatar 2022

Gyda grwpiau rhagbrofol Cwpan y Byd 2022 wedi dod i ben, mae breuddwyd Cymru o gyrraedd Cwpan y Byd Qatar 2022 dal yn fyw. Fe lwyddodd Cymru i orffen yn ail yn y grŵp, a sicrhau eu lle yn y gemau ail-gyfle fydd yn cymryd lle mis Mawrth flwyddyn nesaf. Yn bendant mae wedi bod yn flwyddyn llwyddiannus i Gymru ac wedi bod yn braf ofnadwy i gael dychwelyd yn nôl i'r stadiymau, ac wrth gwrs wedi cael croesawu teithiau 'Wales Away' yn nôl! Mae gan gefnogwyr Cymru ddigon i edrych ymlaen ato yn y flwyddyn newydd wrth i Gymru fynd ati i geisio hawlio eu lle yn Qatar.

### BALE YN HITIO'R 100

Roedd dwy gêm o flaen Cymru mis Tachwedd i orffen ymgyrch Cwpan y Byd 2022 a'r ddwy gêm yn cael eu chwarae adref yn Stadiwm Dinas Caerdydd. Belarws oedd ein gwrthwynebwyr ar gyfer y gêm gyntaf ar y 13eg o Dachwedd ac roedd y gêm hon yn achlysur arbennig i un dyn yn benodol. Fe enillodd Gareth Bale ei 100fed cap i Gymru, dim ond yr ail ddyn i gyrraedd y garreg filltir yma wrth i Chris Gunter gyrraedd y 100 o'i flaen ym mis Mawrth. Mae balchder Gareth Bale i wisgo crys Cymru yn sicr yn cael ei adlewyrchu yn y niferoedd yma o gapiau. Mae cyrraedd 100 yn gamp arbennig i unrhyw un. Rydym yn lwcus iawn o gael rhywun sydd a'i dalent o yn ogystal â chael rhywun sydd yn caru ei wlad gymaint ag y mae Bale yn caru Cymru!

### CYMRU V. BELARWS

Pa ffordd well i ddathlu'r garreg filltir hon na chyda buddugoliaeth gampus o 5 gôl i 1 yn erbyn Belarws. Fe gychwynodd Cymru yn syth ar y droed flaen wrth i Aaron Ramsey sgorio o fewn 2 funud. O'r pwynt hwnnw roedd rhywun yn ffyddiog y byddai hon yn gêm dda a byddai mwy o goliau ar y ffordd. Erbyn 20 munud, roedd Cymru wedi dwblu eu mantais wrth i Gareth Bale ddarparu'r bêl i Neco Williams a wnaeth daro cefn y rhwyd. Cafodd Bale ei eilyddio yn ystod hanner amser sydd yn siom. Byddai wedi bod yn braf i'r cefnogwyr ei gymeradwyo oddi ar y cae i ddangos iddo cymaint mae ei ymroddiad yn golygu i ni.

Fodd bynnag, fe gamodd Aaron Ramsey ymlaen fel y capten yn dilyn ymadawiad Gareth Bale ac fe gafodd ei ail gôl o'r gêm yn fuan iawn i mewn i'r ail hanner gyda chic o'r smotyn. Roedd Cymru yn mynd amdani gyda cyfle ar ôl cyfle a gyda chwarter awr i fynd fe gafodd Ben Davies ei gôl rhyngwladol cyntaf! Aeth y bêl i mewn i gefn y rhwyd oddi ar ei ysgwydd a doedd neb mewn mwy o sioc na Ben Davies ei hun. Roedd y stadiwm yn bownsio gyda'r cefnogwyr i gyd mor falch drosto. Fe aeth yn agos eto i sgorio ond roedd rhaid iddo fodloni ar dim ond yr un. Yn ystod munudau olaf y gêm fe gafodd Belarws gôl ond fe ymatebodd Cymru yn nôl i hyn gyda gôl arall, Connor Roberts oedd y sgoriwr y tro yma.

Gyda'r fuddugoliaeth yma roedd Cymru yn ail yn eu grŵp rhagbrofol a 3 phwynt o flaen y Weriniaeth Tsiec. Gan fod Cymru wedi ennill eu grŵp yn y 'Nations League' y llynedd roedd eu lle yn y gemau ail gyfle wedi sicrhau yn barod ond roedd y gêm nesaf yn erbyn Gwlad Belg yn bwysig am y byddai'n datgan os y byddai Cymru yn cael gêm cartref neu oddi cartref.

Yn syml, os byddai Cymru yn ennill yn erbyn Gwlad Belg byddent yn chwarae gartef yn y gêm ail-gyfle cyntaf, os byddai Cymru yn colli, byddent yn chwarae oddi cartref. Roedd gêm gyfartal felly yn golygu byddai'n rhaid dibynnu ar ganlyniadau eraill i selio tynged Cymru.





### CYMRU V. GWLAD BELG

Roedd Gwlad Belg yn colli nifer o'u chwaraewyr allweddol gan gynnwys Lukaku, Courtois, Eden Hazard a Tielemans ond doedd hynny ddim yn golygu nad oedd Roberto Martinez yn gallu enwi tîm cryf i wynebu Cymru ar y 16eg o Dachwedd. Gwlad Belg gychwynnodd orau wrth i Kevin De Bruyne eu rhoi ar y blaen o fewn 12 munud. Roedd hon am fod yn dipyn o her i Gymru wrth i Gwlad Belg ddominyddu'r gêm a hawlio'r rhan fwyaf o'r meddiant. Wrth gyrraedd marc yr hanner awr fe lwyddodd Kieffer Moore i unioni'r sgôr. Fe ddaeth cyfleon wedyn i'r ddau dîm ac fe wnaeth Cymru yn wych i atal Gwlad Belg rhag sgorio. Fe aeth Neco Williams o fewn trwch blewyn i gipio'r fuddugoliaeth yn y munudau olaf! Doedd hi ddim i fod ac fe orffennodd hi'n 1 yr un. Roedd gêm gyfartal yn ddigon i Gymru yn y diwedd oherwydd canlyniadau gemau eraill i hawlio gêm gartref yn y gemau ail-gyfle ac i orffen yn ail yn y grŵp.

### "OND PWY GAWN NI?"

Gyda'u enw yn yr het ar gyfer y gemau ail-gyfle fe welwyd enw Cymru yn cael ei dynnu i chwarae eu gêm gyntaf mis Mawrth yn erbyn Awstria yng Nghaerdydd. Os yn fuddugol byddent yna yn mynd ymlaen i chwarae yn erbyn unai Yr Alban neu Ukraine a bydd y gêm honno hefyd yng Nghaerdydd. Dwi'n credu y bydd nifer o gefnogwyr Cymru yn hapus gyda hynny am ei fod yn golygu ein bod yn osgoi timau fel Portiwgal a'r Eidal. Yn bendant mae'n gyfle gwych i Gymru a felly rhaid croesi popeth ar gyfer mis Mawrth a gobeithio y bydd Cymru yn ei gwneud hi i Qatar flwyddyn nesaf!

### COFIO CAWR

Mae dilyn pêl-droed Cymru wedi bod yn arbennig yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae'n anodd coelio pa mor bell rydym wedi dod. O fod yn safle 117 yn y byd i gystadlu yng nghystadleuthau'r Ewros yn 2016 a 2021 ac o fewn trwch blewyn o gyrraedd Cwpan y Byd! Fyddai hynny ddim wedi bod yn bosib oni bai am un dyn. Gary Speed. Ar y 27ain o Dachwedd flwyddyn yma, roeddem yn cofio 10 mlynedd ers i bêl-droed Cymru, ac yn sicr y byd pêl-droed cyfan, golli dyn arbennig iawn. Gary Speed oedd gwraidd llwyddiant Cymru dros y blynyddoedd diwethaf. Fo oedd yn gyfrifol am roi sylfaen a chynllun hir dymor i'r tîm. Fyddai Cymru ddim wedi cyflawni yr hyn y maent hebddo fo ac am hynny dwi'n siwr fe allaf siarad ar ran nifer pan dwi'n dweud y byddwn yn ddiolchgar iddo am byth. Fe gafwyd munud o gymeradwyaeth yn y ddwy gêm gyda'i lun i fyny yn y stadiwm i gofio amdano.

Does dim ond un Gary Speed.

## COLOFN CHWARAEON

### Cyfarchion

Ar ran 'staff' y Golofn Chwaraeon dymunaf Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Well i chwi ein darllenwyr ffyddlon. Diolch eleni am gyfraniad teulu Mared o Waunfawr, â ysgafnhaodd y baich arnaf yn aml. Cofiwch mai eich PAPUR CHWI yw'r Eco. Danfonwch eich stori chwaraeon acw ac fe gaiff y sylw priodol.

### Diolch

A thîm pêl- droed y wlad fach yma ar ei ffordd i Quatar a Chwpan y Byd gobeithio, diolch i'r sawl a ddarganfuodd 'nain neu thaid' i Kiefer Moore yn niwloedd gorffenol ardal Llanrug. Ond, pwy oeddynt?

### Cofion

Yn dawel ym Mhlas Pengwaith ddiwedd Tachwedd collodd Llanberis un arall o'i hogia 'ffwtbol'. Os bu Daran erioed yna'r diweddar Ken Jones/Ken James/Ken Peintar oedd hwnnw. Bu'n ffodus i weld a bod yn rhan o fwy nag un oes aur yn hanes y Darans. Gwasanaethodd y clwb fel chwaraewr, pwyllgorddyn, cadeirydd ac yna gyda chryn falchder derbyn y dysteb uchaf gan y clwb sef Aelod am Oes. Sgwrsiwr o reddf oedd Ken, ac nid oedd yn hir i mewn i sgwrs – beth bynnag y testun - na fyddai timau, chwaraewyr neu gemau'r Darans yn britho'r sgwrs. Ymfalchiai ei fod yn aelod o'r pwyllgor a alluogodd y clwb i brynnu maes Ffordd Padarn, i'w ddatblygu a gosod llwyfan barhaol i barhad y clwb. Taranodd yn erbyn dyfarniad yr awdurdodau yn is-raddio maes Ffordd Padarn, fel ei fod yn rwystr i unrhyw ddyrchafiad i'r Darans yn y dyfodol agos. Gwyddai Ken am ymdrech y ffyddloniaid i ddatblygu'r clwb a'i adnoddau cyn belled ac y gellid. Ni allai Ken ddirnad Llanberis heb dîm pêl-droed. Yn bwysicach, fod cyfle yno i ieuenctid y pentref deimlo'r wefr o gynhyrchioli'r pentref yn lliwiau'r Darans. Mor aml fyddai'r ffôn yn mynd gyda stori o Lanberis. " Ken yma." A dyna ugain munud o wrando. Snwcer. Rhedeg. Ac wrth gwrs, ffwtbol. Rhywle ym mhob sgwrs gyda gryn falchder deuai'r frawddeg, " Mae Ifan yn sgorio gôls rwan, wsti. Un da am gôl ydy o." Ie, mae ysbryd Ken, drwy ei ŵyr yn dal i fritho maes Padarn Road.

Os gwir ei eiriau roedd gan Ken swydd arall yn y clwb – sgowt! Dros y blynyddoedd daeth ambell i chwaraewr 'o ffwrdd' i arwyddo i Lanberis, wedi iddynt dderbyn swyddi gyda'r Cyngor Sir. Roedd Ken, fel peintiwr ysgolion, yn byw a bod lawr yn Swyddfa Dre. Roedd Peter Evison, Barry Davenport a John Coull, ymysg y rhain. Os deuai eu henwau i fyny mewn sgwrs yna'r un oedd ymateb Ken, " Fi ga'th nhw i Lanberis." Pan arwyddais i Lanberis am dri thymor yn y 70'au roedd Ken dipyn bach yn amheus fod cyn-chwaraewr Llechid a Bethesda Celts yn arwyddo i Lanbêr. Daeth dros ei broblem drwy gyfeirio ataf fel " gŵr Mary Wyn", ac felly'n deulu. Dweud y gwir, roedd gan Ken feddwl y byd o hogia Llechid – oddi ar y cae! Emrys, Brian Corbri, Roger, Gareth Spitfire, Alan Hampshire a'r gweddill. Ar wahan i'r 'blydi gôli na' gostiodd y bencampwriaeth i Lanberis ar y noson fythgofiadwy honno!



Ei hoff dîm tu allan i'r Darans oedd Derby County a'r unigryw Brian Clough yn eu harwain. Dychmygwch Ken a Cloughie yn cyfarfod am sgwrs. Rwy'n siwr y gallai Derby County ddysgu rhywbeth gan y Darans, a Cloughie rywbeth ei hun o ddulliau Lal Jones.

Yn yr angladd yn Eglwys Padarn rhoddwyd terynged i'w 'Yncl Ken' gan y Parch. John Pritchard. Yr oedd y geiriau 'cyfraniad' a 'gwasanaeth' yn britho'r deyrnged. Y cyfraniad nid yn unig ym myd y ffwtbol ond hefyd i'w gymuned. Cymuned ble y magwyd Ken. Cymuned a fu'n gefn i'w deulu drwy gyfnodau annodd. Cyfraniad Ken fel Cynghorydd a Chadeirydd y Cyngor Cymuned. Ei waith di-flino i ddatblygu y Ganolfan a'i hadnoddau. Ken, gwarchodwr y maes parcio a ddaeth ac elw sylweddol i gefnogi'r Ganolfan.

Ond, gweddus hefyd yn nheyrnged John oedd cyfeirio at yr ochr y Darans, rhannau a ddenodd wên ymysg y gynulleidfa. Braf oedd gweld cyn-chwaraewyr ac aelodau o'r garfan bresennol yno. Y diwrnod yr ymfalchiai Ken ynddo, a record o ryw fath mae'n siwr. Mewn un gêm roedd Ken a phedwar o'i frodyr ar y cae yn cynrychioli'r Darans. Diwrnod y ffeinal fawr ym Mae Colwyn rhwng Llanberis a thîm cryf Dinbych. Ken wedi llwyddo i lenwi llond pum bws o gefnogwyr i floeddio'r Darans i fuddugoliaeth. Trefnu sêt i bawb. Confoi y bysus yn mynd – gan adael Ken ar ei ôl. Llwyddodd I gyrraedd mewn pryd. Ffeinal ar gae Dyffryn Nantlle. Gêm gyfartal gyda dau funud i fynd. Ymddangos fel 'ciciau o'r smotyn'. John Pritchard yn cael cnoc. Dim byd i boeni amdano. Ken yn mynnu fod John yn dod oddi ar y cae. Y rheswm. Doedd o ddim eisiau gweld John yn methu un o'r ciciau, ac felly 'un o'r teulu' yn cael bai am golli'r cwpan Ia, tewach gwaed na dŵr.

Ia, dyn 'ffwtbol' yn ei holl agweddau oedd Ken. Trysorwn ei gyfraniad. Cydymdeimlwn â'r teulu yn eu colled. Dyn a frwydrodd drwy sawl amgylchiad oedd Ken, ac yn lais dros eraill, yn enwedig dros y pentref oedd yn adra go iawn iddo. Heddwch i'w lwch.



SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

### Atebion

1. Gerwyn Price.
2. Yr Eidal.
3. 11.
4. Tokyo.
5. 22.
6. Chris Gunter.
7. Cymru.
8. Qatar.
9. Emma Raducanu.
10. Unol Daleithiau o America (UDA)
11. Rachel Blackmore.
12. Cei Conna.
13. Slofenia.
14. Gemma Grainger.
15. Glamorgan.

ISSN 2516-7235
9 772516 723001 >